RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

01/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

10/01/2023

# Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-238-9

**Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru**

Awduron: Endaf Griffiths, Dr Nina Sharp, Sam Grunhut (oll o Wavehill), yr Athro Mike Woods (Prifysgol Aberystwyth)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, E et al. (2023). *Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 01/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-leader-yng-nghymru

wavehill™
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwilio, Monitro a Gwerthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

1. Cyflwyniad a Chefndir ........................................ 5
2. Methodoleg ........................................ 14
3. Cyllideb, gwariant, dangosyddion perfformiad allweddol, a'r gweinyddu ar gynllun LEADER ........................................ 22
4. Gweithredu dull LEADER yng Nghymru ........................................ 39
5. Adolygiad o brosiectau a ariannwyd gan gynllun LEADER ........................................ 64
6. Canlyniadau, gwerth ychwanegol ac effaith LEADER ........................................ 75
7. Casgliadau ac argymhellion ........................................ 94

**Tabl tablau**

Tabl 3.1: Gwariant LEADER fesul corff gweinyddol a dyddiad gorffen prosiect, hyd at fis Mawrth 2022 ........ 29
Tabl 3.2: Dangosyddion LEADER, cyflawniadau hyd at diwedd mis Mawrth 2022 ........ 30
Tabl 4.1 Nifer cyfarfodydd GGLl a phresenoldeb aelodau, wedi'u rhannu yn ôl sector – Mai 2015 i Ragfyr 2021 ........ 45
Tabl 5.1: Nifer a chanran prosiectau LEADER yn ôl thema ........ 65

**Tabl ffigurau**

Ffigur 1.1: Saith nodwedd dull LEADER ........ 7
Ffigur 2.1: Enghraifft o Theori Newid linol ........ 16
Ffigur 3.1: Dyraniad cyllid LEADER fesul ardal GGLl ........ 24
Ffigur 4.1: Grwpiau oedran ymatebwyr yr arolwg i aelodau GGLl yng Nghymru ........ 47
Ffigur 4.2: Barn ymatebwyr yr arolwg ar-lein ynghylch pa mor effeithiol y gweithredwyd rolau'r cynllun/GGLl ........ 49
Ffigur 4.3: Cyfran yr amser a dreuliai GGLl ar weithgareddau allweddol, fel y nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg ar-lein, ± gwyriad safonol cymedr (a ddangosir gan y bariau ansicrwydd) ........ 50
Ffigur 4.4: Pa mor gyfarwydd yr oedd ymatebwyr yr arolwg ar-lein â phrosiectau a wnaed gan GGLlau mewn rhannau eraill o Gymru, y DU ac Ewrop ........ 56
Ffigur 6.1: Darlun o ddolen canlyniad-allbwn mewn model Theori Newid ........ 83
Ffigur 6.2: Barn ymatebwyr yr arolwg am effaith gweithgareddau LEADER o ran effeithiau allweddol posibl ar raddfa o 1 (ddim o gwbl) i 5 (i raddau helaeth) ........ 84

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AGB | Adroddiad Gweithredu Blynyddol |
| CCTs | Themâu Trawsbynciol |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd – cangen weithredol yr UE sydd â swyddogaethau gweinyddol a'r gallu i gyflwyno deddfwriaeth |
| CFAP | Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol |
| CGC | Cymunedau Gwledig Creadigol |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) |
| CLLD | Datblygu lleol dan arweiniad y gymuned |
| COVID-19 | Clefyd coronafeirws 2019 |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| EFF | Cronfa Pysgodfeydd Ewrop |
| EIP | Partneriaeth Arloesi Ewrop |
| EMFF | Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop |
| ENRaW | Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESI | Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd |
| FBIS | Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd |
| FLAGs | Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd |
| GDPR | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| GGLlau | Grwpiau Gweithredu Lleol |
| KPIs | Dangosyddion perfformiad allweddol |
| LEADER | Yn deillio o'r ymadrodd Ffrangeg 'Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale', sy'n golygu 'cysylltiadau rhwng camau gweithredu ar gyfer datblygu'r economi wledig' |
| NPT | Castell-nedd Port Talbot |
| RCDF | Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig |
| RCT | Rhondda Cynon Taf |

| | |
|---|---|
| RDP | Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru |
| RPW | Taliadau Gwledig Cymru |
| SDLl | Strategaeth Datblygu Lleol |
| TBIS | Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren |
| TPIF | Y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth |
| UE | Undeb Ewropeaidd – undeb gwleidyddol ac economaidd o aelod-wladwriaethau sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn Ewrop |
| WRN | Rhwydwaith Gwledig Cymru |

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Dyma'r adroddiad terfynol yn gwerthuso gweithredu cynllun LEADER fel rhan o Gymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020[1], a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bennod gyntaf hon yn cyflwyno trosolwg o'r cynllun, y cyd-destun polisi yng Nghymru, a nodau ac amcanion y gwerthusiad.

1.2 Mae'r adroddiad wedyn wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad
- Mae Pennod 3 yn adolygu cyllideb y cynllun, gwariant, cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol, a'r gweinyddu arno
- Ym Mhennod 4 trafodir sut y rhoddwyd dull LEADER ar waith, fel y cyflwynir isod, yn ystod cyfnod 2014–2020 y rhaglen
- Mae Pennod 5 yn adolygu'r prosiectau a gefnogwyd fel rhan o'r cynllun presennol
- Ym Mhennod 6 ystyrir canlyniadau a gwerth ychwanegol LEADER yng Nghymru
- Yn olaf, mae Pennod 7 yn nodi casgliadau ac argymhellion y gwerthusiad.

1.3 Mae cryn dipyn o gefndir a gwybodaeth mewn Adroddiad Technegol ar wahân er mwyn i'r prif adroddiad hwn gael cymaint o ffocws â phosibl. Mae'r Adroddiad Technegol yn cynnwys:

- Gwybodaeth fanylach am yr elfennau unigol sy'n llunio 'dull LEADER'
- Adolygiad o lenyddiaeth academaidd a llwyd yn ymwneud â LEADER yng Nghymru
- Enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd fel rhan o'r cynllun LEADER presennol
- Astudiaethau achos ar gyfer prosiectau a gefnogwyd fel rhan o iteriadau blaenorol LEADER yng Nghymru.

[1] Er bod cyfnod y rhaglen wedi rhedeg tan ddiwedd 2020, dylid nodi y gellir gwario tan ddiwedd 2023 o ganlyniad i'r hyn a elwir yn rheol N+3, sy'n berthnasol i raglenni a ariennir gan Ewrop.

### Nodau ac amcanion y gwerthusiad

1.4 Roedd dau brif amcan i'r gwerthusiad, sef asesu:

- Gweithredu LEADER yng Nghymru yng nghyfnod presennol y rhaglen.
- Cyfraniad LEADER at ddatblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig ers ei rhoi ar waith yng Nghymru.

1.5 Mae'r gwerthusiad, fodd bynnag, hefyd yn rhannol wedi archwilio datblygu gwledig dan arweiniad y gymuned (CLLD) yn ehangach yn ogystal ag etifeddiaeth tymor hwy y dull gweithredu yng Nghymru, a hynny yn ychwanegol at y canlyniadau tymor byrrach sy'n cael eu cynhyrchu. Ceir rhestr lawn o gwestiynau ymchwil y gwerthusiad yn yr Adroddiad Technegol.


### Trosolwg o ddull LEADER

1.6 Daw'r acronym 'LEADER' o'r ymadrodd Ffrangeg 'Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale', sy'n golygu 'cysylltiadau rhwng camau gweithredu ar gyfer datblygu'r economi wledig'. Fel y dangosir yn Ffigur 1.1, mae'r dull gweithredu yn cynnwys saith nodwedd benodol ac, yn bwysig, mae'r dull yn dibynnu ar yr holl nodweddion hyn yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd. Y saith nodwedd hyn, a'u hintegreiddio gyda'i gilydd, sy'n diffinio LEADER fel dull penodol i fynd ati i ddatblygu cefn gwlad a datblygu'n lleol dan arweiniad y gymuned yn fwy cyffredinol. Ceir disgrifiad manylach o bob un o'r nodweddion hyn yn yr Adroddiad Technegol.

1.7 Lluniwyd LEADER yn y 1990au mewn ymateb i farn y Comisiwn Ewropeaidd (CE) bod polisïau traddodiadol, o'r brig i lawr, wedi methu â mynd i'r afael â phroblemau a wynebai lawer o ardaloedd gwledig yn Ewrop. Fodd bynnag, mae LEADER wedi mynd drwy sawl iteriad ers ei gyflwyno (fel y disgrifir yn Atodiad B y ddogfen hon). Fodd bynnag, mae'r ffocws bob amser wedi bod ar gael pobl a sefydliadau lleol i ysgogi datblygiad lleol (yn hytrach nag fel buddiolwyr sy'n derbyn cefnogaeth), gan eu grymuso i gyfrannu at ddatblygiad eu hardaloedd gwledig yn y dyfodol.

1.8 Mae Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLlau) yn ganolog i'r dull gweithredu. Maent yn bartneriaethau gydag aelodau sy'n dod o'r sectorau cyhoeddus, preifat a sifil (neu 'drydydd' sector) a nhw yw'r prif offeryn ar gyfer gweithredu dull LEADER. Maent yn sicrhau bod cynrychiolwyr lleol yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu a chyflawni strategaethau lleol, gwneud penderfyniadau, a dyrannu adnoddau.

**Ffigur 1.1: Saith nodwedd dull LEADER**




**Datblygu lleol dan arweiniad y gymuned**

1.9 Mae llwyddiant canfyddedig dull LEADER ar lefel y Comisiwn Ewropeaidd wedi arwain at ehangu ei ddefnydd nid yn unig mewn rhaglenni gwledig ond hefyd y tu hwnt i 'ddatblygiad gwledig' i fod dan faner 'datblygu lleol dan arweiniad y gymuned' ('*community-led local development*' yn Saesneg neu 'CLLD' yn fyr). Mae'r diffiniad o CLLD[2] fel y defnyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd yn seiliedig ar LEADER ac mae'n disgrifio dull y mae'n rhaid ei fod dan arweiniad y gymuned (trwy GGLlau) a'i weithredu trwy Strategaethau Datblygu Lleol (SDLl) integredig sy'n seiliedig ar ardal. Rhaid cynnwys y gymuned leol wrth lunio'r strategaeth a dylid disgrifio'r broses ymgysylltu hon yn y strategaeth. Ymhellach, ni cheir pennu CLLD o'r brig i lawr. Pwysleisir hefyd nad proses o drosi strategaethau sy'n bodoli eisoes i SDLl yw CLLD na dwyn ynghyd grŵp o weithredwyr lleol presennol i ffurfio GGLlau. Mae'n

[2] Ffynhonnell: Canllawiau ar gyfer Datblygu Strategaethau Datblygu Lleol dan arweiniad y Gymuned, y Comisiwn Ewropeaidd

hanfodol cynnwys trawstoriad o'r gymuned leol a dargedwyd wrth ddatblygu a rheoli'r strategaeth ac wrth feddwl am ddatrysiadau i faterion lleol.

1.10 Mae Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) eraill wedi cynnwys dull CLLD fel rhan o'r opsiynau ar gyfer eu gweithredu. Yn ystod cyfnod 2007–2013 y rhaglen, cyflwynwyd CLLD i Gronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) drwy sefydlu Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAGs) ledled Ewrop, gan gynnwys yng Nghymru. Parhawyd â hyn yn rhaglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014–2020. O 2014, roedd CLLD hefyd ar gael o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Fodd bynnag, dewisol yw gweithredu'r dull hwn, gan barhau i fod yn orfodol yn unig yng Nghronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ar ffurf LEADER. Fodd bynnag, nid oedd y dewis i gynnwys CLLD wrth gyflwyno'r ESF a'r ERDF wedi digwydd yng Nghymru.

**Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru (2014–2020)**

1.11 Mae LEADER yn un o nifer o gynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'yr RDP'), sef rhaglen fuddsoddi saith mlynedd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (UE) drwy'r EAFRD.

1.12 Mae'r RDP yn rhaglen Cymru gyfan sy'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau sydd â'r nod o wella cynaliadwyedd a chryfhau gwytnwch ein hamgylchedd naturiol, y sector seiliedig ar y tir, busnesau bwyd, a hefyd ein cymunedau gwledig. Mae gan y rhaglen gyllideb o hyd at £842m, sy'n cynnwys tua £562m o arian yr UE gyda'r gweddill yn dod o gronfeydd Llywodraeth Cymru ei hun[3].

**Cynllun LEADER**

*Cynlluniau blaenorol*

1.13 Mae cynlluniau LEADER wedi bod ar waith yng Nghymru ers y 1990au, gan ddechrau gyda 'chyfnod arbrofol' y dull gweithredu rhwng 1991 a 1993. Roedd pedwar GGLl yng Nghymru bryd hynny, sef ym Mhowys, De Sir Benfro, Gwynedd, a Sir Gaerfyrddin. Datblygodd y cynllun wedyn yn ystod sawl cyfnod y rhaglen:

- LEADER II (1994–1999, wyth Grŵp Gweithredu Lleol)

[3] Ffynhonnell: Rhaglen Datblygu Gwledig: yr arian a ddyrannwyd, a ymrwymwyd ac a wariwyd | LLYW.CYMRU, ffigurau ar gyfer Mawrth 2022

- LEADER+ (2000–2006, saith GGLl)
- Echel 4 yr RDP 2007–2013 (deunaw GGLl).

1.14 Mae ffocws LEADER wedi newid yn ystod y cyfnodau hyn, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer ei weinyddu a'i weithredu, ac mae manylion pellach i'w gweld yn yr Adroddiad Technegol. Mae nifer y GGLlau a'r ardaloedd daearyddol sydd ynddynt hefyd wedi newid ym mhob cyfnod y rhaglen. Mae hyn yn golygu bod LEADER wedi bod yn weithgar mewn rhai ardaloedd ers dechrau'r 1990au. Ond mewn ardaloedd eraill, cyfnod y rhaglen bresennol yw eu hymwneud gyntaf â'r dull hwn.

*Cynllun 2014–2020*

1.15 Mae cynllun presennol LEADER yng Nghymru yn cynnwys 18 GGLl sy'n gyfrifol am wardiau cymwys (h.y. ardaloedd gwledig) mewn 21 o'r 22 ardal awdurdod lleol ar draws Cymru, fel y rhestrir yn yr Adroddiad Technegol. Y cynllun presennol felly yw iteriad LEADER mwyaf ei faint yng Nghymru o ran yr ardal ddaearyddol sydd ynghlwm; roedd y 18 GGLl yng nghyfnod blaenorol y rhaglen mewn 18 ardal awdurdod lleol yn unig.

1.16 Cyfanswm gwerth LEADER yng nghyfnod presennol y rhaglen yng Nghymru yw ychydig dros £47m. Mae hyn yn ariannu pob elfen o LEADER ym mhob ardal, gan gynnwys costau gweinyddol a gweithredu (gweler Pennod 3 i gael rhagor o fanylion).

1.17 Er mai cyfnod y rhaglen yw 2014–2020, mae Erthygl 65(2) o Reoliad 1303/2013 (UE) yn nodi y bydd gwariant (cymwys) yn gymwys i'w dalu gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) os yw wedi'i wario gan fuddiolwr ac wedi'i dalu gan yr Asiantaeth Dalu cyn 31ain Rhagfyr 2023[4]. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru brosiectau LEADER am gyfnod gweithredu cychwynnol o 7 mlynedd. Fodd bynnag, rhoddwyd cyfleoedd i Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER ddiwygio eu proffiliau gweithredu wrth eu rhoi ar waith. Oherwydd hynny, bydd rhai GGLlau yn rhoi'r gorau i weithredu'n gynharach nag eraill, gyda gweithgarwch mewn rhai ardaloedd yn dod i ben yn 2022 ac eraill yn parhau tan fis Mehefin 2023.

[4] Gelwir hyn yn rheol N+3 ac mae'n berthnasol i'r holl raglenni a ariennir gan Ewrop; rhaid gwario arian a gyflawnwyd ar gyfer y blynyddoedd 2014–2020 erbyn diwedd y drydedd flwyddyn ar ôl eu dyrannu (h.y. 2023).

1.18 Caiff yr RDP ei ddatblygu ar sail chwe blaenoriaeth penodedig cyffredinol yr UE yn ymwneud â datblygu gwledig. Rhennir pob blaenoriaeth yn feysydd ymyrraeth manylach dan yr enw ‘meysydd ffocws’[5]. At ddibenion monitro, mae cynllun cyfan LEADER yng Nghymru wedi’i raglennu yn erbyn Maes Ffocws 6b (‘Datblygiad Lleol’), er ei bod yn bosibl cofnodi meysydd ffocws eilaidd (gweler yr Adroddiad Technegol).

1.19 Rhaid i weithgareddau o dan LEADER hefyd fod yn gysylltiedig ag un o bum thema LEADER ar gyfer Cymru[6], sef:

1) Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol.
2) Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr.
3) Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol.
4) Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol.
5) Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

1.20 Yn ogystal, rhaid i weithgareddau o dan LEADER fynd i’r afael ag un neu fwy o nodau ac amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer yr ardal (fel y’i datblygwyd gan y GGLl perthnasol).

1.21 Yn olaf, rhaid i brosiectau fynd i’r afael ag un neu ragor o’r Themâu Trawsbynciol pan fo’n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun y prosiect, y gweithgareddau y disgwylir eu cyflawni, a’r allbynnau neu’r canlyniadau disgwyliedig:

1) Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd, a’r iaith Gymraeg
2) Datblygu Cynaliadwy
3) Mynd i’r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

1.22 Mae hyn yn ychwanegol at y tri Amcan Trawsbynciol a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y rhaglen, sef:

1) Arloesi
2) Yr amgylchedd

[5] [Dogfen Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 2014 i 2020 | LLYW.CYMRU]
[6] Cynigiwyd y themâu hyn yn wreiddiol fel trafodaethau ac awgrymiadau rhanddeiliaid yn ystod y digwyddiadau ymgynghori ynghylch datblygu’r RDP.

3) Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo.

*Sut mae'r cynllun yn cael ei gynnal yng Nghymru*

1.23 Defnyddir y term 'o'r gwaelod i fyny' yn aml wrth drafod dull LEADER ac mae hyn wrth wraidd y cynllun. Mae hyn yn golygu bod y gymuned leol a rhanddeiliaid lleol yn ganolog i'r dull gweithredu, gan mai nhw sy'n diffinio'r blaenoriaethau ar gyfer eu hardal. Anogir iddynt gymryd rhan weithredol ym mhob cam o'r broses (o ddatblygu strategaeth gychwynnol i'w rhoi ar waith, ei gwerthuso a'i hadolygu).

1.24 Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn pennu y dylid cynnal datblygu gwledig dan arweiniad y gymuned (CLLD) trwy Strategaethau Datblygu Lleol integredig ac aml-sectoraidd sy'n seiliedig ar ardal. Yng Nghymru, mae gofyn i bob GGLl LEADER ddatblygu SDLl gan ddefnyddio templed a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Yna caiff y SDLl ei hadolygu a'i diweddaru gan y GGLl bob blwyddyn.

1.25 Trefnir gweithgareddau bywiocáu gan y tîm a gyflogir gan y corff gweinyddol ar ran y GGLl, a'r gweithgareddau hyn yn cael eu defnyddio i gefnogi cynnal cynllun LEADER ym mhob ardal. Fel yr awgryma'r term bywiocáu ('*animation'* yn Saesneg), nod y gweithgaredd hwn yw helpu i 'wneud i bethau ddigwydd' a gall gynnwys ystod o weithgareddau gan gynnwys grymuso neu gefnogi grwpiau a sefydliadau lleol i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau gan gynnwys prosiectau, astudiaethau dichonoldeb, a chynlluniau peilot (yn unol â'r Strategaeth Datblygu Lleol) neu weithgareddau mwy cyffredinol sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol fel codi ymwybyddiaeth o'r cynllun neu sectorau penodol.

1.26 Caiff y gweithgareddau i'w cefnogi gan y GGLl eu nodi mewn sawl ffordd, yn dibynnu ar yr union ddull a ddefnyddia'r GGLl perthnasol. Defnyddir dull 'galwad agored' mewn sawl ardal, lle gwahoddir sefydliadau lleol i gyflwyno eu syniadau a'u cynigion am brosiect i'r GGLl, wedi'i arwain gan y Strategaeth Datblygu Lleol a gyda chefnogaeth gweithgareddau bywiocáu. Caiff y cynigion hynny wedyn eu pwyso a'u mesur gan y GGLl. Mewn achosion eraill, bydd y GGLl hefyd yn gweithio gyda'r tîm bywiocáu i ddatblygu ac yna gweithredu ei syniadau a'i brosiectau ei hun ochr yn ochr â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol. Mae pwyslais arbennig ar ddatblygu a chefnogi syniadau a dulliau gweithredu newydd ac arloesol o ran datblygu gwledig.

1.27 Mae gweithgareddau a ariannir, ynghyd â'u cynnydd yn erbyn y Strategaeth Datblygu Lleol yn ei chyfanrwydd, wedyn yn cael eu monitro yn gyson gan y GGLl (sy'n adrodd i Lywodraeth Cymru). Llunnir adroddiadau gorffen/gwerthuso prosiectau ar ddiwedd y broses, gyda gwersi allweddol a ddysgwyd yn cael eu rhannu drwy wefan y GGLl a'r cyfryngau cymdeithasol.

1.28 Cydweithredu rhwng GGLlau yw un o brif nodweddion LEADER, gyda phob GGLl yn cael cyllideb yn benodol i gefnogi prosiectau i'w cynnal mewn cydweithrediad naill ai â grwpiau eraill yng Nghymru neu rywle arall yn yr UE. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw y gall GGLlau rannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd wrth gydweithredu ar brosiectau. Yn sgil y bwriad i gefnogi cydweithredu a rhannu syniadau, mae rhwydweithio yn un o brif nodweddion y cynllun, gyda Rhwydwaith Gwledig Cymru[7] yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth yn ymwneud â gweithgareddau GGLlau yng Nghymru a Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop[8] yn gwneud y rôl honno ar lefel Ewrop.

**Y cyd-destun polisi ar lefel uchel yng Nghymru**

1.29 Wedi'i chyhoeddi ym mis Mehefin 2021, mae Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 yn cynnwys bron i 100 maes penodol o weithgarwch[9]. Mae'r rhain wedi'u trefnu o dan ddeg amcan 'llesiant' fel a ganlyn:

1) Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
2) Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
3) Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
4) Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.
5) Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
6) Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.
7) Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.

[7] Rhwydwaith Gwledig Cymru
[8] Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop
[9] Ffynhonnell: Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU

8) Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.
9) Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.
10) Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

1.30 Mae Datganiad Llesiant wedi'i gyhoeddi ar y cyd â'r Rhaglen Lywodraethu, gan osod amcanion llesiant yn unol â dyletswydd statudol y llywodraeth o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar ben hynny, mae'n disgrifio sut y gosodwyd yr amcanion yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, sef[10]:

1) *Hirdymor*: pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir**.**
2) *Integreiddio*: ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
3) *Atal*: sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
4) *Cynnwys*: pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.
5) *Cydweithio*: gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

[10] Ffynhonnell: [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Yr hanfodion]

# 2. Methodoleg

### Cyflwyniad

2.1 Mae’r bennod hon yn disgrifio’n fras y dulliau a’r gweithgarwch ymchwil a wnaed ac a adroddir arnynt yn y penodau sy’n dilyn.

### Trosolwg

2.2 Defnyddiwyd dull sy’n seiliedig ar theori ar gyfer y gwerthusiad hwn. Mae gwerthusiadau sy’n seiliedig ar theori yn ymwneud yn bennaf â Theori Newid a hyn, fel y cyflwynir isod, wedi bod yn rhan ganolog o’r gwerthusiad hwn. Unwaith y bydd theori wedi’i sefydlu, caiff ei phrofi trwy sawl ffynhonnell dystiolaeth. Wrth gynnal dull sy’n seiliedig ar theori, mae’n bwysig cadw meddwl agored ynghylch pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio. Gellir defnyddio llenyddiaeth allanol, barn arbenigol, datganiadau cyhoeddus, ac ymchwil dull cymysg gydag ystod o randdeiliaid, fel sydd wedi digwydd ar gyfer y gwerthusiad hwn[11].

2.3 Casglwyd data drwy ddefnyddio dull cymysg, gan driongli ffynonellau data ansoddol a meintiol i greu sylfaen dystiolaeth gadarn a chynhwysfawr a hyn wedi cynorthwyo’r tîm gwerthuso i fynd i’r afael â’r cwestiynau gwerthuso.

### Cyfweliadau cwmpasu

2.4 Cynhaliwyd y cyfweliadau cwmpasu ym mis Medi/Hydref 2020, ac fe’u defnyddiwyd i drafod y blaenoriaethau ar gyfer y gwerthusiad gyda nifer o randdeiliaid allweddol ac er mwyn sicrhau dealltwriaeth o’r wybodaeth a fyddai ar gael i fod yn sail i’r gwerthusiad. Ymhellach, cyfrannodd y cyfweliadau cwmpasu at ddatblygu Theori Newid a’r Fframwaith Gwerthuso. Cynhaliwyd 14 o gyfweliadau cwmpasu gyda chynrychiolwyr GGLl o ardaloedd ledled Cymru a oedd yn cynrychioli gwahanol fathau o gyrff gweinyddol a lefelau profiad, yn ogystal â gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (n=4).

### Adolygiadau llenyddiaeth

2.5 Mae’r adolygiad ar lenyddiaeth academaidd yn seiliedig ar chwilio’n systematig drwy gronfa ddata Web of Knowledge ar gyfer cyhoeddiadau a phapurau academaidd wedi’u hadolygu gan gymheiriaid ac a gyhoeddwyd ers 1985 mewn perthynas â LEADER, CLLD yn gyffredinol, a datblygiad gwledig yng Nghymru, a’r

[11] Ffynhonnell: Llyfr Magenta Trysorlys EM, t. 36

rhain wedi'u hategu drwy chwilio drwy gatalogau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth, a thrwy fanteisio ar wybodaeth broffesiynol yr awduron am y llenyddiaeth.

2.6 Roedd y chwilio drwy'r llenyddiaeth wedi canolbwyntio'n benodol ar bapurau academaidd yn ymwneud yn uniongyrchol â LEADER ac/neu CLLD yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod y llenyddiaeth hon yn gymharol gyfyngedig, ehangwyd y chwilio i gynnwys pob astudiaeth academaidd am LEADER unrhyw le yn Ewrop. Roedd hyn wedi helpu i nodi llenyddiaeth a fyddai'n llywio gwerthusiad LEADER yng Nghymru drwy dynnu sylw at ganfyddiadau yn ymwneud â gweithredu ac effaith LEADER y gellid ystyried y cysylltiad rhyngddynt â'r dystiolaeth o Gymru ac/neu drwy wneud argymhellion ar gyfer meini prawf a phrosesau gwerthuso. Yn ogystal, nodwyd llenyddiaeth sydd wedi cyfrannu at ddeall yr heriau allweddol sy'n wynebu'r Gymru wledig.

2.7 Aethpwyd ati i sgrinio'r erthyglau hynny a nodwyd trwy'r chwiliad llenyddiaeth gan ddewis nifer i'w dadansoddi ymhellach fel rhan o'r adolygiad llenyddiaeth ar sail eu potensial i gynnig mewnwelediad i dair thema allweddol yr adolygiad llenyddiaeth fel yr amlinellir yn y rhaglen waith, sef: (1) Gwersi a ddysgwyd o ymdrechion LEADER/CLLD yng Nghymru yn y gorffennol a'r presennol; (2) Agweddau ar ddull LEADER sydd fwyaf angenrheidiol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n wynebu cymunedau gwledig yng Nghymru; ac (3) Agweddau ar fodel LEADER nad ydynt yn addas, yn llai perthnasol, neu'n anoddach i'w gweithredu yng nghefn gwlad Cymru.

2.8 Defnyddir y term 'llenyddiaeth lwyd' i ddisgrifio amrywiaeth eang o wybodaeth wahanol a gynhyrchir y tu allan i sianeli cyhoeddi a dosbarthu traddodiadol. Cynhyrchwyd ystod eang o 'lenyddiaeth lwyd' mewn perthynas â chynlluniau LEADER a'i ddull gweithredu yn fwy cyffredinol, gyda ffocws penodol ar werthusiadau. Aeth ein hadolygiad o lenyddiaeth lwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn ati i ystyried adroddiadau gwerthuso LEADER ar 'lefel GGLl' ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig 2007-2013 a 2014-2020 yng Nghymru yn ogystal â gwerthusiadau o gynlluniau LEADER mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop.

2.9 Gellir gweld yr adroddiadau llenyddiaeth yn llawn yn yr Adroddiad Technegol. Maent wedi rhoi gwybodaeth ar gyfer datblygu'r Theori Newid (fel y trafodir isod) yn ogystal â chanfyddiadau'r gwerthusiad (fel y trafodir yn y penodau canlynol).


**Datblygu Theori Newid**

2.10 Dywed Llyfr Magenta Trysorlys Ei Mawrhydi fod llunio polisïau cadarn yn gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o'r ymyrraeth a sut y caiff canlyniadau disgwyliedig eu cyflawni. Gellir defnyddio sawl teclyn i archwilio sut y dylai ymyrraeth weithio, a hyn yn aml wedi'i ddisgrifio fel 'damcaniaeth rhaglen'. Mae'r rhain yn cynnwys Theori Newid, mapio rhesymeg, fframiau log, mapio buddion, a mapio systemau. Mae'r holl brosesau hyn yn cynnwys mapio achosion ac effeithiau[12].

2.11 Yn yr achos hwn, rydym wedi defnyddio dull Theori Newid, sy'n esbonio sut y dylai ymyrraeth weithio (gan nodi'r holl gamau y disgwylir iddynt gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir), y rhagdybiaethau a wnaed, ansawdd a chryfder y dystiolaeth sy'n eu cefnogi, a ffactorau cyd-destunol ehangach[13].

2.12 Mae datblygu Theori Newid fel arfer yn cynnwys ystyried y mewnbynnau arfaethedig (yr adnoddau a ddefnyddir) a'r gadwyn achosol sy'n arwain o'r mewnbynnau hynny hyd at yr allbynnau disgwyliedig (yr hyn a gynhelir neu a gynhyrchir), canlyniadau (y canlyniadau tymor cynnar neu ganolig) ac, yn y pen draw, yr effaith (y canlyniadau tymor hir).

**Ffigur 2.1: Enghraifft o Theori Newid linol**




Ffynhonnell: Llyfr Magenta: Canllawiau'r Llywodraeth Ganolog ar Werthuso

[12] Trysorlys EM (2020), Llyfr Magenta: Canllawiau'r Llywodraeth Ganolog ar Werthuso
[13] Gweler pennod 2 Llyfr Magenta.

2.13 Defnyddiwyd y dull Theori Newid gennym i archwilio sut y cynlluniwyd LEADER i weithio yn ogystal ag i nodi'r galluogwyr, y rhwystrau, a'r rhagdybiaethau allweddol yn y ddamcaniaeth. Datblygwyd papur yn egluro'r Theori Newid ar gyfer LEADER, a'i gyflwyno i grŵp llywio'r gwerthuso i'w drafod ym mis Tachwedd 2020. Roedd yr adolygiad llenyddiaeth a chanfyddiadau'r cyfweliadau cwmpasu ill dau wedi bwydo i ddatblygiad y papur hwnnw.

2.14 Mae'r Theorïau Newid a ddatblygwyd i'w gweld yn yr Adroddiad Technegol. Fe'u defnyddiwyd i gyfrannu at ddatblygiad y Fframwaith Gwerthuso, a hwnnw'n sail i'r offer ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith maes sylfaenol a ddilynodd.

**Dadansoddi data monitro'r cynllun**

2.15 Fel rhan o'r gwerthusiad, adolygwyd y data a gedwir gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynllun LEADER (fel y trafodir ym Mhennod 3), gan gynnwys ffigurau gwariant prosiectau a dangosyddion perfformiad allweddol y cynllun (KPIs). At ddibenion y gwerthusiad, defnyddiwyd hefyd wybodaeth am y prosiectau a gefnogir gan LEADER (fel y'i ceir ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru) (gweler Pennod 5).

2.16 Yn ychwanegol at y wybodaeth oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru, casglwyd data ychwanegol yn uniongyrchol gan gyrff gweinyddol GGLlau. Casglwyd y data hwn er mwyn dadansoddi nifer cyfarfodydd y GGLlau sydd wedi cael eu cynnal ledled Cymru a'r presenoldeb yn y cyfarfodydd hynny. Casglwyd gwybodaeth sylfaenol am y tîm a gyflogwyd i gynnal LEADER ym mhob ardal hefyd.

2.17 Dosbarthwyd holiadur byr ar-lein[14] hefyd i aelodau GGLlau (h.y. ar ddull cyfrifiad) drwy'r cyrff gweinyddol er mwyn casglu data atodol ar y mathau o bobl sy'n aelodau o'r GGLlau ledled Cymru (gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd, a grŵp oedran); derbyniwyd 125 o ymatebion[15].

**Y prif ymchwil sylfaenol**

*Cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, cadeiryddion GGLl, rheolwyr cyrff gweinyddol, a rhanddeiliaid eraill (Mawrth i Gorffennaf 2021)*

2.18 Cynhaliwyd cyfanswm o 45 cyfweliad yn y categori hwn gan ddefnyddio canllawiau trafod lled-strwythuredig.

[14] Dylid nodi bod yr holl holiaduron ac offer ymchwil eraill a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.
[15] Cydnabyddir risg y gogwydd hunanddethol a'r risg gysylltiedig nad yw'r sampl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth (h.y. pob aelod o GGLl) – gweler yr adran 'cyfyngiadau'r fethodoleg' maes o law yn y bennod hon.

2.19 Cynhaliwyd cyfweliad â phump o swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion sy’n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli a chyflwyno LEADER yn ogystal â rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ond sydd â diddordeb ehangach mewn datblygu lleol dan arweiniad y gymuned (CLLD) yng Nghymru.

2.20 Roedd yr ymgysylltu â’r GGLlau wedi cynnwys pob un o’r 18 grŵp ledled Cymru ac wedi cynnwys:

- 17 o gyfweliadau â staff (gan gynnwys staff yn gweithio dros sawl GGLl)
- 11 o gyfweliadau â chadeiryddion GGLl.

2.21 Gwahoddwyd swyddogion o holl awdurdodau lleol Cymru i gymryd rhan yn y gwerthusiad trwy wahoddiad a ddosbarthwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Yn y diwedd, cymerodd pedwar awdurdod lleol ran mewn cyfweliadau (cyfanswm o bum cyfweliad).

2.22 Cynhaliwyd saith cyfweliad gyda rhanddeiliaid dethol i ddeall barn y rheiny sy’n gweithio ym maes datblygu gwledig ond nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â LEADER. Roedd y rhain yn cynnwys unigolion a oedd yn cynnal rhaglenni, cynlluniau a phrosiectau datblygu gwledig eraill yng Nghymru yn ogystal â chynrychiolwyr o CLlLC a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Gwahoddwyd nifer o sefydliadau eraill i gymryd rhan mewn cyfweliadau ond dewisasant beidio â gwneud hynny’n aml ar y sail nad oeddynt wedi bod â chysylltiad agos â LEADER yng Nghymru ac, felly, ni theimlent y gallent gyfrannu fawr ddim at y gwerthusiad. Er mai dim ond anecdotaidd ydyw, eto gallai hyn fod yn awgrym nad yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y cynllun LEADER presennol yng Nghymru mor uchel ag y gallai fod.

*Arolwg ar-lein i’r rheiny a oedd yn gysylltiedig â LEADER yng Nghymru a chyfweliad dilynol*

2.23 Yn wreiddiol, roedd y dull arfaethedig yn cynnwys arolygon ar wahân ar gyfer nifer o grwpiau sy’n rhan o LEADER yng Nghymru. Yr hyn a sylweddolwyd o’r cyfweliadau cwmpasu, fodd bynnag, oedd y byddai dull o’r fath yn broblematig gan fod llawer o randdeiliaid yn/wedi bod yn rhan o LEADER mewn sawl ffordd wahanol. Er enghraifft, gallai cyswllt fod yn aelod o GGLl yn ogystal ag wedi derbyn cyllid ar gyfer prosiect. Ymhellach, roedd pryderon ynghylch GDPR a rhannu manylion cyswllt gyda’r tîm gwerthuso.

2.24 Lluniwyd holiadur ar-lein felly[16] a gofynnwyd i 18 corff gweinyddol eu dosbarthu mor eang â phosibl i unrhyw un â chysylltiad â LEADER, boed nawr neu yn y gorffennol, gan gynnwys:

- aelodau GGLl (nawr ac yn y gorffennol)
- staff y corff arweiniol (nawr ac yn y gorffennol)
- prosiectau a gefnogwyd (cyfnodau presennol y rhaglen a rhai blaenorol)
- pobl eraill a oedd wedi ymwneud â LEADER mewn rhyw ffordd neu'i gilydd (e.e. wedi bod yn rhan o weithgareddau 'bywiocáu')
- rhanddeiliaid lleol eraill (e.e. staff sefydliadau eraill sy'n weithgar yn yr ardal leol).

2.25 Er mwyn ehangu'r ymateb, gofynnwyd i'r rhai a dderbyniodd yr holiadur hefyd anfon y ddolen at yr holiadur at bobl y credent sy'n rhan o un neu fwy o'r grwpiau uchod ('dull pelen eira').

2.26 Cafwyd cyfanswm o 214 o ymatebion i'r holiadur ar-lein, gan gynnwys:

- Ymatebion o bob un o ardaloedd GGLlau (yn amrywio o 24 ym Mhowys i wyth yn Sir Gaerfyrddin)
- Amrywiaeth o wahanol fathau o ymwneud â'r cynllun (gan gynnwys 79 aelod GGLl, 73 o rai a dderbyniodd gymorth, a 42 aelod o staff).

2.27 Mae dadansoddiad llawn o broffiliau ymatebwyr yr arolwg i'w weld yn yr Adroddiad Technegol.

2.28 Mae'n bwysig nodi bod cyfanswm yr ymatebion yn amrywio wrth archwilio'r data o ran rôl yr ymatebwr ac/neu'r ardal y mae'r ymatebwr yn gysylltiedig â LEADER. Mae hyn oherwydd bod gan rai ymatebwyr sawl rôl ac wedi bod yn rhan o sawl GGLl.

2.29 Cynhaliwyd 44 o gyfweliadau ffôn dilynol gydag ystod eang o ymatebwyr yr arolwg ar-lein, a'r rhain yn cynrychioli pob grŵp o ymatebwyr[17] yr arolwg (gofynnwyd i ymatebwyr yr holiadur ar-lein a fyddent yn fodlon gwirfoddoli i gymryd rhan mewn cyfweliadau dilynol). Roedd y cyfweliadau hyn wedi ychwanegu haen ansoddol i'r data a gasglwyd drwy'r holiadur, gan y gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro ymhellach a thrafod y wybodaeth a roddwyd ganddynt yn yr holiadur ar-lein.

[16] Roedd y broses hon yn cynnwys treialu'r holiadur yn fewnol yn Wavehill yn ogystal â rhannu fersiynau drafft/peilot o'r holiadur gyda dau reolwr gweinyddu GGLl i'w hadolygu a threialu geiriad y cwestiynau.
[17] Roedd hyn yn cynnwys aelodau GGLl, staff y cyrff gweinyddol, prosiectau a gefnogid gan y cynllun, a rhanddeiliaid eraill.

### Cyflwyno a thrafod y canfyddiadau a gododd

2.30 Cyflwynwyd a thrafodwyd y canfyddiadau mewn cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â diddordeb yng nghanfyddiadau'r gwerthusiad ym mis Medi 2021.

2.31 Y bwriad oedd y byddai'r tîm gwerthuso yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad i'w trafod mewn cyfarfodydd GGLl ledled Cymru. Fel y bu, dim ond ar un achlysur y bu hyn yn bosibl, gan nad oedd GGLlau wedi cwrdd o fewn y cyfnod y gellid gwneud y cyflwyniadau hyn. I roi dewis arall, recordiwyd cyflwyniad o ganfyddiadau'r gwerthusiad a'i osod ar wefan Wavehill. Yna dosbarthwyd dolen i aelodau GGLl drwy'r cyrff gweinyddol. Gwelwyd y dudalen honno 66 o weithiau, gan gofnodi 34 ymweliad unigryw â'r dudalen. Derbyniwyd pum ymateb, sef pedwar gan aelodau GGLl fel unigolion ac un ar ran GGLl.

### Effaith COVID-19 ar y fethodoleg

2.32 Mae'n bwysig nodi bod pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar symud a'r cyfnodau clo wedi cael effaith ar y gwerthusiad, er nad ystyrir bod yr effaith honno yn un sylweddol. Y prif effaith oedd y modd y cynhaliwyd yr ymchwil sylfaenol a ddisgrifir uchod; cynhaliwyd y rhan fwyaf ohono dros y ffôn a fideo (yn hytrach nag wyneb yn wyneb). Fodd bynnag, ni ystyrir bod hyn wedi cael unrhyw effaith negyddol ar y gwerthusiad.

### Cyfyngiadau'r fethodoleg

2.33 Nod unrhyw werthusiad yw creu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a chadarn i ateb y cwestiynau ymchwil a osodwyd. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i unrhyw fethodoleg a ddefnyddir, ac mae angen deall y rhain wrth ystyried canfyddiadau gwerthusiad.

2.34 Yn yr achos hwn, mae'n bwysig bod yn ymwybodol mai hunanddewisiol i raddau helaeth oedd ein sampl o'r rheiny a oedd wedi bod yn gysylltiedig ag LEADER yng Nghymru. Dosbarthwyd yr holiadur ar-lein gan gyrff gweinyddol GGLl, gyda'r ymatebwyr wedyn yn dewis cymryd rhan yn yr ymchwil neu beidio. Mae'n debygol y bydd ystod eang o resymau pam y gwirfoddolodd pobl (a sefydliadau) i gymryd rhan yn y gwerthusiad, gan gynnwys bod â theimladau neu farn sy'n arbennig o gryf tuag at y pwnc ac/neu ddiddordeb penodol yn y gwerthusiad neu ei ganfyddiadau.

2.35 Felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol ei bod hi'n debygol y bydd rhywfaint o duedd hunanddethol i'r gwerthusiad. Er enghraifft, gall y penderfyniad i gymryd rhan yn y gwerthusiad adlewyrchu rhyw duedd cynhenid yn nodweddion y cyfranogwyr, e.e. unigolyn sydd â phrofiad arbennig o gadarnhaol neu negyddol y maent am ei rannu. Gall hyn arwain at naill ai sampl nad yw'n gynrychioliadol o'r boblogaeth sy'n cael ei hastudio neu arwain at or-ddweud rhyw ganfyddiad penodol o'r gwerthusiad. Fodd bynnag, caiff y risg hon ei rheoli drwy'r dull cymysg a ddefnyddir, sydd hefyd yn ystyried ystod o ffynonellau eraill o dystiolaeth (gan gynnwys data monitro, canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, ac yn y blaen). Ymhellach, mae'n bwysig nodi nad yw'r mater hwn yn unigryw i'r gwerthusiad hwn gan fod sampl hunanddethol yn nodwedd gyffredin mewn astudiaethau gwerthuso o'r natur hon.

2.36 Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau unrhyw brosiectau penodol a ariennir gan gynllun LEADER, gan yn hytrach ganolbwyntio yn bennaf ar ganlyniadau proses LEADER a'r cymryd rhan yn y cynllun. Mae hyn oherwydd fod cyfran fawr o'r prosiectau a gefnogid gan y cynllun presennol yn dal i barhau ac yn weithredol ar adeg y gwerthusiad. Mae canlyniadau prosiectau hefyd yn destun gwerthusiadau 'lleol' wedi'u comisiynu gan GGLlau unigol, a'r adroddiadau terfynol hynny i ddilyn y gwerthusiad hwn, a'r astudiaeth hon wedi ceisio peidio â'u dyblygu.

2.37 Yn olaf, mae diffyg data hefyd wedi cyfyngu ar elfennau o'r gwerthusiad (fel y trafodir yn y naratif ei hun). Yn benodol, cyfyngedig yw'r ddealltwriaeth y gellir ei dirnad o'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y cynllun o ran y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ac nid oes cronfa ddata o 'brosiectau' LEADER (ac eithrio'r wybodaeth a rennir trwy wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru), a hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i ddadansoddi data ar y gweithgareddau a gynhaliwyd ac a ariannwyd.

## 3. Cyllideb, gwariant, dangosyddion perfformiad allweddol, a’r gweinyddu ar gynllun LEADER

### Cyflwyniad

3.1 Yn y bennod hon ceir gwybodaeth am y gyllideb a ddyrannwyd i gynllun LEADER a’r dangosyddion perfformiad allweddol. Adolygir hefyd y gwaith o weinyddu’r cynllun.

Prif bwyntiau

- Yn £47.6m, mae cynllun LEADER yn cyfrif am bump y cant o gyfanswm cyllideb RDP Cymru.
- Dyrannir 75 y cant o gyllideb LEADER i brosiectau, gyda 15 y cant wedi’i ddyrannu i ‘fywiocáu’ a 10 y cant i gostau rhedeg.
- Yn ariannol, mae maint y cynllun yn wahanol iawn ledled Cymru, gan amrywio o ychydig dros £5m (Powys) i ychydig o dan £1m (Torfaen), ar sail methodoleg dosbarthu cymesur, ac i’w wario dros gyfnod rhwng 6 ac 8 mlynedd.
- Yn sgil cyfyngiadau ar gymorth gwladwriaethol a oedd ar waith tan fis Mai 2021 (a newidiwyd i ymateb i effaith pandemig COVID-19), nid oedd GGLlau bellach yn gallu rhoi cymorth i fusnesau masnachol (a fyddai’n gyfystyr â chymorth gwladwriaethol), er eu bod wedi gallu gwneud hynny, o dan amodau priodol, yng nghyfnodau blaenorol y rhaglen. Mae llawer o’r farn fod y cyfyngiadau hyn wedi cael effaith negyddol ar gwmpas y cynllun wrth ei weithredu.
- Mae’r amryw o wahanol ddyddiadau gorffen mewn gwahanol ardaloedd GGLl yn golygu ei bod yn anodd i Lywodraeth Cymru ystyried trefniadau pontio, os bydd dilyniant i gynllun LEADER yn cael ei ystyried.
- Ar lefel y cynllun, roedd 70 y cant wedi’i wario ar ddiwedd Mawrth 2022.
- Cul yw’r ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir, ac felly cyfyngedig yw eu defnyddioldeb i fesur cyflawni.
- Gan amlaf, awdurdodau lleol yw cyrff gweinyddol GGLl, ond mae chwech o’r 18 GGLl wedi’u gweinyddu gan sefydliadau annibynnol yn y trydydd sector.
- Mae nifer o ‘nodweddion’ y gellir nodi eu bod yn bresennol pan ystyrir bod y gweinyddu ar LEADER ar ei fwyaf effeithiol.
- Mae gan GGLlau fwy o reolaeth ariannol yn y cynllun cyfredol hwn o’i gymharu â chynlluniau blaenorol, gan gynnwys mwy o sicrwydd ynghylch eu cyllideb

oherwydd y symud oddi wrth y broses gystadleuol a ddefnyddid mewn cynlluniau blaenorol.

- Erys peth beirniadaeth am y baich gweinyddol yn y broses reoli ariannol a beirniadaeth am y gefnogaeth a roddwyd i'r GGLlau gan Lywodraeth Cymru.
- Ar y dechrau, roedd gan bob GGLl 'Reolwr Cysylltiadau Gwledig' a oedd yn brif bwynt cyswllt iddynt ar gyfer LEADER a mynychai gyfarfodydd GGLl. Ond nid oedd modd parhau â'r dull hwn oherwydd diffyg adnoddau o fewn tîm Llywodraeth Cymru, er ei ailgyflwyno yn ddiweddar.

**Cyllideb a dyraniad ariannol**

3.2 Mae gan gynllun presennol LEADER yng Nghymru gyllideb o £47.6m sydd wedi'i dosbarthu i 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Cymru. I roi'r ffigwr hwnnw yn ei gyd-destun, cyfanswm cyllideb RDP Cymru yw £842m, sy'n golygu bod LEADER yn cyfrif am tua phump y cant o gyfanswm y gyllideb.

3.3 Rhennir cyllid LEADER yn bedwar pot fel a ganlyn:

- **Costau rhedeg:** mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau prif strwythurau rheoli corff gweinyddol GGLl LEADER ynghyd â chostau sylfaenol megis llety swyddfa, cysylltiad TGCh a'r defnydd arni, staff craidd a'u costau teithio, ac unrhyw wariant allweddol arall sy'n angenrheidiol i'r GGLl weithredu'n effeithiol (£4.5m | 10 y cant).
- **Bywiocáu:** i gynnwys gweithgareddau'r prif fywiocáu, trefnu, ac adeiladu capasiti yn ardal GGLl er mwyn creu'r modd i drosi syniadau yn brosiectau y gellir eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys costau staff yn bennaf, costau teithio, costau sy'n angenrheidiol i drefnu cyfarfodydd a dod â phobl at ei gilydd, a, lle bo angen, cymorth technegol arbenigol neu ymgynghoriaeth (£7.1m | 15 y cant).
- **Gweithredu:** y prif bot ariannu ar gyfer mentrau penodol sydd i'w datblygu a'u cyflawni i fodloni amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol. Gellid cynnal gweithgareddau drwy ystod o bartneriaid prosiect, sefydliadau allanol ac/neu grwpiau o bobl mewn cymunedau (naill ai'n ddaearyddol neu'n thematig) neu gellid eu cynnal gan y corff gweinyddol ar ran y GGLl ei hun (£33.2m | 70 y cant).
- **Cydweithredu:** i dalu am brosiectau a gynhelir ar y cyd â GGLlau eraill yng Nghymru neu tu hwnt (£2.7m | chwech y cant).

3.4 Pan ystyrir yr arian a ddyrannwyd i 'brosiectau' oll gyda'i gilydd (h.y. Gweithredu a Chydweithredu), maent yn cyfrif am dros dri chwarter cyllideb y rhaglen.


3.5 At ddibenion rheoli ariannol, mae gan bob GGLl un 'prosiect' cyffredinol ar gyfer pob un o'r potiau hyn, sy'n newid i'r dull gweithredu ac wedi'i gyflwyno ar gyfer y cynllun hwn, gan symud i ffwrdd o'r dull blaenorol o ddyrannu (a chymeradwyo) cyllid ar gyfer ymyraethau unigol fel 'prosiectau'. Cyflwynwyd y newid hwn er mwyn lleihau cymhlethdod gweinyddol y rheolaeth ariannol ar y cynllun, ac mae wedi cyflawni'r amcan hwnnw (er bod beirniadaeth yn parhau ar brosesau rheoli'r cynllun, fel y trafodir yn ddiweddarach).

3.6 Roedd gan GGLlau yr hyblygrwydd hefyd i symud cyllid 'gweithredu' rhwng y pum thema LEADER fel y tybient sydd orau, a hyn eto yn ddull cryn dipyn yn fwy hyblyg na'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfnod blaenorol y rhaglen. Drwyddi draw, felly mae'r GGLlau wedi cael llawer mwy o hyblygrwydd yn y cyfnod presennol o ran rheolaeth ariannol eu cyllideb LEADER.

*Dyraniad cyllideb fesul GGLl*

3.7 Dengys Ffigur 3.3 isod y dyraniad cyllid fesul ardal Grŵp Gweithredu Lleol, gan amrywio o dros £5m ym Mhowys i ychydig o dan £1m yn Nhorfaen.

**Ffigur 3.1: Dyraniad cyllid LEADER fesul ardal GGLl**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2022

3.8 Dosrannwyd cyllideb y cynllun i'r GGLlau dan ddefnyddio 'methodoleg dyrannu dangosol', sef bod pob GGLl yn derbyn dyraniad craidd o £500,000, sef yr isafswm a ystyrid yn angenrheidiol i gefnogi ardal GGLl (yn seiliedig ar brofiadau rhaglen 2007–2013[18]). Yna derbyniodd pob GGLl ddyraniad ychwanegol yn seiliedig ar gyfrifiad pwysedig yn ôl y canlynol: (a) pwysoliad o 75 y cant yn seiliedig ar boblogaeth wledig y wardiau cymwys, a (b) pwysoliad o 25 y cant yn seiliedig ar ba mor wasgaredig oedd y boblogaeth wledig yn y wardiau cymwys.

3.9 Mae hyn yn newid o gynlluniau blaenorol, pan gâi arian ei ddyrannu i GGLlau ar sail gystadleuol a'i rannu dros ddau gyfnod 'cynllun busnes' dros oes y cynllun. Felly mae GGLlau wedi cael llawer mwy o sicrwydd ynghylch eu cyllideb dros amserlen hirach yn ystod cyfnod hwn y rhaglen, a hyn yn gweithredu argymhelliad o werthusiad terfynol y cynllun blaenorol.[19]

3.10 Cadarnhaol ar y cyfan oedd y farn a fynegwyd am y dull a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r gyllideb i GGLlau yn y cynllun presennol, a hyn wedi'i ystyried yn well na'r dull cystadleuol a ddefnyddid mewn cynlluniau blaenorol, yn enwedig o ran rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y cyllid sydd ar gael i'r GGLl dros oes y cynllun. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o'r rhai a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad wedi mynegi pryder bod diffyg cystadleuaeth o bosib wedi lleihau ansawdd gweithgarwch y prosiectau. Nid oes tystiolaeth i gefnogi, na diystyru, y farn hon.

3.11 Mae GGLlau hefyd wedi gallu ymestyn tanwariant i raddau helaeth dros oes y rhaglen, a hynny wedi rhoi hyblygrwydd sylweddol i gyflawni'r cynllun. Unwaith eto, ystyriwyd bod hyn ar y cyfan yn elfen gadarnhaol, er i leiafrif ddadlau bod y dull yn cyfyngu ar y gallu i ailddyrannu cyllid i GGLlau a oedd yn 'llwyddiannus' yn gwario eu dyraniad ariannol yn gyflym. Ond mae'r ddadl hon yn seiliedig ar ddefnyddio lefel gwariant yn ddangosydd allweddol ar weithredu LEADER yn llwyddiannus, a byddem yn dadlau, ei fod yn rhy gul fel dull gweithredu (o ystyried ffocws LEADER ar fywiocáu, datblygu dulliau newydd i ddatblygu gwledig, ac yn y blaen). Ar sail hynny, cefnogir y dull sydd wedi ei fabwysiadu. Fodd bynnag, dylid cydnabod pryderon a fynegwyd gan rai bod y dull wedi arwain at reoli ariannol gwael (h.y.

[18] Ffynhonnell: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 Nodiadau Cyfarwyddyd LEADER

[19] Wavehill, CLES a'r Rural Development Company (2013) Gwerthusiad o Echelau 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ar gyfer Llywodraeth Cymru, t. 62

gwariant sy’n is na’r hyn a ragwelwyd) gan rai GGLlau (fel y trafodir ymhellach isod).

*Amserlenni*

3.12 Dechreuodd gweithgareddau LEADER ym mhob ardal yn 2015 ond rhedai i amserlenni gwahanol mewn gwahanol ardaloedd, gan ddod i ben mewn rhai ym mis Mawrth 2022 ond yn rhedeg 14 mis yn hirach (h.y. tan ddiwedd Mehefin 2023) mewn ardaloedd eraill.

*Cyfyngiadau ariannol*

3.13 Am y rhan fwyaf o oes y cynllun presennol, ni ellid defnyddio cyllid LEADER i roi cymorth neu gefnogaeth arall a fyddai’n gyfystyr â chymorth gwladwriaethol.[20] Ar ben hynny, ni ellid defnyddio mesur LEADER i roi grantiau cyfalaf neu refeniw neu fathau eraill o gymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol i fusnesau masnachol.[21] Fodd bynnag, newidiodd hyn ym mis Mai 2021 pan ddaeth gwariant cyfalaf yn gymwys o dan gymorth gwladwriaethol de minimis i adael i GGLlau ymateb i effaith pandemig COVID-19 yn eu hardaloedd.[22] Caniataodd hyn i GGLlau roi cymorth i bobl, busnesau a sefydliadau a ddymunai gymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd, gan eu cyfeirio at gymorth prif ffrwd Busnes Cymru ar yr adeg briodol.

3.14 Roedd y cyfyngiadau ariannu oherwydd cymorth gwladwriaethol wedi codi’n aml mewn trafodaethau gyda chadeiryddion GGLlau a rheolwyr cyrff gweinyddol yn ystod y gwerthusiad hwn. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y cyfyngiadau wedi cyfyngu’n fawr ar y cynllun o’i gymharu ag iteriadau blaenorol, pan ganiateid cymorth gwladwriaethol de minimis drwy gydol oes y cynllun, ac oedd yn golygu bod cymorth o’r fath wedi’i ddarparu’n helaeth.

3.15 Y rhesymeg y tu ôl i’r newid yn y dull ar gyfer y cyfnod presennol oedd bod angen terfyn a diffiniad clir rhwng y gefnogaeth y gallai LEADER ei ddarparu a’r hyn a

[20] Mae hyn yn golygu na all GGLlau roi unrhyw fath o gymorth a fydd yn lleihau costau rhedeg gweithredol arferol y busnes, menter, ymgymeriad, neu ‘weithredwr economaidd’, megis drwy sybsideiddio cyflogau staff neu roi cymorth ariannol, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, tuag at rent, ardrethi, costau ynni, hyrwyddo, cyhoeddusrwydd, hysbysebu, ac/neu unrhyw gostau rhedeg neu orbenion eraill.
[21] Mae hyn yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i: grantiau cyfalaf tuag at adeiladau ac offer; unrhyw fath o gymorth cychwyn busnes; bwrsariaethau busnes; a chymorth drwy ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi’u sybsideiddio (e.e. peiriannau ac/neu offer wedi’u cynnig ar fenthyg) i fusnes. Nid yw’n gymwys ychwaith rhoi cymorth ariannol uniongyrchol, benthyciadau, cymorth ariannol ar gyfer datblygu cynnyrch newydd, a dulliau eraill o gymorth ariannol anuniongyrchol i fusnes, megis marchnata ar gyfer cyhoeddusrwydd neu weithgareddau hyrwyddo am ddim neu ar gyfradd is i fusnes.
[22] Ffynhonnell: Nodiadau Cyfarwyddyd LEADER (llyw.cymru), t. 23

ddarparwyd gan rannau eraill o'r RDP a strwythurau cymorth busnes yng Nghymru, wrth i werthusiadau blaenorol nodi'r risg o ddyblygu a diffyg cysondeb yn y gefnogaeth a gynigid ledled Cymru.[23] Ar ben hynny, roedd awydd ar lefel polisi i ganolbwyntio gweithgarwch LEADER ar ddatblygu a threialu dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu gwledig, a ystyrid yn bosibl o fewn cyfyngiadau cymorth gwladwriaethol.

3.16 Mewn rhai ardaloedd, ystyriwyd bod effaith y newid hwn yn y dull gweithredu wedi bod yn newid sylweddol mewn nifer o ffyrdd. Ystyriai rhai, er enghraifft, fod yr angen i egluro'r newid yn y dull o ymdrin â busnesau a chymunedau lleol a oedd wedi bod yn gysylltiedig â chyfnodau blaenorol y rhaglen wedi tanseilio hygrededd LEADER yn sylweddol, a hwnnw wedi'i ddatblygu dros nifer o flynyddoedd. Roedd methu â rhoi grantiau i fusnesau wedi'i ddisgrifio mewn un achos fel "cic go iawn yn y dannedd", o ystyried yr ymdrech a wnaed i ymgysylltu â busnesau lleol yn ystod cyfnod blaenorol y rhaglen. Mewn achos arall, nodwyd hefyd bod aelodau GGLl wedi ymddiswyddo o'u rolau yn benodol oherwydd hyn, gan eu bod o'r farn ei fod wedi lleihau gwerth y cynllun yn sylweddol fel ymyrraeth ac, felly, wedi golygu eu bod wedi colli eu cymhelliant i fod yn aelod o'r GGLl.

3.17 Fodd bynnag, er yn cydnabod mai anffodus oedd y newid yn y dull gweithredu, roedd rheolwyr corff gweinyddol GGLl mewn rhai ardaloedd yn credu nad oedd cyfyngiadau'r cymorth gwladwriaethol, er yn cyfyngu ar opsiynau, wedi cyfyngu'n ormodol ac y gellid "eu goresgyn gyda rhywfaint o feddwl creadigol". Roedd y farn hon yn fwyaf amlwg ymhlith rheolwyr cyrff gweinyddol GGLl a oedd â'r profiad mwyaf o reoli a chyflwyno LEADER a chynlluniau eraill a ariennir gan yr UE. Mae'n un o nifer o arwyddion sy'n dangos gwerth cael profiad o weithredu LEADER.

3.18 Fel y disgwylid wrth ystyried y safbwyntiau negyddol a nodwyd uchod, roedd y rhai a gyfwelwyd ar y cyfan wedi croesawu'r newid yn y dull gweithredu o fis Mai 2021, er y nodwyd yn aml hefyd ei fod yn 'rhy hwyr' i gael unrhyw ddylanwad gwirioneddol ar weithgareddau GGLlau.

*Gofynion cyllid cyfatebol*

3.19 Ar gyfer prosiectau Gweithredu a Chydweithredu LEADER, uchafswm cyfraniad grant gan yr RDP yw 80 y cant o gyfanswm costau'r prosiect cymwys. Felly, rhaid i

---

[23] Wavehill, CLES a'r Rural Development Company (2013) Gwerthusiad o Echelau 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ar gyfer Llywodraeth Cymru, t. 47

GGLl gael gafael ar o leiaf 20 y cant o gyfanswm costau'r prosiect cymwys (h.y. y cyllid cyfatebol).

3.20 Mewn llawer o achosion, mae hyn yn golygu bod angen i 'ymgeiswyr' sy'n gofyn am gymorth GGLl ddarparu ffynhonnell/arian cyfatebol ar gyfer eu prosiect arfaethedig. Mewn rhai ardaloedd, roedd yr awdurdod lleol wedi bod yn fodlon rhoi'r gofyniad arian cyfatebol, er y gofynnwyd i brosiectau'n dal i ddarparu cyllid cyfatebol lle bo hynny'n bosib, weithiau ar raddfa uwch na'r isafswm er mwyn darparu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer prosiectau/gweithgareddau lle nad oes cyllid cyfatebol ar gael. Mewn ardaloedd eraill, roedd yr arian cyfatebol angenrheidiol wedi'i sicrhau 'ar lefel GGLl' (h.y. gan y corff gweinyddol ar gyfer eu cynllun yn ei gyfanrwydd), a hynny'n golygu nad oedd angen dod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer prosiectau neu weithgareddau unigol.

3.21 Er ei ystyried yn llai o broblem na'r cyfyngiadau cymorth gwladwriaethol a drafodwyd uchod, nodwyd hefyd bod yr angen i gael arian cyfatebol ar gyfer gweithgarwch prosiect yn broblem. Yn benodol, dywedodd rheolwyr gweinyddu a chadeiryddion GGLl y gallai fod yn heriol dod o hyd i gyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau newydd ac arloesol, gan fod yn well gan gyllidwyr eraill gefnogi prosiectau pan oedd hi'n sicr y ceid canlyniad cadarnhaol, yn hytrach na'r dulliau newydd ac arloesol a gâi flaenoriaeth gan LEADER.

3.22 Fodd bynnag, yn ystod cyfweliadau tynnodd y rhanddeiliaid sylw hefyd at y ffaith bod yr angen am gyllid o 20 y cant yng Nghymru yn is nag mewn llawer o gynlluniau LEADER eraill ar draws y Comisiwn Ewropeaidd; gallai'r gofyniad fod yn llawer uwch (fel y mae mewn rhai gwledydd). Nodwyd hefyd yr ystod eang o ffyrdd y gellid darparu'r arian cyfatebol angenrheidiol, gan gynnwys mewn nwyddau yn ogystal â chyfraniadau arian parod. Nodwyd y ffaith bod hefyd arian cyfatebol yn ofyniad cyffredin mewn cynlluniau ariannu ac yn cael ei ddefnyddio i ddangos ymrwymiad 'ymgeiswyr' pan fo cyllid ar gael.

**Gwariant hyd yn hyn**

3.23 Fel y dangosir yn Nhabl 3.1, ar lefel cynllun, roedd gwariant ar ddiwedd mis Mawrth 2022 yn 70 y cant, gyda 21 mis yn weddill yn oes y rhaglen. Fodd bynnag, roedd amrywiant sylweddol rhwng y cyrff gweinyddol, gan amrywio o 55 y cant yn Wrecsam i 100 y cant yn Sir Benfro (lle'r oedd y cynllun wedi cau).

3.24 Mae'r amrywiaeth yn y dyddiadau gorffen gwahanol a'r gwariant sy'n weddill yn golygu y bydd LEADER yn wahanol ar draws Cymru dros y misoedd nesaf. Yn fwy na hynny, bydd yn cyflwyno heriau i Lywodraeth Cymru wrth ystyried trefniadau pontio, os bydd dilyniant i gynllun LEADER yn cael ei ystyried.

3.25 Unwaith eto, dylid nodi bod pryderon wedi'u mynegi yn Llywodraeth Cymru ynghylch 'rheolaeth ariannol wael' gan GGLlau a oedd wedi arwain at ffigurau gwariant is na'r disgwyl i nifer ohonynt, gydag amheuon a gâi'r cyllidebau a ddyrennid eu defnyddio'n llawn. Mae angen cydnabod y ffigurau gwariant is na'r disgwyl hyn, er bod cyrff gweinyddol wedi cyfeirio at heriau y maent hwy/GGLlau wedi'u hwynebu oherwydd COVID-19 a phrinder staff i esbonio'r lefelau gwariant sy'n is na'r proffil.

3.26 Mae angen cydnabod yr heriau hyn ond nid ydynt yn debygol o egluro'n llawn y lefelau gwariant isel mewn rhai achosion, a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain ar fyrder os yw'r gyllideb a ddyrannwyd i gynllun LEADER i gael ei defnyddio'n llawn.

**Tabl 3.1: Gwariant LEADER fesul corff gweinyddol a dyddiad gorffen prosiect, hyd at fis Mawrth 2022**

| Labeli'r rhesi | Y swm a gymeradwywyd(£) | Gwariant hyd yn hyn (£) | Canran y cyllid a gymeradwywyd a ddefnyddiwyd hyd yn hyn | Dyddiad gorffen |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | £2,781,000 | £2,005,206 | 72 | Meh-23 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1,886,000 | £1,468,063 | 78 | Maw-23 |
| Caerffili | £2,643,001 | £1,758,861 | 67 | Meh-23 |
| Sir Gaerfyrddin | £4,352,001 | £2,928,214 | 67 | Meh-23 |
| Ceredigion | £3,265,015 | £1,973,291 | 60 | Chwe-23 |
| Conwy | £1,747,000 | £988,126 | 57 | Meh-22 |
| Sir Ddinbych | £1,715,458 | £1,355,461 | 79 | Meh-23 |
| Sir y Fflint | £2,462,999 | £1,456,676 | 59 | Meh-23 |
| Gwynedd | £4,335,000 | £2,858,234 | 66 | Meh-23 |
| Merthyr | £1,211,000 | £1,115,366 | 92 | Meh-23 |
| Sir Fynwy | £2,791,840 | £2,424,593 | 87 | Ion-22 |
| Castell-nedd PT | £2,155,995 | £1,808,109 | 84 | Maw-22 |
| Sir Benfro | £4,425,000 | £4,425,000 | 100 | Maw-22 |
| Powys | £5,104,001 | £3,959,668 | 78 | Meh-23 |
| Abertawe | £1,454,000 | £824,992 | 57 | Meh-23 |
| Torfaen | £995,000 | £752,184 | 76 | Maw-22 |
| Bro Morgannwg | £1,820,000 | £1,520,261 | 84 | Maw-22 |
| Wrecsam | £2,252,000 | £1,245,105 | 55 | Meh-23 |
| ***Cyfanswm*** | **£47,396,310** | **£33,016,278** | **70** | **-** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Dangosyddion perfformiad

3.27 Mae Tabl 3.2 yn dangos perfformiad LEADER yng Nghymru ar lefel y cynllun hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Daw'r wybodaeth o systemau rheoli gwybodaeth Llywodraeth Cymru am y rhaglen ac, felly, dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r ffigurau'n cynnwys rhai dangosyddion y gallai GGLlau fod wedi adrodd arnynt ond nad ydynt wedi'u prosesu eto.

3.28 Nid yw'r ffigurau hyn yn cael eu hadrodd fesul thema cynllun ac, felly, ni ellir eu defnyddio i asesu perfformiad ar y lefel honno. Y rhesymeg y tu ôl i hyn oedd cadw'r broses mor syml â phosibl yn ogystal â chydnabod y gallai gweithgaredd bontio ar draws sawl thema. Mae hyn, fodd bynnag, yn cyfyngu ar ein gallu ni i ddefnyddio'r wybodaeth fonitro i asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r themâu hynny.

**Tabl 3.2: Dangosyddion LEADER, cyflawniadau hyd at diwedd mis Mawrth 2022**

| Dangosydd | | Targed y rhaglen | Wedi'u hawlio hyd yn hyn | Canran y targed sydd wedi'i gyflawni (%) |
|---|---|---|---|---|
| Allbynnau | Nifer yr astudiaethau dichonoldeb | 259 | 159 | 60.2 |
| Allbynnau | Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd / gefnogwyd | 773 | 453 | 58.3 |
| Allbynnau | Nifer y camau gweithredu i ledaenu gwybodaeth/hyrwyddo ac/neu weithgareddau marchnata | 2,055 | 986 | 38.2 |
| Allbynnau | Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy | 29,738 | 11,080 | 37.3 |
| Canlyniadau | Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd | 29,057 | 23,989 | 82.5 |
| Canlyniadau | Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 308 | 168 | 53.9 |
| Canlyniadau | Nifer yr hybiau cymunedol | 95 | 60 | 63.2 |
| Canlyniadau | Nifer y swyddi a ddiogelwyd trwy brosiectau a gefnogwyd | 59 | 30 | 51.4 |
| Canlyniadau | Nifer y swyddi a grëwyd | 96.5 | 72 | 72.8 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

3.29 Mae allbynnau yn mesur y gweithgareddau a gynhaliwyd i gyflawni'r ymyrraeth. Yn achos LEADER, gellir grwpio'r ystod o weithgareddau i'r prif gategorïau canlynol:

a) gweithgareddau a chyfarfodydd GGLl
b) ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid lleol (gan gynnwys datblygu'r Strategaeth Datblygu Lleol)
c) gweithgareddau bywiocáu – gan gynnwys datblygu syniad/prosiect, rhannu dysgu, a rhwydweithio lleol
d) cynnal ac/neu ariannu prosiectau
e) gweithgareddau rheoli/monitro rhaglen.

3.30 Mae'r rhestr o ddangosyddion allbynnau yn gul ac nid yw'n cynnig data i ddangos gweithgareddau ym mhob un o'r categorïau a nodwyd uchod. Er enghraifft, nid oes unrhyw ddangosyddion am nifer cyfarfodydd y GGLl, sy'n rhan allweddol o ddull LEADER, er bod y data hwnnw ar gael trwy gyrff gweinyddol GGLl.

3.31 Yn yr un modd, pedwar dangosydd canlyniad yn unig a gofnodir, sydd eto'n cynnig dadansoddiad cul iawn o'r hyn y mae'r cynllun wedi'i gyflawni ac yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y dangosyddion perfformiad fel modd i wneud dyfarniad ynghylch cyflawniadau'r cynllun.

3.32 Mae'r nifer fach o ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir yn wahanol i rai cyfnod blaenorol y rhaglen, pan feirniadwyd nifer uchel y dangosyddion perfformiad a ddefnyddid ac argymhellwyd dull symlach sydd â nifer llai o ddangosyddion.[24] Buddiol o safbwynt gweinyddol yw'r nifer bach o ddangosyddion perfformiad sy'n cael eu hadrodd ar lefel cynllun, gan symleiddio'r dull gweithredu'n sylweddol o'i gymharu â'r cynllun blaenorol. Fodd bynnag, byddem yn dadlau fod yr ymateb i'r argymhelliad wedi lleihau gormod ar nifer y dangosyddion perfformiad, er ei bod yn bwysig nodi a chydnabod y ffaith y rhagwelwyd y byddai'r data hyn yn cael ei ategu gan fonitro a gwerthuso gweithgareddau a wneir gan GGLl yn seiliedig ar eu SDLl.

3.33 Fodd bynnag, mae'r gwerthusiadau canol tymor ar lefel GGLl a adolygwyd ar gyfer yr adroddiad hwn wedi canfod nad oedd llawer o ddata monitro wedi'i gasglu gan GGLlau i roi modd asesu gweithgareddau yn erbyn amcanion eu SDLl (er bod y GGLlau wedi nodi dangosyddion perfformiad). Y pryder felly yw nad yw'n bosib defnyddio'r data monitro i bwyso a mesur y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn

[24] Ibid., tt. 49 a 65

perthynas â chyflawni'r cynllun na'r SDLlau unigol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw adroddiadau gwerthuso terfynol wedi'u cynhyrchu ar lefel GGLl eto ac y rhagwelir y byddant yn canolbwyntio ar asesu i ba raddau y cyflawnwyd amcanion SDLlau.

3.34 Dylid nodi nad oes unrhyw ddangosyddion perfformiad yn cael eu cipio gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi modd asesu cyflawniadau yn erbyn y Themâu Trawsbynciol. Nid yw'n bosibl felly gwneud sylw ar y materion hynny yma, er bod trafodaeth ar weithredu'r themâu hynny ym Mhennod 5.

**Gweinyddu'r Rhaglen**

*Cyrff gweinyddol GGLl*

3.35 Mae cynllun LEADER yng Nghymru yn cynnwys 15 o gyrff gweinyddol sy'n cydweithio gyda 18 GGLl. Mae 12 o'r 15 yn awdurdodau lleol. Mae'r tri arall yn sefydliadau'r trydydd sector, wedi'u sefydlu yn wreiddiol yn rhan o gynlluniau LEADER blaenorol yn y 1990au: sef Menter Môn (yn gweinyddu'r GGLl yn Ynys Môn a Gwynedd), Cadwyn Clwyd (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam) a PLANED (Sir Benfro).

3.36 Roedd yr ymatebwyr (staff ac aelodau GGLl) o'r farn fod y berthynas waith rhwng y GGLl a'r cyrff gweinyddol yn effeithiol: disgrifiodd 87 y cant (n=97) y berthynas fel un hynod effeithiol neu effeithiol iawn. Cefnogir y farn hon yn y cyfweliadau â rheolwyr a chadeiryddion GGLl. Mae sylwadau cadarnhaol wedi disgrifio'r berthynas fel un 'broffesiynol', 'cynhyrchiol' ac 'effeithlon'.

*Tu fewn yr awdurdod lleol o'i gymharu â bod y tu allan*

3.37 Trafodwyd yn gyson y gwahanol fodelau ar gyfer gweinyddu LEADER ar lefel leol, gydag eiriolwyr cryf yn pledio dros ei weinyddu gan awdurdod lleol ac eraill dros gael sefydliad annibynnol, a hyn unwaith eto wedi bod yn bwnc trafod yn ystod y gwerthusiad hwn. Mae'n bwysig nodi mai'r GGLl yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau, pa bynnag fodel sy'n cael ei ddefnyddio. Rôl y corff gweinyddol yw hynny'n union: gweinyddu cynllun LEADER ar ran y GGLl.

3.38 Mae manteision ac anfanteision i'r ddau fodel (ac i amrywiadau arnynt). Cryfder y model gweinyddu gan awdurdodau lleol y sonnir amdano gan amlaf yw cryfder y cysylltiadau y mae'n eu creu i'r ystod o arbenigedd yn yr awdurdod lleol ynghyd â'r gallu i sicrhau bod gweithgareddau LEADER yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol

gyda gweithgareddau eraill sydd wedi'u harwain gan yr awdurdod lleol. Bydd y rheiny sy'n dadlau dros y dull annibynnol yn dweud eu bod o'r farn bod staff sy'n gweithio i sefydliadau o'r fath fel arfer yn fwy entrepreneuraidd eu meddylfryd na'u cyfatebol yn yr awdurdod lleol (a dybir i fod yn fwy gofalus yn eu dull o weithredu). Sonnir yn aml hefyd am allu tybiedig sefydliadau annibynnol i fod yn fwy hyblyg ac yn fwy ymatebol i amgylchiadau sy'n newid. Enghraifft a ddefnyddir yn aml o'r dull mwy biwrocrataidd (ac felly'n arafach) mewn awdurdod lleol yw'r amser y mae awdurdodau lleol yn ei gymryd i gael pobl newydd pan fo staff yn gadael y cynllun.

3.39 Rhaid cydnabod a chofio hefyd fod awdurdodau lleol mewn llawer o achosion yn cynnig yr arian cyfatebol sydd ei angen ar gyfer gweithredu'r cynllun ac yn sicrhau nad yw unrhyw oedi wrth weinyddu'r cynllun yn ariannol yn cael effaith ar y cyflawni.

3.40 Mae gwerthusiadau wedi canfod y gall y strwythur gweinyddol effeithio ar sut mae LEADER yn cael ei ystyried ym mhob ardal. Er enghraifft, yng ngwerthusiad canol tymor Pen-y-bont ar Ogwr o gynllun 2014–2020, dywedir bod canfyddiad neu argraff fod LEADER yn weithgaredd yr awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae adroddiad canol tymor Torfaen o gynllun 2014–2020 wedi nodi rhwystr i'r gwaith, sef diffyg ymddiriedaeth gan ffermwyr a rhai sy'n ymwneud â'r broses, a hynny'n rhannol o leiaf oherwydd y canfyddiad fod LEADER wedi'i arwain gan yr awdurdod lleol.

3.41 Roedd y canfyddiad yn wahanol yn adroddiad gwerthuso cynllun 2007–2013 ym Mro Morgannwg, sy'n dod i'r casgliad bod y GGLl ag enw da oherwydd ei bellter tybiedig oddi wrth yr awdurdod lleol, er gwaetha'r ffaith mai'r corff gweinyddol yw CBS Bro Morgannwg. Y nodwedd bwysig yma yw bod y cynllun wedi'i frandio'n drwm fel 'Cymunedau Gwledig Creadigol', gyda'r tîm wedi'u nodi i fod yn gweithio i 'Gymunedau Gwledig Creadigol' (yn hytrach nag i'r awdurdod lleol). Maent wedi'u lleoli hefyd mewn swyddfa wahanol i'r awdurdod lleol, sydd eto'n ffordd o wahaniaethu'r tîm oddi wrth y cyngor. Mae'r drefn hon, sy'n parhau i gael ei defnyddio, yn enghraifft o sut y gall awdurdod lleol weinyddu cynllun LEADER o 'hyd braich'. Mae trefniadau tebyg wedi bod ar waith yn y gorffennol yn Sir Fynwy, lle câi cynlluniau blaenorol LEADER eu gweinyddu dan faner 'Adventa'. Disgrifiodd rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn fod y drefn ym Mhowys ar gyfer cynllun LEADER II yn debyg hefyd, wedi'i weinyddu gan 'Menter Powys' (a oedd yn rhan o'r awdurdod lleol ond wedi'i frandio ar wahân i wahaniaethu

gweithgarwch LEADER o waith y cyngor). Roedd hyn hefyd yn wir yn achos cynllun LEADER+ pan gynhaliodd Glasu y cynllun ym Mhowys oddi mewn i'r awdurdod lleol.

3.42 Defnyddir Menter Môn yn aml fel enghraifft o'r budd posibl o weinyddu LEADER gan sefydliad annibynnol. Sefydlwyd Menter Môn yn wreiddiol fel prosiect yn yr awdurdod lleol i ddarparu LEADER yn 1995, gan ei sefydlu yn gwmni annibynnol a oedd yn eiddo i'r gymuned yn 1996 ac ers hynny mae wedi esblygu i fod yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio ar draws y Gogledd i gyflawni amryw o brosiectau adfywio, amgylcheddol a diwylliannol er lles cymunedau lleol. Ar hyn o bryd mae'n cyflogi dros 70 o bobl, gan ei wneud yn gyflogwr pwysig yn yr ardal leol yn ei rinwedd ei hun. Ar ben hynny, mae wedi denu tua £100m o gyllid i'r ardal ers ei sefydlu. Yn bwysig iawn, mae 'dull LEADER' wedi'i integreiddio i bopeth y mae'r sefydliad yn ei wneud. Nid yw'n syndod felly bod y potensial i efelychu'r model mewn ardaloedd eraill yn cael ei drafod yn aml.

3.43 Yng Ngwynedd, bu newid yn y dull gweithredu ar gyfer cyfnod y cynllun presennol, a gweinyddu'r cynllun yn symud o'r awdurdod lleol i Menter Môn o dan faner 'Arloesi Gwynedd'. Pan drafodwyd y rhesymeg y tu ôl i'r newid hwn gyda rhanddeiliaid lleol, dywedir iddo gael ei ysgogi gan y dyhead tybiedig i fynd â chynllun LEADER 'yn ôl at ei wreiddiau' yn ystod y cyfnod presennol, a bod mwy o ffocws ar ddatblygu dulliau newydd ac arloesol wrth ddatblygu gwledig. O ystyried eu gwybodaeth a'u profiad o ddull LEADER, ymddengys fod cael Menter Môn i wneud y swyddogaeth weinyddol yng Ngwynedd yn benderfyniad rhwydd bryd hynny, o gofio hefyd eu bod eisoes yn weithgar yn yr ardal yn cynnal cynlluniau eraill yno. Cydnabuwyd hefyd fanteision symud gweinyddiaeth y cynllun y tu allan i'r awdurdod lleol mewn perthynas â dull mwy hyblyg ac entrepreneuraidd.

3.44 Deallwyd drwy gyfweliadau â rhanddeiliaid fod awdurdodau lleol wedi archwilio'r potensial i sefydlu mudiadau annibynnol i weinyddu cynllun LEADER mewn dwy ardal o leiaf. Ond, yn y ddwy achos, y casgliad oedd nad oedd hi'n ymarferol gwneud hynny'n ariannol, ac mae'n bwysig sylweddoli bod yr amgylchiadau ar hyn o bryd yn wahanol iawn i'r adeg pan sefydlwyd PLANED, Cadwyn Clwyd, a Menter Môn.

3.45 Fodd bynnag, ein casgliad yw nad yw'r mater hwn mor ddu a gwyn ag yr awgryma'r trafodaethau ar weinyddu LEADER o fewn awdurdodau lleol neu y tu allan iddynt.

Ein barn ni yw bod 'nodweddion' y gellir eu nodi i fod yn bresennol pan ystyrir fod gweinyddu LEADER ar ei fwyaf effeithiol, ac y dylid canolbwyntio ar greu strwythur sy'n hwyluso'r nodweddion hynny (boed hynny o fewn i awdurdod lleol neu'n allanol). Dyma'r nodweddion hynny:

- Cael eu gweld i fod yn annibynnol (nid cynllun awdurdod lleol)
- Cael eu gweld yn agored (yn ymatebol) i syniadau ac awgrymiadau newydd
- Bod â chysylltiadau â gwybodaeth/arbenigedd o ystod o ffynonellau a gallu manteisio ar y cysylltiadau hynny
- Bod yn glir mai'r GGLl yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau.

3.46 Rydym hefyd wedi canfod bod agweddau, sgiliau a galluoedd y staff yn hanfodol i lwyddiant LEADER, efallai hyd yn oed yn fwy felly na'r nodweddion a nodir uchod, a thrafodir hyn yn y bennod nesaf.

*Gweinyddu ar draws sawl ardal*

3.47 Nodwedd y cynllun presennol yw bod y 18 GGLl wedi'u cefnogi gan 15 corff gweinyddol, gyda Menter Môn a Chadwyn Clwyd ill dau yn cefnogi sawl GGLl[25]. Yn ogystal, mae'r 18 GGLl yn gweithredu dros ardaloedd gwledig mewn 21 awdurdod lleol yng Nghymru, gyda nifer o GGLlau yn gweithio ar draws ardaloedd gwledig cyfagos pan fo'r ardaloedd hynny'n rhy fach i gyfiawnhau eu GGLl eu hunain. Mae hyn yn golygu mai dyma'r cynllun LEADER mwyaf erioed yng Nghymru o ran yr ardal ddaearyddol sy'n rhan ohono.

3.48 Mae gan Cadwyn Clwyd hanes o gefnogi sawl GGLl, ac wedi gweithio yn Sir Ddinbych a Syr y Fflint cyn hynny. Mae Wrecsam bellach wedi cael ei ychwanegu at eu 'grŵp' ar gyfer y cynllun hwn, ac mae Menter Môn wedi ysgwyddo'r rôl yng Ngwynedd am y tro cyntaf. Mae'r datblygiad hwn yn cyd-fynd ag argymhelliad yn y gwerthusiad ar gynllun LEADER ar gyfer cyfnod y rhaglen flaenorol (sef Echel 4), a ddaeth i'r casgliad bod dadl rymus o blaid model o'r fath (o ran effeithlonrwydd a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd) ac y dylid edrych ar y potensial i'w ddefnyddio mewn rhannau eraill o Gymru[26]. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn dal i fod yn y lleiafrif.

---

[25] Menter Môn yw'r corff gweinyddol ar gyfer Gwynedd a Môn (am y tro cyntaf), a Chadwyn Clwyd sydd â'r rôl honno dros Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam (am y tro cyntaf).
[26] Wavehill, CLES a'r Rural Development Company (2013) Gwerthusiad o Echelau 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ar gyfer Llywodraeth Cymru, t. 61

3.49 Mae trafodaethau ar gyfer y gwerthusiad hwn, yn unol â chanfyddiadau'r gwerthusiad blaenorol y cyfeirir ato uchod, unwaith eto wedi canfod bod cryn fanteision i'r dull gweithredu hwn, gydag enghreifftiau clir o rannu gwybodaeth a phrofiad rhwng yr ardaloedd sy'n defnyddio'r model hwn. Efallai fod y manteision hyn i'w gweld gliriaf yn Cadwyn Clwyd, sydd bellach yn gweithio gyda thri GGLl yn y Gogledd-ddwyrain. Mae hyn wedi rhoi modd i'r sefydliad gyfuno'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y swyddogaethau gweinyddu a bywiocáu. Mae hyn yn fanteisiol o safbwynt effeithlonrwydd, gydag un swydd 'Cydlynydd', er enghraifft, yn gyfrifol am y tair ardal gyfan.

3.50 Mae'r tîm ym Menter Môn ar gyfer Gwynedd a Môn yn gorgyffwrdd, a rolau 'swyddog prosiect' wedi'u rhannu rhwng y ddwy ardal. Mae Cadwyn Clwyd wedi mabwysiadu dull thematig (yn dilyn themâu'r SDLl), gyda swyddogion prosiect yn gweithio ar draws y tair ardal. Er enghraifft, mae'r tîm yn cynnwys Swyddog Adnoddau Cenedlaethol, Swyddog Partneriaeth Busnes, Swyddog Menter Gymunedol, a Swyddog Ynni. Ni fyddai arbenigedd o'r fath yn bosibl mewn un ardal GGLl ac mae manteision amlwg iddo. Ceir hefyd sawl enghraifft o brosiectau cydweithredol sydd wedi eu datblygu rhwng y tair ardal.

3.51 Mae'n bosibl fod y dull sawl-GGLl hefyd yn rhoi cyfle i ailystyried trafodaethau ar sefydlu mudiadau/sefydliadau allanol i gynnal LEADER (neu ddatblygu gwledig ehangach dan arweiniad y gymuned), gyda'r hyfywedd ariannol o bosibl yn newid pan fo un sefydliad yn gweithio ar draws sawl ardal. Ni ddylid ychwaith ddiystyru'r posibilrwydd fod sefydliadau eisoes yn bodoli a allai ddarparu'r gwasanaeth.

*Rôl Llywodraeth Cymru*

3.52 Un o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad ar fersiwn flaenorol cynllun LEADER yng Nghymru (2007–2013) oedd bod y cynllun, yn weinyddol, yn rhy gymhleth, a hynny i'r fath raddau fod problemau gweinyddol wedi bwrw cysgod dros yr holl gynllun.[27] Ymddengys fod y sefyllfa wedi gwella ar gyfer y cynllun presennol, er bod problemau yn dal i gael eu nodi.

3.53 Nodwyd eisoes rai o'r gwahaniaethau allweddol rhwng y cynllun hwn â'i ragflaenydd yn ystod RDP 2007-2013, ac mae'r gwahaniaethau hynny yn ymateb i argymhellion a wnaed wrth werthuso'r cynllun blaenorol. Yn fwyaf amlwg, mae gan y GGLlau yn

[27] Ibid., t. 60

sylweddol fwy o gyfrifoldeb a mwy o hyblygrwydd o ran cymeradwyo gweithgarwch prosiectau o'i gymharu â'r cynllun blaenorol, a hyn yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn newid cadarnhaol. Yn ogystal, mae mwy o hyblygrwydd (o fewn paramedrau) i symud cyllid rhwng prosiectau/gweithgareddau o fewn y 'prosiect gweithredu' cyffredinol (fel y cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru). Ystyrir hyn, eto, yn ddatblygiad cadarnhaol gan y rhai sydd mewn sefyllfa i gymharu dau gyfnod y rhaglen.

3.54 Fodd bynnag, bu rhywfaint o feirniadaeth o broses weinyddol LEADER a rôl Llywodraeth Cymru, yn fwyaf arbennig yn ymwneud ag (a) y broses adrodd, (b) y broses hawlio, ac (c) pa mor gyflym yr ymdriniwyd ag ymholiadau a diffyg pwynt cyswllt clir.

3.55 O ran y broses adrodd, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am bedwar adroddiad y chwarter, un ar gyfer pob 'prosiect' (h.y. costau rhedeg, bywiocáu, gweithredu, a chydweithredu). Nid ymddengys fod hyn wedi achosi problemau, er yr awgrymwyd y posibilrwydd o gyfuno'r pedwar adroddiad hyn yn un i osgoi dyblygu.

3.56 Mae'r feirniadaeth am y broses hawlio yn ymwneud yn bennaf â'r problemau sy'n gysylltiedig â system Taliadau Gwledig Cymru (RPW), a ddefnyddir ar gyfer y broses. Rhaid cael adroddiad i gyd-fynd â phob hawliad. Mae'r templed ar gyfer yr adroddiad hwnnw, fodd bynnag, yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir fel rhan o'r broses 'adrodd' i Lywodraeth Cymru, a hyn felly yn destun rhywfaint o rwystredigaeth. Fodd bynnag, yn fwy rhwystredig fyth yw'r ffordd y mae angen rhoi gwybod am drafodion yn unigol, gyda phob anfoneb wedi'i sganio i'r system a dyrannu cod unigol iddi. Mae hyn wedi creu'r hyn a ddisgrifiwyd fel baich gweinyddol sylweddol a llafurus mewn rhai achosion, o ystyried y gall gweithgareddau LEADER (sy'n gallu cynnwys nifer o brosiectau ar raddfa fach iawn) gynnwys nifer fawr o drafodion y mae angen eu cofnodi fesul un ar y system.

3.57 Nodwyd bod newidiadau i staff a diffyg adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru yn broblem yn ystod oes y cynllun, gyda swyddogion wedi cael eu hailgyfeirio i ddechrau i ddelio â Brexit ac yna i weithgareddau'n ymwneud â COVID-19 yn y blynyddoedd diwethaf.

3.58 Arweiniodd hyn at newid dull o fewn Llywodraeth Cymru. Ar y dechrau, roedd gan bob GGLl 'Reolwr Cysylltiadau Gwledig' a oedd yn brif bwynt cyswllt iddynt ar gyfer LEADER ac yn mynychu cyfarfodydd GGLlau; cafwyd sylwadau cadarnhaol am y

dull hwnnw o weithredu. Serch hynny, ni ellid parhau â hwn oherwydd diffyg adnoddau o fewn tîm Llywodraeth Cymru (er ei fod wedi cael ei ailgyflwyno yn ddiweddar), gan arwain at yr hyn a ystyriai lawer yn gefnogaeth wael iawn gan Lywodraeth Cymru i GGLl a chyrff gweinyddol.

3.59 Mater penodol a nodwyd gan nifer o reolwyr gweinyddol GGLl oedd na theimlent eu bod yn cael arweiniad digon clir gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar faterion cymorth gwladwriaethol pan wnaed ymholiadau, a dyma sylw nodweddiadol: “Hyd yn oed nawr, pedair neu bum mlynedd i mewn i’r holl beth, rydyn ni’n dal angen mynd yn ôl i ofyn am arweiniad.” Nodwyd hefyd mai araf oedd yr ymateb i ymholiadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, gan arwain at gryn rwystredigaeth ac oedi cyn gweithredu prosiectau.

3.60 Wrth ystyried hyn, rhaid cofio’r diffyg adnoddau yn Llywodraeth Cymru, ac ymddengys fel pe bai’r adnoddau hyn wedi bod yn amrywiol dros oes RDP 2014–2020. Mae gwrth-ddadl hefyd, sef bod cyrff gweinyddol, mewn rhai achosion, yn rhy amharod i wneud penderfyniadau ar sail y canllawiau a ddarparwyd, a byddai rhai yn dadlau y dylent fod yn gwneud hynny fel rhan o’u rôl yn gweithredu LEADER. Yn ogystal, dadleuwyd nad oedd cyrff gweinyddol o bosibl wedi manteisio ar y cyfle i drafod materion gweinyddol â’i gilydd, i fanteisio ar y wybodaeth a’r profiad a oedd i’w gael yn rhwydwaith cyrff gweinyddol LEADER yng Nghymru.

# 4. Gweithredu dull LEADER yng Nghymru

### Cyflwyniad

4.1 Mae’r bennod hon yn trafod sut yr aeth Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Cymru ati i weithredu dull LEADER, ac yn dechrau drwy ddod i ddeall y dull a’i werth tybiedig ymhlith y rhai a oedd yn rhan. Aiff y drafodaeth rhagddi wedyn i sôn am bob elfen unigol o’r dull.

<u>Prif bwyntiau</u>

- Ystyriwyd mai allweddol i lwyddiant LEADER a datblygu cymunedol dan arweiniad y gymuned yn fwy cyffredinol oedd y cyfuno ar ymgynghori lleol â’r adnoddau i wireddu’r syniadau a gynigid.
- Mae dogfennau SDLl yn cyflwyno strategaethau eang iawn gyda phwyslais ar sicrhau nad oes unrhyw weithgaredd posib yn cael ei eithrio (yn hytrach na blaenoriaethu gweithgareddau).
- Mae presenoldeb cyson a rheolaidd mewn cyfarfodydd GGLl yn hanfodol i sicrhau parhad wrth wneud penderfyniadau, dealltwriaeth o’r gweithgareddau sy’n parhau, ac yn y blaen.
- Parhau i gael eu nodi y mae heriau wrth ddenu aelodau i’r GGLl o’r sector preifat a chael pobl ifanc yn rhan.
- Mae rhywfaint o bryder ynghylch sut y mae’r gymuned leol wedi/yn cael ei chynnwys a sut yr ymgynghorwyd â hi, ac i ba raddau.
- Mae angen ystyried y ffaith bod aelodau GGLl yn wirfoddolwyr; mae terfyn ar faint o amser y gallant ymrwymo i weithgareddau.
- Canfuwyd bod GGLlau, ar gyfartaledd, yn treulio’r rhan fwyaf o’u hamser yn asesu ceisiadau am gyllid/cymorth.
- Mae’r dull o ‘fywiocáu’r ardal leol’ yn amrywio ledled Cymru, gyda pheth pryder fod dull ‘cynllun grantiau’ mewn rhai ardaloedd.
- Ni wireddwyd y cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a rhannu gwybodaeth a phrofiad ymhlith aelodau GGLl ac o fewn timau cyflenwi ar draws Cymru.
- Ni wireddwyd ychwaith y cyfle i weithio gyda GGLlau o bob rhan o’r UE fel y cynigir gan LEADER fel rhan o’r cynllun hwn, gyda dim ond pedwar prosiect cydweithredol trawswladol.
- Gellid dadlau y dylai fod mwy o ffocws ar arloesi yng ngweithgareddau GGLlau.

- Ar lefel effaith, mae'n hanfodol fod cyllid ar gael (ac yn hygyrch) i brosiectau 'prif ffrwd' y mae LEADER wedi'u nodi i fod yn brosiectau llwyddiannus.
- Cyfyngedig yw'r mecanweithiau sydd ar waith i gasglu a rhannu canfyddiadau prosiectau a gefnogir gan LEADER.

**Argraff am rôl a phwysigrwydd LEADER**

4.2 Canfu'r gwerthusiad fod bron pawb yn ystyried LEADER yn gynllun gwerthfawr iawn ac iddo rôl bwysig yng Nghymru. Roedd 71 y cant o ymatebwyr yr arolwg ar-lein (119/166) wedi disgrifio LEADER fel un sydd wedi bod yn 'hynod bwysig' neu'n bwysig iawn yn eu hardal[28]. Roedd yr ymateb cadarnhaol hwn yn gyson ar draws pob grŵp o ymatebwyr, er mai aelodau'r staff ymhlith yr ymatebwyr oedd, yn rhagweladwy efallai, yn fwyaf cadarnhaol.

4.3 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ar-lein sut y byddent yn disgrifio pwrpas LEADER er mwyn archwilio cysondeb ynghylch mater hwnnw. Y termau mwyaf cyffredin a ddefnyddid, o gryn bellter, oedd 'lleol' ac/neu 'cymuned' (n=59).

4.4 Y termau mwyaf cyffredin eraill oedd:

- 'Cyllid' ac/neu 'grantiau' (n=33)
- 'Peilot'/'treial'/'dichonoldeb' (n=32)
- 'Twf economaidd' (n=30)
- 'Datblygu gwledig' (n=28)
- 'Syniadau newydd'/'arloesi' (n=25).

4.5 Mae'n werth nodi bod termau fel 'twf economaidd' yn cael eu defnyddio'n llawer llai aml na 'lleol'/'cymuned'. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffordd yr oedd rhanddeiliaid yn gyffredinol yn disgrifio LEADER drwy roi pwyslais ar 'o'r gwaelod i fyny' a 'chymuned'. Yn ôl barn y rheiny a oedd wedi bod yn gysylltiedig â LEADER dros sawl cyfnod y rhaglen, mae'r ffocws ar ddatblygu economaidd wedi lleihau dros amser, yn enwedig yn y cyfnod presennol hwn (lle bu llai o bwyslais ar gefnogi busnesau yn uniongyrchol oherwydd cyfyngiadau cymorth gwladwriaethol tan fis Mai 2021).

---

[28] Mae nifer yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn is na chyfanswm ymatebwyr yr arolwg – 166 o'i gymharu â 214. Y rheswm am hyn yw bod cyfran o'r ymatebwyr wedi dewis peidio ateb y cwestiwn, gan nad oedd hynny'n orfodol.

4.6 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio pam roedden nhw'n ystyried bod LEADER yn bwysig iawn, dyma'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd:

- Y prosiectau a gefnogwyd (n=51)
- Y cymorth ariannol a roddwyd (n=26)
- Effaith/llwyddiant y prosiect (n=24)
- Meithrin syniadau/arloesi (n=23)

4.7 Y prosiectau a gefnogwyd yw'r rheswm amlaf o bell ffordd a roddwyd wrth esbonio pam mae LEADER yn bwysig. Aeth y cyfweliadau manwl ati i archwilio hyn ymhellach gan ganfod bod barn glir bod LEADER wedi rhoi cyllid ar gyfer prosiectau 'lleol' na ellid eu hariannu drwy ffynonellau eraill.

4.8 Rhoddodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid ymateb ychydig yn ehangach i'r cwestiwn hwn, a'r rheswm pam roedd LEADER yn bwysig wedi sôn yn arbennig am yr ymgysylltu â'r gymuned leol (sy'n digwydd trwy'r GGLl a'r prosiectau a gefnogir). Soniodd rhanddeiliaid hefyd am y ffaith bod LEADER yn cynnwys ymgynghori â'r gymuned leol a rhoi cyllid i weithredu syniadau a nodwyd bod y ddau hyn yn bwysig. Fel y dywedodd un rhanddeiliad, "mae'n ymgynghori sydd â phwrpas iddo – gydag adnoddau i wneud rhywbeth am y materion sy'n codi". Mae hwn yn bwynt allweddol a godai'n rheolaidd yn ystod trafodaethau ar gyfer y gwerthusiad. Nodwyd hefyd yn ystod trafodaethau fod cynnwys adnoddau i gefnogi datblygu syniadau prosiect (yn ogystal â'u hariannu) yn rheswm pam roedd LEADER yn bwysig, fel y nodir yn y dyfyniad isod:

> "Gallai fod rhaglenni cyfatebol eraill, dwi'n siŵr, ond cryfder [LEADER] ydy'r ffaith [bod yna] staff lleol sy'n adnabod yr ardal. Mae ganddynt wybodaeth fanwl o sut mae'r [ardal] yn gweithio'n gyffredinol. Gyda'i gilydd, maent yn dod â'u profiad ynghyd i roi darlun cyflawn."

**Rôl y Strategaethau Datblygu Lleol**

4.9 Mae'r SDLl yn elfen bwysig o ddull LEADER ac fe'i disgrifir yng nghanllawiau'r cynllun a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fel "map ffordd ar gyfer gweithredu LEADER gyda'r GGLl yn dewis ac yn cefnogi prosiectau yn ôl y cyfraniad y maent yn ei wneud i amcanion y strategaeth."[29]

[29] Canllawiau a luniwyd gan Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop ar sut i ddatblygu a gweithredu SDLl

4.10 Canfu’r gwerthusiad fod dogfennau’r SDLl a luniwyd gan GGLlau yn drylwyr a manwl. Mae’r strategaethau a nodir yn y SDLlau ar y cyfan oll yn uchelgeisiol iawn o ran y camau gweithredu a gynigir ar gyfer cynllun LEADER. Mae hyn, yn rhannol o leiaf, oherwydd bod y dogfennau wedi eu paratoi fel rhan o ‘gais’ i gael statws LEADER. Mae hyn hefyd yn debygol o fod wedi dylanwadu ar sut mae dogfennau’r SDLl yn gyffredinol wedi’u cynllunio i fod yn eang er mwyn sicrhau nad oes unrhyw weithgaredd posib y tu hwnt i gwmpas y Strategaeth, yn hytrach na blaenoriaethu camau gweithredu. Ychydig yn gyfyngedig felly yw ei defnyddioldeb fel canllaw ar sut y dylid defnyddio cronfeydd LEADER; bydd y rhan fwyaf o syniadau a chynigion am brosiectau yn cyd-fynd â’r SDLlau. Sonnir yn aml yn adroddiadau gwerthuso canol tymor GGLl am yr angen am ddull sydd â mwy ffocws iddo o’r pwynt hwn ymlaen (gan mai cyfyngedig yw’r cyllid sydd bellach ar gael), ac mae nifer o enghreifftiau o GGLlau sydd wedi diweddaru eu SDLl yn sylweddol mewn ymateb i argymhellion o’r fath.

4.11 Mae’r ffordd y mae’r SDLl wedi cael ei defnyddio gan GGLlau yn bwysig. Ai dogfen sy’n ‘eistedd ar y silff’ yw hi ynteu a gyfeirir ati’n rheolaidd? Mae’n amlwg bod GGLlau yn defnyddio/cyfeirio at ddogfennau SDLl yn ystod trafodaethau ar brosiectau a gweithgareddau y maent am eu cefnogi. Fodd bynnag, mae cyfweliadau â chadeiryddion GGLl yn ogystal â chanfyddiadau gwerthusiadau ar lefel GGLl yn awgrymu mai’r cwestiwn a drafodwyd gan GGLlau wrth ystyried syniadau prosiect neu geisiadau am gymorth fel arfer yw ‘A yw’r prosiect hwn yn cyd-fynd â’r SDLl?’ (yn hytrach na ‘Sut bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion y SDLl?’).

4.12 Mae’r gwahaniaeth cynnil rhwng y ddau gwestiwn hwn yn bwysig. Bydd y rhan fwyaf o brosiectau’n cyd-fynd â'r SDLl, ond a fydd y rhan fwyaf o brosiectau’n cyfrannu at gyflawni amcanion y SDLl? Byddem yn dadlau, er mwyn i ddogfennau’r SDLl gyflawni eu pwrpas, mai’r ail yw’r cwestiwn y dylid ei ofyn.

*Cyfuno themâu LEADER a blaenoriaethau lleol*

4.13 Yng Nghymru mae gan LEADER themâu sy’n perthyn i’r cynllun yn ogystal â Strategaeth Datblygu Lleol sydd angen nodi blaenoriaethau lleol. Mae hyn yn creu proses lle mae GGLlau yn ceisio cefnogi prosiectau sy’n cyd-fynd â themâu’r cynllun yn ogystal â blaenoriaethau eu SDLl:

> "Y themâu […] y mae'r SDLl yn cyfeirio atynt. Mae'r prosiectau yn cyfeirio at y pum thema, ond wedyn dydyn ni ddim yn edrych. I wneud LEADER yn dda, ddylech chi ddim dechrau gyda'r themâu – dylech ddechrau gyda'r sialens [yr ydych] am fynd i'r afael â hi. Ddylai'r themâu ddim diffinio'r [atebion]."

4.14 Nid yw sefyllfa o'r fath yn anorchfygol. Fodd bynnag, mae angen ystyried gwerth mynd ati i gynnwys themâu. Mae'r ffordd y cânt eu defnyddio hefyd yn bwysig, gan yr adroddir yn aml fod themâu yn cael eu defnyddio i roi canllaw ar sut y gellid defnyddio cyllid LEADER (yn hytrach na bod yn rhan fwy ffurfiol o'r broses ymgeisio).

4.15 Mae angen hefyd ystyried maint a graddfa cynllun LEADER ym mhob ardal. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, nid yw swm y cyllid ar gyfer LEADER yn sylweddol o'i gymharu â chynlluniau a rhaglenni eraill yn yr RDP ac yn fwy cyffredinol. Er bod dogfennau SDLl yn aml yn cyfeirio at raglenni a chynlluniau eraill (yn wir, mae canllawiau LEADER yn gwneud y pwynt y gellir defnyddio'r SDLl fel 'map ffordd' ar gyfer sawl ffrwd ariannu), fe'u defnyddir yn weithredol at ddibenion rheoli cyllid LEADER yn unig. Gellid dadlau nad yw swm y cyllid dan sylw (o leiaf o ran rhai o'r GGLlau sy'n ariannol llai) yn cyfiawnhau'r angen dros ddatblygu SDLl mor gynhwysfawr (sydd angen swm sylweddol o adnoddau).

4.16 Rhaid hefyd ystyried nifer y strategaethau sy'n bodoli eisoes ar lefel awdurdod lleol a rhanbarthol hefyd. Er enghraifft, yng Ngheredigion, mae strategaeth datblygu economaidd ar gyfer y sir[30] yn ogystal â strategaeth ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru[31]. A oes hefyd angen strategaeth benodol i lywio gweithredu LEADER? Ynteu ai rôl LEADER yw cyfrannu at weithredu'r strategaethau hynny sydd eisoes yn bodoli? Mae swm yr arian dan sylw yn dylanwadu ar y cwestiwn hwn ac efallai bod yr angen yn fwy mewn rhai ardaloedd nag mewn ardaloedd eraill. Ym mhob ardal yn gyffredinol, fodd bynnag, gellid dadlau y gellid bod yn fwy effeithiol (ac yn fwy effeithlon) i ofyn i GGLlau ddatblygu set o werthoedd ac egwyddorion i lywio'r gwaith o reoli dyrannu cyllid LEADER, yn hytrach na datblygu SDLl, yn enwedig mewn sefyllfa pan fo'r cynllun yn gweithio o fewn themâu penodol.

[30] Hybu Economi Ceredigion: Strategaeth i weithredu 2020-35
[31] Tyfu Canolbarth Cymru

4.17 Y dybiaeth yma yw bod GGLlau yn cael eu sefydlu ar sail ffiniau ardaloedd awdurdodau lleol, wrth gwrs, ac nid yw hyn bob amser wedi bod yn wir am LEADER yng Nghymru[32]. Nid oedd y posibilrwydd i newid yr ardal sydd o dan GGLlau yn bwnc a drafodwyd yn arferol â rhanddeiliaid yn ystod cyfweliadau ar gyfer y gwerthusiad hwn, er iddo gael ei godi gan leiafrif a oedd yn poeni bod GGLlau mewn rhai ardaloedd yn gweithio i ardal ddaearyddol fawr a oedd yn cynnwys ardaloedd tra gwahanol. Yn yr achosion hynny, y ddadl oedd y byddai GGLlau yn gallu cynrychioli'r gymuned yn well pe bai ardal lai iddynt eu hystyried. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r ddadl honno yn glir. Fodd bynnag, mae angen hefyd ystyried y tebygolrwydd y byddai GGLlau sy'n gweithredu ar draws ardal lai yn ddrytach i'w gweinyddu, yn enwedig os yw'r cynllun i fod ar draws yr un ardal ddaearyddol ag y mae ar hyn o bryd. Pan drafodwyd y mater hwn, y farn gyffredinol oedd bod dull sy'n seiliedig ar awdurdodau lleol yn rhoi'r cydbwysedd cywir gyda'r potensial i GGLlau sefydlu grwpiau sy'n gyfrifol am ardaloedd llai pe dymunent hynny, a nodwyd hyn hefyd.

**Rôl Grwpiau Gweithredu Lleol**

*Cyfarfodydd GGLlau a'r presenoldeb ynddynt*

4.18 Mae adroddiadau gwerthuso ar lefel GGLlau ar gyfer cyfnod presennol y rhaglen wedi gweld lefelau amrywiol o ran yr ymgysylltu â GGLlau mewn gwahanol ardaloedd. Mae lefelau presenoldeb mewn cyfarfodydd GGLl rhai ardaloedd yn rheolaidd o uchel, tra gwelir bod eraill wedi dioddef o bresenoldeb isel. Mynegir pryderon ynghylch hyn ac, yn benodol, yr angen i wybod yn gyson am benderfyniadau lleol a datblygiadau prosiectau; gallai presenoldeb gwael neu anghyson arwain at ddeall llai am y gweithgareddau yn yr ardal, y gwersi a ddysgwyd, ac yn y blaen. Nododd adroddiadau canol tymor Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2014-2020 ill dau fod y presenoldeb yn isel mewn cyfarfodydd ac y gellid gwneud mwy o bosibl i sicrhau presenoldeb cyson yn y GGLlau.

4.19 Mae adroddiadau gwerthuso hefyd yn tynnu sylw'n gyson at gynrychiolaeth is o rai sectorau, yn enwedig y sector preifat. Er y gall GGLl weithredu â chyfrannau is o aelodau o rai sectorau, eto er mwyn creu mwy o ymwybyddiaeth o faterion lleol cyfredol ac er mwyn cynrychioli pob sector yn ddigonol drwy holl weithgareddau LEADER, mae cael GGLl cytbwys yn hanfodol. Dywedodd gwerthusiad canol tymor

[32] Gweler yr Adroddiad Technegol.

Powys ar gyfer 2014–2020, er enghraifft, fod ganddynt 10 swydd wag yn eu GGLl ar adeg ysgrifennu, ac er na amlinellwyd eu strwythurau cynrychiolaeth yn yr adroddiad, mae'n awgrymu bod potensial ar gyfer anghydbwysedd ym mhrosesau a darpariaeth gwneud penderfyniadau y GGLl oherwydd llai o gynrychiolaeth.

4.20 Roedd y cyrff gweinyddol wedi rhoi gwybodaeth i'r tîm gwerthuso am nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd a phresenoldeb aelodau'r GGLl. Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r GGLlau ledled Cymru. Nifer cyfartalog cyfarfodydd GGLl a adroddwyd oedd 26.7 (gan amrywio rhwng 18 a 40). Presenoldeb cyfartalog aelod o'r GGLl oedd 11.4 (gan amrywio rhwng 9.0 ac 13.6).

**Tabl 4.1 Nifer cyfarfodydd GGLl a phresenoldeb aelodau, wedi'u rhannu yn ôl sector – Mai 2015 i Ragfyr 2021**

| Ardal GGLl | Nifer y cyfarfodydd | Cyfanswm presenoldeb cyfartalog | Aelodau o'r sector preifat | Aelodau o'r sector cyhoeddus | Aelodau gwirfoddol/ trydydd sector |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 26 | 9.0 | 2.3 | 2.7 | 4.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 24 | 9.1 | 2.8 | 2.0 | 4.3 |
| Caerfyrddin | 23 | 9.9 | 2.1 | 3.5 | 4.2 |
| Sir Ddinbych | 23 | 10.4 | 2.0 | 3.8 | 4.6 |
| Sir y Fflint | 23 | 11.0 | 2.7 | 4.2 | 4.0 |
| Wrecsam | 23 | 11.1 | 2.3 | 4.2 | 4.6 |
| Merthyr a RhCT | 35 | 11.1 | 2.2 | 4.9 | 4.8 |
| Caerffili | 18 | 11.1 | 3.1 | 3.5 | 4.5 |
| Ceredigion | 40 | 11.4 | 2.5 | 2.8 | 6.1 |
| Gwynedd | 25 | 11.5 | 4.8 | 2.5 | 4.2 |
| Abertawe | 32 | 11.6 | 2.3 | 5.6 | 3.7 |
| Torfaen | 23 | 11.7 | 3.2 | 4.8 | 3.7 |
| Castell-nedd PT | 35 | 12.1 | 2.5 | 3.8 | 5.8 |
| Mynwy a Chasnewydd | 26 | 12.5 | 3.6 | 4.9 | 4.0 |
| Sir Benfro | 31 | 12.5 | 4.6 | 3.5 | 4.4 |
| Powys | 26 | 12.9 | 2.3 | 3.7 | 6.8 |
| Conwy | 23 | 13.3 | 7.0 | 5.1 | 1.3 |
| Bro Morgannwg | 24 | 13.6 | 3.5 | 4.5 | 5.7 |
| ***Cyfartaledd*** | ***26.7*** | ***11.4*** | ***3.1*** | ***3.9*** | ***4.5*** |

Ffynhonnell: Dadansoddi data a ddarparwyd gan gyrff gweinyddol GGLl

4.21 Yn Nhabl 4.1 ceir y data ar gyfer pob ardal GGLl a'r presenoldeb cyfartalog fesul sector (fel y'i cynrychiolir gan yr aelodau). Er bod amrywiannau rhwng yr ardaloedd, mae mwy o gynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol/trydydd sector (4.5 y cyfarfod), ar gyfartaledd, yn mynychu'r cyfarfodydd nag aelodau o'r sector cyhoeddus (3.9 y

cyfarfod) a'r sector preifat (3.1 y cyfarfod). Awgryma'r ffigurau hyn fod GGLlau yn ddibynnol ar grŵp cymharol fach o unigolion i ddarparu'r gynrychiolaeth angenrheidiol.

4.22 Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag adborth gan reolwyr a chadeiryddion GGLl a nododd yr heriau wrth recriwtio aelodau GGLl o'r sector preifat, sydd hefyd yn ganfyddiad cyffredin yn adroddiadau gwerthuso canol tymor y GGLlau (gweler isod). Mae hefyd o bosib yn egluro, i ryw raddau, y canfyddiad bod LEADER wedi dod yn llai economaidd ei ffocws, gyda mwy o aelodau, ar gyfartaledd, yn cynrychioli'r sector gwirfoddol/trydydd.

*Ynghylch aelodau GGLl*

4.23 Roedd 79 o ymatebwyr yr arolwg ar-lein yn aelodau GGLl a oedd yn cynrychioli sector neu'n mynychu cyfarfodydd GGLl i gynghori. Roedd cyfran fawr o aelodau GGLl yn dod o'r trydydd sector (47 y cant), sydd o bosibl wedi gwyro'r ymatebion a drafodwyd isod ac, felly, angen ei nodi (sector preifat, 22 y cant; sector cyhoeddus, 31 y cant). Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae data presenoldeb ar gyfer cyfarfodydd GGLl hefyd yn canfod, ar gyfartaledd, fod gan GGLlau fwy o gynrychiolwyr o'r trydydd sector/gwirfoddol yn eu mynychu.

4.24 Canfu'r arolwg fod gan aelodau GGLl gryn brofiad, gyda 19 y cant ohonynt yn dweud eu bod wedi bod yn aelodau ers 10 mlynedd neu fwy, a 55 y cant yn dweud bod ganddynt brofiad o 5 mlynedd neu fwy. Fodd bynnag, roedd cyfran fawr o aelodau 'mwy newydd' hefyd, gyda 45 y cant yn dweud eu bod yn aelod ers llai na 5 mlynedd. Awgryma hyn fod cymysgedd o aelodau GGLl newydd a phrofiadol yng Nghymru.


4.25 Er mwyn edrych ymhellach ar gynrychiolaeth GGLlau, anfonwyd arolwg byr ar-lein ychwanegol at aelodau GGLl drwy'r cyrff gweinyddol i gasglu rhagor o wybodaeth am gefndiroedd aelodau. Derbyniwyd 125 o ymatebion o 17 o 18 ardal GGLl.

4.26 O ran y sectorau a gynrychiolai'r ymatebwyr yn y GGLlau, roedd 44 y cant yn cynrychioli'r sector cyhoeddus, 39 y cant y sector gwirfoddol/trydydd sector, ac 17 y cant y sector preifat, a rhaid cadw hyn mewn cof wrth ystyried y canfyddiadau.

4.27 Dangosir grwpiau oedran ymatebwyr yr arolwg hwnnw yn Ffigur 4.1, gyda'r grwpiau 45+ oed yn cynrychioli 78 y cant o'r ymatebwyr (gan gynnwys 23 y cant dros 65 oed). Mae hyn yn cefnogi'r awgrym a wnaed yn ystod cyfweliadau'r gwerthusiad (ac

a nodwyd gan werthusiadau ar lefel GGLl) bod GGLlau wedi cael trafferth denu aelodau o grwpiau oedran iau.

**Ffigur 4.1: Grwpiau oedran ymatebwyr yr arolwg i aelodau GGLl yng Nghymru**




N=125

4.28 Mae ennyn diddordeb rhagor o bobl ifanc yn fater allweddol y soniwyd amdano mewn nifer o adroddiadau gwerthuso ar lefel GGLl. Er enghraifft, pwynt gweithredu i Dorfaen yn eu hadroddiad canol tymor ar gyfer 2014-2020 oedd edrych yn agosach ar Themâu Trawsbynciol ac ymgysylltu â phobl ifanc a'r rheini o grwpiau anoddach eu cyrraedd.

4.29 Nid yw'n syndod efallai, o ystyried y grwpiau oedran a'r sectorau a gynrychiolir fod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr mewn cyflogaeth (83 y cant), gyda 15 y cant yn nodi eu bod wedi ymddeol. Dim ond dau y cant a nododd eu bod yn ddi-waith. Er y gallai rhai o'r rheini o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol fod mewn rolau sy'n ymgysylltu â'r di-waith (e.e. darparwyr cymorth), mae'r ffigurau'n awgrymu efallai na fyddai GGLl yn gallu adlewyrchu barn y grŵp hwnnw mewn ardaloedd gwledig.

4.30 Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng dynion (49 y cant) a menywod (50 y cant), sy'n gadarnhaol. O ran ethnigrwydd, mae'r grŵp, fodd bynnag, bron yn gyfan gwbl wyn (97 y cant), sy'n awgrymu mai cyfyngedig ar y cyfan yw'r gynrychiolaeth sydd gan y GGLlau o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd â'r proffil demograffig yn ardaloedd gwledig Cymru[33]. Yn olaf, nid oedd gan y mwyafrif helaeth (76 y cant) ychwaith unrhyw gyflyrau

[33] Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig (llyw.cymru)

corfforol, synhwyraidd, dysgu, neu iechyd meddwl, neu salwch sydd wedi para, neu y disgwylir iddynt bara, 12 mis neu ragor.

*Deall rôl GGLl a'r farn am ei effeithiolrwydd*

4.31 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ar-lein roi sylwadau ar ba mor effeithiol oedd y GGLl yn eu barn nhw wrth gyflawni eu rolau allweddol. Roedd y farn a fynegwyd yn gadarnhaol ar y cyfan, er nad oeddent byth yn gadarnhaol iawn (Ffigur 4.2). Roedd yr ymateb yn fwyaf cadarnhaol wrth ystyried annog a datblygu syniadau a phrosiectau. Roedd yn lleiaf cadarnhaol wrth ystyried ymgynghori â'r gymuned leol a bod yn gynrychioliadol o'r gymuned, er ei bod yn bwysig nodi bod mwyafrif yr ymatebwyr yn dal wedi ateb yn y ddau gategori mwyaf cadarnhaol ar gyfer y materion hynny, sy'n awgrymu nad yw hyn yn cael ei ystyried yn broblem fawr.


4.32 Mae hyn yn cyd-fynd â barn grŵp bach o randdeiliaid yn y cyfweliadau a fynegodd bryder ynghylch sut yr ymgysylltwyd/ymgynghorwyd â'r gymuned leol fel rhan o LEADER a pha mor gynrychioliadol o'r gymuned leol oedd y GGLl. Yn benodol, roedd rhywfaint o bryder ymhlith grŵp bach o randdeiliaid ynghylch sut roedd aelodau'r GGLl yn ymgynghori ag eraill yn y sector yr oeddent yn ei gynrychioli. Mewn trafodaethau â rhanddeiliaid, dilynwyd y cwestiwn hwn yn aml gan 'I ba raddau y mae'r GGLl yn gynrychioladol o'r gymuned leol?'. Yn ogystal, roedd peth pryder mai buddiannau personol oedd yn ysgogi aelodau'r GGLl (e.e. sicrhau cyllid ar gyfer eu sefydliad eu hunain), yn hytrach na datblygiad yr ardal leol yn fwy cyffredinol. Defnyddiwyd y term 'siop gaeedig' hefyd i ddisgrifio rhai GGLlau. Fodd bynnag, lleiafrif o randdeiliaid a fynegai'r pryderon hyn.

4.33 Archwiliwyd y materion hyn ymhellach yn ystod y cyfweliadau manwl dilynol ag aelodau GGLl a rhanddeiliaid eraill. Ar y cyfan, roedd y cyfweliadau hyn yn cefnogi'r safbwyntiau cadarnhaol a fynegwyd a oedd yn nodi sut y deuai GGLl â chynrychiolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol at ei gilydd i drafod materion. Roedd rhai pryderon, fodd bynnag, yn amlwg yn dangos yr angen i fod yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â chynrychioldeb GGLlau a'r broses ymgynghori barhaus.

4.34 Fodd bynnag, mae angen ystyried y ffaith bod aelodau GGLl yn mynychu cyfarfodydd yn wirfoddol (nid ydynt yn cael eu digolledu am gymryd rhan) ac mae'n anochel bod cyfyngiad ar faint o amser y gellid gofyn/disgwyl i aelod gwirfoddol o GGLl ymrwymo i'r rôl. Mae hyn hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd rôl y staff yn cynnal

gweithgareddau ‘ymgynghori’ ar ran y GGLI fel rhan o’r rôl bywiocáu, fel y trafodir yn y man.

**Ffigur 4.2: Barn ymatebwyr yr arolwg ar-lein ynghylch pa mor effeithiol y gweithredwyd rolau’r cynllun/GGLI**





Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (nifer yr ymatebion yn amrywio o 142 i 145, yn dibynnu ar y gyfradd ymateb i bob cwestiwn). Sylwer efallai na fydd y canrannau yn adio i 100 oherwydd talgrynnu.

*Neilltuo amser i weithgareddau allweddol*

4.35 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ar-lein amcangyfrif cyfran yr amser y treuliai'r GGLl yn cyflawni rhestr benodol o weithgareddau[34]. Canfuwyd mai'r ddwy brif dasg y mae'r Grwpiau Gweithredu Lleol wedi bod yn treulio eu hamser yn eu gwneud yw: (a) asesu ceisiadau am gymorth/cyllid, a (b) trafod anghenion yr ardaloedd lleol a blaenoriaethau'r rhaglen (gweler Ffigur 4.3). Byddem yn ystyried hyn yn gadarnhaol, o ystyried bod y tasgau hyn yn elfen allweddol o rôl y GGLlau. Fodd bynnag, mae'r gwyriad safonol cymharol uchel, fel y dangosir yn y graff gan y bariau ansicrwydd, yn dangos yr amrywiaeth rhwng yr atebion i'r cwestiwn hwn.

**Ffigur 4.3: Cyfran yr amser a dreuliai GGLl ar weithgareddau allweddol, fel y nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg ar-lein, ± gwyriad safonol cymedr (a ddangosir gan y bariau ansicrwydd)**




Sylfaen=76

4.36 Ar gyfartaledd, 13 y cant o amser GGLl a roddwyd yn trafod yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Gellid dehongli hyn i fod yn gymharol isel, o ystyried y pwyslais ar dreialu dulliau newydd ac arloesol a, thrwy ddiffiniad, felly, ddysgu oddi wrthynt. Gall hyn, fodd bynnag, adlewyrchu amseriad y gwerthusiad hwn, ac mae'n debyg y bydd (neu dylai) cyfran yr amser a dreulir ar y gweithgaredd hwnnw gynyddu wrth symud ymlaen.

[34] Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddefnyddio 'llithryddion' i nodi pa ganran o amser y GGLl a dreuliwyd yn cyflawni pob tasg (hyd at gyfanswm o 100 y cant). Ni allai'r cyfanswm cronnus fod yn uwch na 100 y cant.

4.37 Unwaith eto, mae angen ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd GGLl (a'r gwaith paratoi sydd angen ei wneud ymlaen llaw). Mae cyfyngiad ar faint o amser y gellir gofyn i aelodau GGLl ymrwymo i gyfarfodydd ac ati, o ystyried eu bod yn gwneud y rôl yn wirfoddol.

4.38 Oherwydd yr angen i gyfyngu ar hyd cyfarfodydd a sicrhau bod yr holl faterion angenrheidiol yn cael eu trafod yn effeithiol, mae nifer o GGLlau wedi sefydlu is-grwpiau o fewn y prif GGLl, ac yn gyffredinol ystyriwyd hyn yn ddull effeithiol o weithio. Thematig oedd yr is-grwpiau hyn fel arfer, yn archwilio mathau penodol o geisiadau am brosiectau neu'n trafod ceisiadau am gyllid yn fanylach ar ran y prif GGLl. Eto, fodd bynnag, testun pryder oedd y gofynion amser y gall hyn ei roi ar aelodau GGLl.

**Gweithgareddau bywiocáu**

4.39 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, gall bywiocáu gynnwys amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys grymuso neu gefnogi grwpiau a sefydliadau lleol i ddatblygu a gweithredu prosiectau (yn unol â'r Strategaeth Datblygu Lleol) neu weithgareddau mwy cyffredinol sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol, megis cynyddu ymwybyddiaeth o dreftadaeth leol a chyfleoedd cysylltiedig.

4.40 Roedd ymatebwyr yr arolwg ar-lein yn gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt asesu pa mor effeithiol oedd y GGLl/LEADER wrth gynnal gweithgareddau sy'n dod o fewn cylch gorchwyl 'bywiocáu', gan gynnwys:

- Datblygu syniadau/dulliau newydd ac arloesol o ran datblygu gwledig (65 y cant wedi ymateb hynod effeithiol neu effeithiol iawn, sylfaen=145)
- Annog datblygu syniadau/prosiectau yn yr ardal leol (75 y cant wedi ymateb hynod effeithiol neu effeithiol iawn, sylfaen=144)
- Annog pobl/sefydliadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu'r ardal leol am y tro cyntaf (63 y cant wedi ymateb hynod effeithiol neu effeithiol iawn, sylfaen=143)
- Annog rhwydweithio a chydweithio ymhlith y rhai sy'n ymwneud â datblygu gwledig yn yr ardal leol (67 y cant wedi ymateb hynod effeithiol neu effeithiol iawn, sylfaen=143)

4.41 Ymddengys fodd bynnag fod y dull ym mhob ardal yn amrywio rhywfaint rhwng y GGLlau ledled Cymru, gyda pheth pryder bod LEADER mewn rhai ardaloedd, yn

gweithredu ‘yn rhy debyg i gynllun grant’. Mae nifer o’r GGLlau wedi defnyddio dulliau ‘galwad agored’ sef gwahodd ceisiadau gan grwpiau sydd â syniadau am brosiectau sy’n dod o fewn y themâu perthnasol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae’r dull hwnnw’n cynnwys swyddogion yn gweithio gyda’r prosiectau i ddatblygu eu syniadau a hynny ochr yn ochr â gweithgareddau eraill i ymgysylltu â’r gymuned leol. Mae pryderon i’w cael, serch hynny, ac mae rhai GGLlau yn mynd ati’n fwy rhagweithiol, er y bydd nifer yr adnoddau sydd ar gael (yn enwedig o ran staff) yn dylanwadu ar y dull a ddefnyddir. Mae’r ddau ddyfyniad isod, o’r arolwg ar-lein, yn disgrifio’r gwahanol ddulliau:

> “Rydym yn gweithio’n hyblyg ac yn cefnogi datblygiad prosiectau. Nid ydym yn derbyn ffurflenni cais cyflawn ar gyfer prosiectau, gan mai cynllun grant yn unig fyddai hwnnw. Yn hytrach, rydym am i grwpiau ddod atom gyda’u syniadau, neu broblemau, ac rydym yn adeiladu prosiectau o amgylch y rhain gyda’n gilydd. Mae’r dull hwn yn arwain at feithrin mwy o gapasiti, mwy o gyfalaf cymdeithasol, ac yn golygu mai cymunedau yw’r grym sy’n gyrru’r broses.”

> “Roedd y bywiocawyr yn y pen draw yn rheolwyr ar gronfa grantiau, ac roedd y rhaglen yn llawer rhy fiwrocrataidd i adael i wir ysbryd LEADER weithredu.”

4.42 Ceir enghreifftiau hefyd o GGLlau sy’n datblygu eu syniadau prosiect eu hunain i gyflawni’r amcanion o fewn y Strategaeth Datblygu Lleol. Mewn rhai achosion, roeddent wedyn yn comisiynu’r gwaith o gynnal y prosiectau hynny, tra mewn GGLlau eraill, cynhelid y prosiectau gan y staff eu hunain a gyflogid ar ran y GGLl gan y corff gweinyddol. Mae’r dull cyflawni ‘mewnol’ hwn (sef y prif ddull yng Ngwynedd, er enghraifft) yn cynnig nifer o fanteision. Er enghraifft, gellir dadlau ei fod yn annog mwy o arloesi. Yn ogystal, mae’n rhoi mwy o reolaeth dros gynnal y prosiectau o safbwynt gweinyddol.

4.43 Fodd bynnag, mae dull gweithredu o’r fath hefyd yn golygu bod llai o’r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddosbarthu i grwpiau yn yr ardal leol oherwydd bod prosiectau’n cael eu cyflawni’n ‘fewnol’. Mae hyn hefyd yn lleihau’r potensial i ddefnyddio’r cyllid i ddatblygu capasiti i gynnal prosiectau yn y sefydliadau allanol hynny.

4.44 Byddai rhai hefyd yn dadlau nad yw dull o’r fath o reidrwydd yn cael ei ‘arwain gan y gymuned’ neu ‘o’r gwaelod i fyny’. Fodd bynnag, yr wrthddadl yw bod y GGLl wedi’i sefydlu i gynrychioli’r gymuned. Gall y grŵp hefyd ddatblygu syniadau yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan y gymuned trwy weithgareddau ymgynghori a bywiocáu

yn ogystal â chanfyddiadau o weithgareddau peilot eraill a ariannwyd gan LEADER yn yr ardal. Felly, credwn fod y dull hwn yn ddilys o fewn dull LEADER, yn amodol ar ymgynghori effeithiol a gweithgareddau bywiocáu gyda'r gymuned leol.

**Astudiaeth achos fechan: prosiectau eraill yn 'bywiocáu' cymunedau lleol**

Mae yna nifer o raglenni a chynlluniau yng Nghymru sy'n gweithio gyda chymunedau i ddatblygu syniadau a phrosiectau. Nid yw'r canlynol ond ychydig o enghreifftiau.

Mae **Dyfodol Gwledig** yn rhaglen 7 mlynedd sy'n rhedeg ers 2017 ac wedi'i hariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'n cefnogi cymunedau i ddatblygu eu syniadau eu hunain i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd lleol — boed yn dirwedd, hanes yr ardal, neu sgiliau, gwybodaeth ac egni trigolion[35]. Caiff y rhaglen ei rhedeg gan Severn Wye a Phartneriaeth BRO, ac mae'n cefnogi 14 cymuned ledled Cymru wledig.

Prif ffocws rhaglen **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** Llywodraeth Cymru yw ennyn cymunedau i gymryd rhan yn y broses o *greu* mannau ar gyfer natur, nid i dderbyn yn oddefol neu arsylwi ar fyd natur yn unig. Y bwriad yw darparu 'natur ar garreg eich drws' gan ddefnyddio dull 'o'r gwaelod i fyny'. Nid yw'n orchmynnol ynghylch yr hyn y gall cymunedau ddymuno ei wneud i gefnogi 'gweithgarwch dan arweiniad y gymuned', gan roi sylw i 'leoedd bob dydd'. Mae'r rhaglen flynyddol yn rhoi buddsoddiad cyfalaf yn bennaf, gan ariannu mwy na 500 o brosiectau cymunedol yn flynyddol, pob un yn creu lle lleol ar gyfer natur.

Sefydlwyd prosiect **Llais y Goedwig** yn y lle cyntaf yn nechrau 2019[36]. Ei nod erbyn ei ddiwedd yn 2022 oedd cynyddu nifer y cymunedau sydd â mynediad i goetiroedd yng Nghymru. Cefnogir y prosiect drwy gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) yr RDP ac mae'n ariannu cymorth 'ar lawr gwlad' i grwpiau coetiroedd cymunedol drwy ei chwe swyddog datblygu rhanbarthol. Mae'r swyddogion hyn yn gweithio'n uniongyrchol gydag aelodau, tirfeddianwyr, a grwpiau coetiroedd cymunedol newydd i'w cefnogi mewn sawl capasiti gwahanol.

35 Dyfodol Gwledig
36 Llais y Goedwig

*Strwythur staff a thîm*

4.45 Ar y cyfan, mae adroddiadau gwerthuso ar lefel GGLlau yn gadarnhaol iawn am ansawdd y staff, y rôl allweddol y maent yn ei chwarae wrth gefnogi'r GGLl, yn ogystal â'r modd y maent yn cyflawni'r rôl bywiocáu. Mae sylwadau gan reolwyr GGLl yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i gael staff da (a phrofiadol) i reoli/cyflawni ac ymgymryd â'r rôl bywiocáu, a ddisgrifir i fod yn 'arbenigol' ac angen set sgiliau penodol iawn. Holl bwysig hefyd yw'r rheidrwydd i'r gymuned leol (gan gynnwys grwpiau diddordeb lleol) 'ymddiried' yn y tîm bywiocáu a chael perthynas gadarnhaol â nhw.

4.46 Mae'r strwythur tîm ar gyfer cynnal LEADER hefyd yn amrywio ledled Cymru nid yn unig yn seiliedig ar faint o gyllid sydd ar gael (sy'n amrywio'n sylweddol, fel y trafodwyd yn flaenorol), ond hefyd, fel y trafodwyd ym Mhennod 3, yn dibynnu a yw'r corff gweinyddol yn gweithio ar draws sawl GGLl ai peidio, sydd wedi rhoi modd rhannu staff rhwng ardaloedd.

4.47 Ceir cymysgedd hefyd o ran a yw swyddi LEADER yn y cyrff gweinyddol yn rhai amser llawn neu ran-amser. Mewn rhai achosion, mae'r tîm yn cynnwys aelodau staff amser llawn yn unig. Ond mae enghreifftiau o dimau (sydd fel arfer yn fwy o ran nifer) sydd â nifer o rolau rhan-amser, a'r rheiny yn aml wedi'u rhannu â rolau mewn cynlluniau eraill. Unwaith eto, mae hyn yn tanlinellu'r amrywiadau yn y ffordd y caiff LEADER ei gyflwyno ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n annisgwyl nac yn cael ei feirniadu, gan ei fod yn adlewyrchu maint y gweithgaredd a sut mae cyflwyno LEADER wedi'i integreiddio i weithgareddau/strwythurau eraill ym mhob ardal. Fodd bynnag, mae angen cydnabod yr amrywio (a'r cryfderau a'r gwendidau cysylltiedig).

*Parhad, hyfforddiant, a datblygiad proffesiynol parhaus*

4.48 Mae'n glir iawn pa mor werthfawr yw profiad a pharhad ymhlith y staff sy'n cyflwyno LEADER. Mae enghreifftiau ledled Cymru o staff sydd wedi bod yn ymwneud â LEADER mewn rhyw fodd neu'i gilydd ers cryn amser a chanddynt bellach ddealltwriaeth ddofn iawn o'r dull gweithredu a'r ffordd orau o'i gyflwyno oherwydd hynny; mae profiad yn fuddiol mewn unrhyw rôl. Fodd bynnag, mae'n arbennig o wir yn LEADER, oherwydd y ffocws ar feithrin cysylltiadau yn y gymuned leol a datblygu dulliau newydd ac arloesol i ddatblygu gwledig. Mae'n bwysig iawn felly gallu cadw staff yn y timau sy'n cyflwyno LEADER.

4.49 Mae hyfforddi a datblygu staff hefyd yn bwysig. Nid yw'r gwerthusiad wedi archwilio'r mater hwn yn fanwl. Nid yw'n glir, fodd bynnag, faint o weithgarwch hyfforddiant (neu ddatblygiad proffesiynol parhaus) sy'n digwydd o fewn strwythur LEADER yng Nghymru, ac sy'n ymwneud yn benodol â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i roi dull LEADER ar waith, ac yn benodol, o safbwynt staff, i gyflawni'r rôl bywiocáu. Dim ond un corff gweinyddol sy'n cynnig hyfforddiant penodol yn hyn o beth y gwyddom ni amdano (sef Menter Môn). Nid yw'n faes y mae Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi bod yn weithgar ynddo, er enghraifft. Mae'r potensial a'r cyfle i gyrff gweinyddol a thimau LEADER ddysgu oddi wrth ei gilydd hefyd yn glir, gyda rhai ardaloedd/sefydliadau bellach wedi bod yn ymwneud â'r dull ers dros 20 mlynedd. Eto, fodd bynnag, nid ymddengys fod hyn yn digwydd yn gyffredinol, ac eithrio rhywfaint o weithgarwch rhwydweithio rhwng cyrff gweinyddol ar lefel ranbarthol.

4.50 Mae'n anochel bod staff yn symud ymlaen, yn enwedig pan fydd cynlluniau'n dirwyn i ben a staff yn symud oherwydd yr ansicrwydd swydd y gall hyn olygu. Yn wir, mae adroddiadau gwerthuso blaenorol wedi nodi'r angen i wneud penderfyniadau cynnar ar gyllid parhaus ar gyfer gweithgareddau LEADER pan fydd cynlluniau'n dod i ben. Nid yw cyfnod y cynllun presennol yn wahanol.

4.51 Mae'r sefyllfa y tro hwn hefyd wedi'i ddwysáu wrth i gyfnod presennol y rhaglen, a'r cynllun ei hun, ddod i ben oherwydd Brexit ac nad oes Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE newydd (na chynllun LEADER olynol) yng Nghymru. Mae'n bwysig, felly, y ceir penderfyniad cynnar ynghylch a fydd cyllid yn parhau i gael ei ddarparu i grwpiau LEADER.

4.52 Gan dderbyn bod staff yn symud ymlaen, mae dysgu sefydliadol hefyd yn dod yn bwysig (y broses o greu, cadw, a throsglwyddo gwybodaeth o fewn sefydliad) a dylid rhoi pwyslais ar sicrhau bod hyn yn digwydd o fewn Grwpiau Gweithredu Lleol ac o fewn y timau/cyrff gweinyddol.

*Adborth prosiectau am y cymorth a gafwyd*

4.53 Un o swyddogaethau allweddol y rôl bywiocáu yw rhoi cymorth i sefydliadau/mudiadau sydd am ddefnyddio cymorth LEADER, ac mae'r adborth gan dderbynwyr y cymorth hwnnw yn gyson gadarnhaol (fel yr adroddwyd mewn nifer o adroddiadau gwerthuso canol tymor GGLl).

4.54 Roedd 51 o ymatebwyr yr arolwg ar-lein ar gyfer y gwerthusiad hwn yn ymwneud â chynnal prosiectau a gefnogwyd gan LEADER. Y mathau mwyaf cyffredin o gymorth a gawsant oedd:


- Cyngor ac/neu gymorth ynghylch ymgeisio am gyllid LEADER (n=40)
- Cyngor cyffredinol ar ddatblygu prosiect (n=32)
- Cymorth wrth weithredu prosiect a ariannwyd gan LEADER (n=26)
- Cymorth wrth hyrwyddo prosiect (n=21)

4.55 O'r rhain, dywedodd 84 y cant fod y cymorth yn ddefnyddiol iawn neu'n hynod ddefnyddiol (53 y cant a 31 y cant yn y drefn honno). Mae hwn yn adborth cadarnhaol iawn. Trafodir effaith y cyngor a'r canllawiau hyn yn y bennod nesaf.

**Ymwybyddiaeth o weithgareddau LEADER mewn ardaloedd eraill**

4.56 Canfu'r arolwg ar-lein mai isel yw'r ymwybyddiaeth ymhlith ymatebwyr o weithgareddau a wneir gan GGLlau eraill (Ffigur 4.4), hyd yn oed o ran gweithgarwch yng Nghymru. Roedd 41% o'r ymatebwyr ychydig yn gyfarwydd neu ddim yn gyfarwydd o gwbl â'r gweithgareddau a'r prosiectau a gynhelid gan GGLlau mewn rhannau eraill o Gymru. Roedd ymwybyddiaeth yn isel iawn am weithgareddau GGLlau mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop.

**Ffigur 4.4: Pa mor gyfarwydd yr oedd ymatebwyr yr arolwg ar-lein â phrosiectau a wnaed gan GGLlau mewn rhannau eraill o Gymru, y DU ac Ewrop**




Sylwer: efallai na fydd y canrannau yn adio i 100 oherwydd talgrynnu

4.57 Mae hwn yn ganfyddiad pwysig, ac yn cael ei ategu gan ganfyddiadau yn adroddiadau gwerthuso canol tymor GGLlau. Mae rhwydweithio a chydweithredu yn nodweddion allweddol o ddull LEADER. Mae’r ddau, fodd bynnag, yn gofyn am ymwybyddiaeth o’r hyn y mae GGLlau eraill yn ei wneud. Mae ymwybyddiaeth o syniadau sy’n cael eu datblygu a’u treialu mewn ardaloedd eraill hefyd yn sbardun allweddol i arloesi yn y cynllun.

4.58 Mae amrywiaeth o fecanweithiau wedi bod ar gael ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng cyfranogwyr yng nghynllun LEADER. Yr amlycaf o’r rhain yw Rhwydwaith Gwledig Cymru, sydd wedi rhannu gwybodaeth yn ymwneud â phrosiectau LEADER yng Nghymru ac astudiaethau achos trwy ei wefan. Yn ogystal, bu rhai gweithgareddau rhwydweithio, er bod pandemig COVID-19 wedi cwtogi ar y posibilrwydd o gael mwy o weithgareddau tebyg. Ar lefel yr UE, ceir hefyd Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop sy’n cynnig gwybodaeth eang ar brosiectau a gweithgareddau LEADER ledled Ewrop drwy ei wefan. Fodd bynnag, awgryma’r canfyddiad ynghylch lefelau ymwybyddiaeth am weithgareddau LEADER mewn ardaloedd eraill nad yw’r dulliau hyn wedi bod yn llwyddiannus.

4.59 Yn y cyfweliadau manwl a’r cyfweliadau â rhanddeiliaid, ceid awgrym fod ymwybyddiaeth bod gwybodaeth ar gael am weithgareddau mewn ardaloedd eraill, ond nad yw’n cael ei defnyddio. Un o’r prif resymau am hyn yw bod aelodau GGLl (a staff) yn canolbwyntio gymaint ar weithgarwch yn eu hardal eu hunain, gydag ychydig iawn o amser, os o gwbl, ar gael ganddynt i ystyried prosiectau mewn ardaloedd eraill a sut mae LEADER yn cael ei gyflwyno yno. Unwaith eto, mae angen cadw mewn cof fod aelodau GGLl yn wirfoddolwyr a’u hamser yn brin, yn ogystal â’r galw mawr i staff weithio gyda phrosiectau/rhanddeiliaid yn eu hardal eu hunain. Fodd bynnag, ymddengys bod peidio gwybod am weithgarwch mewn ardaloedd eraill yn gyfle mawr sydd wedi’i golli, yn enwedig o ystyried mai hwn fydd y tro olaf i Gymru gymryd rhan yng nghynllun LEADER ar gyfer yr UE gyfan.

**Cydweithredu**

4.60 Fel y nodwyd uchod, mae cydweithredu rhwng GGLlau ac ardaloedd o fewn y cynllun yn nodwedd allweddol o ddull LEADER. Yn wir, mae pob GGLl yng Nghymru wedi cael cyllideb benodol ar gyfer prosiectau cydweithredol i’w defnyddio ar gyfer cydweithredu o fewn Cymru neu’r tu allan iddi.

4.61 Y rhesymeg y tu ôl i gynnwys cydweithredu fel elfen o ddull LEADER yw ei fod yn ychwanegu dimensiwn ehangach i ddatblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae cydweithredu hefyd yn mynd ymhellach na rhwydweithio drwy gynnwys pobl leol a GGLlau i weithio gydag eraill i gynnal prosiect ar y cyd. Ymhellach, nid oes cyfyngiadau ar y cydweithredu o fewn canllawiau'r cynllun ar gyfer LEADER a gall gynnwys grwpiau tebyg o dan elfen wahanol y cronfeydd strwythurol.

4.62 Mae cydweithredu wedi bod yn nodwedd o gynllun LEADER yng Nghymru. Mae 71 o brosiectau cydweithredu wedi'u cynnal yng Nghymru fel rhan o'r cynllun presennol, sef tua 10 y cant o gyfanswm nifer y prosiectau. Fodd bynnag, dim ond pedwar o'r prosiectau hyn sy'n brosiectau 'trawswladol' sy'n cynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol o'r tu allan i Gymru.

4.63 Mae cryn dipyn o'r cydweithredu yng Nghymru wedi digwydd gyda Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n gyfagos i'w gilydd. Mae'r rhesymeg y tu ôl i hyn yn glir o ran achub ar y cyfle i fynd i'r afael â'r un angen ar draws ardal fwy o faint nag y gallai unrhyw ardal unigol ei wneud ar ei phen ei hun. Mae hwylustod gweithio gyda GGLl cyfagos hefyd yn glir, yn enwedig os mai'r un sefydliad yw'r corff gweinyddol arweiniol ar gyfer y GGLlau hynny; mae Cadwyn Clwyd, er enghraifft, wedi cefnogi/cynnal sawl prosiect cydweithredol, gan weithio ar draws y tri GGLl y mae'n eu gwasanaethu. Fodd bynnag, mae llawer llai o enghreifftiau o GGLlau yng Nghymru yn gweithio gyda grwpiau ymhellach i ffwrdd. Fel y trafodir yn y bennod nesaf, mae hefyd yn amlwg o adolygu'r prosiectau ym mhob ardal GGLl bod cyfleoedd ar gyfer cydweithredu wedi'u colli, gyda nifer o enghreifftiau o brosiectau tebyg yn cael eu cynnal ar wahân.

4.64 Fel y nodwyd uchod, dim ond pedwar prosiect trawswladol a gynhaliwyd fel rhan o gynllun LEADER yng Nghymru. Rhaid ystyried hwn yn gyfle mawr iawn sydd wedi'i golli i gydweithio a rhannu profiadau gyda Grwpiau Gweithredu Lleol o rannau eraill o'r UE. Oherwydd ymadawiad y DU â'r UE, mae'n bosibl mai hwn yw'r cynllun LEADER olaf y bydd Cymru'n cymryd rhan ynddo (fel rhan o raglen Ewropeaidd), sy'n golygu y gallai cyfleoedd o'r fath fod yn llawer llai yn y dyfodol.

**Arloesi**

4.65 Mae'r ffocws ar arloesi yn LEADER yn seiliedig ar y ddadl bod gwneud mwy o'r un peth yn annhebygol o alluogi ardal i gyrraedd ei llawn botensial ac y dylid chwilio am atebion newydd i broblemau presennol. Y nod yw annog a chefnogi dulliau ac

atebion newydd, blaengar ac entrepreneuraidd i faterion lleol a rhannu a throsglwyddo'r profiad hwnnw. Mae LEADER felly yn cynnig amgylchedd di-risg lle gall prosiectau symud ymlaen a datblygu mewn ffyrdd annisgwyl neu hyd yn oed 'fethu'; caniateir pob canlyniad a'i ystyried yn gyfleoedd i ddysgu.

4.66 Mae'r enghreifftiau o brosiectau a gyflwynir ym Mhennod 5 yn dangos bod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi nifer o ddulliau arloesol o ddatblygu gwledig. Mae hyn yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid a'r rheiny sydd wedi ymwneud â chynnal LEADER, awgrymwyd bod arloesi yn y cynllun yn cael ei weld yn aml yn flwch y mae angen ei dicio i ariannu prosiectau (yn hytrach nag un o nodweddion allweddol LEADER). O'r herwydd, lefel yr 'arloesi' mewn prosiect yw'r isafswm sydd ei angen er mwyn 'ticio'r blwch arloesi'. Yn ymarferol mae hyn yn golygu ei fod yn aml yn cael ei ddiffinio yn ei ffurf fwyaf sylfaenol — 'gweithgaredd newydd yn yr ardal hon' sy'n annhebygol o gyflawni uchelgeisiau LEADER i gefnogi 'dulliau newydd, blaengar ac entrepreneuraidd'.

4.67 Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi sut mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn diffinio arloesedd yn y canllawiau ar ddatblygu gwledig dan arweiniad y gymuned (CLLD). Mae'r diffiniad yn fwriadol eang ac mae hefyd yn cydnabod na all pob gweithgaredd fod yn 'arloesol':

> "Yn y cyd-destun hwn, mae'r Comisiwn wedi gadael y diffiniad o arloesi mewn datblygu gwledig dan arweiniad y gymuned yn fwriadol agored, yn hytrach na cheisio ei ddiffinio "ymlaen llaw", sydd, trwy ddiffiniad, yn cyfyngu ar y cwmpas ar gyfer creadigrwydd lleol. Gall arloesi gynnwys gwasanaethau newydd, cynhyrchion newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau yn y cyd-destun lleol (Erthygl 32(2)(d)). Wrth gwrs, nid oes rhaid i bopeth yn y strategaeth fod yn arloesol, gan y bydd yn rhaid i bartneriaethau yn aml feithrin ymddiriedaeth drwy ddangos y gallant hefyd gyflawni rhai anghenion sylfaenol tymor byr."[37]

4.68 Mae dogfennau SDLL ar y cyfan yn uchelgeisiol o ran sut y maent yn disgrifio'r arloesedd y bydd LEADER yn ceisio ei gefnogi. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'r dull ei hun fel arfer yn fwy ceidwadol. Mae'r dull hefyd yn aml yn adweithiol a dadleuir mewn sawl adroddiad gwerthuso canol tymor y gellid/dylid gwneud mwy fel rhan o'r gweithgareddau bywiocáu i gefnogi/hwyluso datblygu syniadau newydd ac

[37] Canllawiau ar Ddatblygu Lleol ar gyfer Gweithredwyr Lleol (2014). (Saesneg yn unig) Canllawiau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer Aelod-wladwriaethau a Chanllawiau Awdurdodau'r Rhaglen ar gyfer Buddiolwyr, t. 28

arloesol yn yr ardal leol. Yng Ngwynedd, er enghraifft, cynhaliwyd gweithdai a hyfforddiant, wedi'u cynllunio i ddefnyddio technegau meddwl creadigol i gefnogi datblygu syniadau am brosiect.

4.69 Fodd bynnag, mae hefyd angen ystyried y potensial y gallai arloesi ddod yn rhwystr i ymgysylltu â LEADER, fel y cydnabyddir yng nghanllawiau'r CE ar CLLD (fel y dyfynnwyd uchod). Soniwyd am hyn mewn trafodaethau gyda staff GGLl wrth iddynt bwysleisio fod ymgysylltu â grwpiau cymunedol yn enwedig yn aml yn broses lle'r byddai angen cyflwyno'r angen i feddwl yn arloesol ar yr adeg gywir a meithrin hyder/capasiti grwpiau yn gyntaf. Y flaenoriaeth yn aml yw gwireddu prosiectau y mae'r gymuned yn eu hystyried yn bwysig, p'un a ydynt yn arloesol ai peidio.

4.70 Mae prosiectau a ariennir gan LEADER yn aml yn cael eu cefnogi fel cynlluniau peilot 'untro'. Fodd bynnag, yn amlach na pheidio mae arloesi yn broses ailadroddus gyda syniadau yn mynd trwy sawl fersiwn a phrototeip. Ymddengys mai ychydig iawn o enghreifftiau sydd o brosiectau peilot sydd wedi'u hariannu gan LEADER trwy iteriadau lluosog lle caiff prosiectau eu haddasu (neu eu bod yn esblygu) yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd.

**Astudiaeth achos fechan: enghreifftiau o gynlluniau arloesi eraill yng Nghymru**

Mae **InFuSe** (sy'n golygu Innovative Future Services) yn rhaglen werth £5.6 miliwn wedi'i hariannu gan yr ESF. Ei nod yw cefnogi awdurdodau lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd i gael mynediad at sgiliau, dulliau ac adnoddau newydd sy'n gwella eu gallu i arloesi[38]. Caiff ei gynnal drwy dri 'Lab' sydd â ffrydiau gwaith penodol:

- *Y Lab Addasu* – yn rhedeg am 6 wythnos, mae cyfranogwyr yn cael gwybodaeth ac offer i'w helpu i ddeall sut i fabwysiadu neu addasu arloesiadau yn llwyddiannus i gyd-fynd â'u cyd-destun a'u hanghenion eu hunain.
- *Y Lab Data* – yn rhedeg am 6 wythnos, mae'r ffrwd gwaith hwn yn sôn am bwysigrwydd moeseg data, y gwahanol fathau o ddata a sut y gall y rhain helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a chyflwyno cyfranogwyr i'r hyn sy'n bosibl trwy ddefnyddio technegau gwyddor data.
- *Y Lab Caffael* – yn rhedeg am 6 wythnos, bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i gynyddu effaith gwariant cyhoeddus er mwyn cyflawni eu nodau strategol

[38] Infuse: Innovative Future Services | Y Lab

ehangach. Bydd y Lab yn darparu offer a thechnegau, y gellir eu defnyddio gan unrhyw un mewn sefydliad, i sicrhau cael y ‘gwerth’ mwyaf wrth gomisiynu, neu brynu nwyddau a gwasanaethau.

Mae **Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru** yn darparu cyllid i 46 prosiect o bob cwr o Gymru sy’n treialu technegau a thechnolegau arloesol ar lefel ymarferol mewn busnesau ffermio a choedwigaeth[39]. Mae’r cynllun yn cynnwys grwpiau sy’n dwyn ynghyd amrywiaeth o wahanol bobl gan gynnwys ymgynghorwyr, ymchwilwyr, busnesau a Chyrff Anllywodraethol. Trwy ddod â phobl sydd â gwahanol arbenigeddau ynghyd, y bwriad yw creu cyfleoedd i elwa o wahanol brofiadau, cyflwyno syniadau newydd a defnyddio’r wybodaeth ddiweddaraf i fynd i’r afael â phroblemau. Mae *Broceriaid Arloesi* yn chwarae rhan allweddol yn y cynllun wrth gefnogi’r grwpiau. Cânt hwythau gefnogaeth *Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth* sy’n darparu ymchwil ategol i ymgeiswyr ar syniadau eu prosiect. Mae hon yn elfen hollbwysig er mwyn sicrhau bod prosiectau arfaethedig yn adeiladu ar waith ymchwil sydd eisoes yn bodoli nad yw wedi’i roi ar waith yn ymarferol o’r blaen ar ffermydd neu safleoedd coedwigaeth yng Nghymru.

**Rhagdybiaethau, rhwystrau a galluogwyr**

4.71 Wrth ddatblygu Theori Newid i LEADER ar gyfer y gwerthusiad hwn, nodwyd nifer o ragdybiaethau pwysig, galluogwyr allweddol, a rhwystrau y mae angen eu goresgyn er mwyn i’r cynllun gyflawni’r canlyniadau a’r effaith a ddymunir. Mae’r rhain wedi’u gwasgaru ar draws pob cam y Theori Newid, gan ddechrau gyda pharodrwydd cymunedau, busnesau, unigolion, ac ati yn ogystal â’u gallu i gymryd rhan yn y cynllun. Os nad yw’r grwpiau hynny’n fodlon ac/neu’n gallu cymryd rhan, ni all y cynllun weithredu.

4.72 Mae rhagdybiaethau, rhwystrau a galluogwyr eraill a nodir yn y ‘theori’ yn cynnwys:

- ‘Gallu’ y gymuned i ddatblygu syniadau/cynigion am brosiect arloesol
- Ymwybyddiaeth o gynllun LEADER/sefydliad cynnal y cynllun ymhlith grwpiau targed (a’r cymorth y gall ei ddarparu)
- Cefnogaeth rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol i’r cynllun
- Gwybodaeth a phrofiad y tîm cefnogi (cynnal gweithgareddau bywiocáu, ac ati)

[39] Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) | Busnes Cymru (llyw.cymru)

- Gwybodaeth a phrofiad aelodau'r GGLl a'u parodrwydd/gallu i ymgysylltu â'r cynllun
- 'Meddylfryd newydd' ar lefel GGLl (i gefnogi datblygu syniadau arloesol, ac ati)
- Capasiti yn yr ardal leol i reoli a chynnal prosiectau yn effeithiol.

4.73 Mae nifer o'r ffactorau hyn yn ymwneud â'r tîm sydd wedi'i sefydlu i gefnogi cyflwyno LEADER (yn y sefydliad gweinyddol). Mae gallu'r timau hynny i gyflawni eu rôl (fel galluogwyr) felly yn hanfodol i weithredu LEADER. Mae parodrwydd a gallu aelodau'r GGLl i ymgysylltu hefyd yn bwysig.

4.74 Fodd bynnag, mae datblygiad y Theori Newid wedi nodi dau brif ffactor sy'n hanfodol os yw'r ddamcaniaeth i fod yn effeithiol. Yn gyntaf, ar y cam canlyniadau, mae'n hollbwysig bod cysylltiad yn ôl o'r dysgu a gynhyrchwyd drwy'r peilot a'r prosiectau arloesol a gefnogir gan LEADER i'r gweithgarwch ei hun; dim ond os caiff ei rannu ac y gweithredir arno y bydd dysgu yn effeithiol. Yn ail, ar lefel effaith, mae'n holl bwysig fod cyllid pellach neu barhaus ar gael (ac yn hygyrch) i brosiectau 'prif ffrwd' y mae LEADER wedi nodi eu bod yn effeithiol. Unwaith eto, os nad yw hyn yn bosibl, ni fydd y gweithgareddau sy'n cael eu datblygu (eu treialu) gan LEADER yn arwain at yr effaith ehangach y mae'r Theori Newid yn ei rhagweld i fod yn bosibl. Yn gysylltiedig â hyn mae gan bolisïau/cyllidwyr prif ffrwd ymwybyddiaeth o brosiectau a syniadau sydd wedi'u treialu/profi fel rhan o LEADER.

**Rhannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd**

4.75 Mae'n bryder ei bod yn ymddangos nad oes mecanwaith ar waith i gasglu a rhannu canfyddiadau'r 700+ o brosiectau sydd wedi'u datblygu fel rhan o'r cynllun presennol. Cydnabyddir fod Rhwydwaith Gwledig Cymru yn un dull yn hyn o beth a'i fod yn rheolaidd yn rhannu gwybodaeth ac astudiaethau achos o'r Rhwydwaith ar ei wefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, ac ati. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer lleiafrif o brosiectau LEADER yng Nghymru y mae'r astudiaethau achos (hyd yma) (er ein bod yn cydnabod bod llawer o brosiectau'n dal i fynd rhagddynt), ac mae'r gronfa ddata o brosiectau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi'i llenwi'n bennaf â gwybodaeth a ddarparwyd ar ôl i brosiectau gael eu cymeradwyo, yn hytrach nag ar ôl eu cwblhau. Bydd aelodau GGLl a rhanddeiliaid yn yr ardaloedd unigol yn ymwybodol o'r hyn y maent wedi'i ariannu a'r gobaith yw y byddant yn canolbwyntio fwyfwy ar adolygu'r gwersi a ddysgwyd ac ati. Fodd bynnag, mae diffyg ymwybyddiaeth o weithgareddau mewn

ardaloedd eraill yn arwain at bryderon na fydd dysgu o bob rhan o Gymru yn cael ei rannu'n effeithiol.

4.76 Mae'n werth nodi hefyd ei bod yn anodd iawn dod o hyd i unrhyw wybodaeth am brosiectau sydd wedi'u cynnal fel rhan o gynlluniau LEADER blaenorol yng Nghymru; nid oes ffynhonnell wybodaeth am y prosiectau a'r gweithgareddau sydd wedi'u treialu fel rhan o gynlluniau LEADER blaenorol yng Nghymru, ac mae hon yn broblem fawr os mai nod LEADER yw datblygu a threialu (ac yna rhannu) dulliau newydd ac arloesol i ddatblygiad gwledig.

# 5. Adolygiad o brosiectau a ariannwyd gan gynllun LEADER

### Cyflwyniad

5.1 Ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRN) y mae'r gronfa ddata fwyaf cynhwysfawr o'r prosiectau a weithredir neu a ariennir gan LEADER yng Nghymru, a defnyddir y data o'r wefan honno ar gyfer y dadansoddiad yn y bennod hon. Mae ffocws y drafodaeth yn y bennod hon ar yr ystod o brosiectau a gefnogir gan LEADER yng Nghymru, yn hytrach na'u canlyniadau, a drafodir yn y bennod nesaf.

Prif bwyntiau

- Cefnogwyd mwy na 700 o brosiectau gan LEADER yng Nghymru (wedi'u dosbarthu dros y pum thema).
- Mae rhychwant y prosiectau yn sylweddol, gyda nifer o syniadau arloesol yn cael eu treialu ymhlith yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel prosiectau datblygu lleol mwy 'traddodiadol'.
- Mae nifer y prosiectau a gefnogir o dan Thema 4 (ynni adnewyddadwy) a Thema 5 (technoleg ddigidol) yn is nag o dan y themâu eraill. Fodd bynnag, ceir prosiectau o dan y themâu eraill sydd ag elfennau o ynni adnewyddadwy a thechnoleg ynddynt.
- Mae prosiectau wedi'u cynnal sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â Themâu Trawsbynciol ac Amcanion Trawsbynciol Llywodraeth Cymru ac RDP 2014–2020, gyda nifer o brosiectau sy'n cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg yn amlwg.
- Mae gweithgarwch yn y cynllun sy'n cyflawni pob un o'r amcanion llesiant a restrir yn Rhaglen Llywodraethu Cymru.
- Datblygwyd prosiectau yn benodol i fynd i'r afael â'r heriau a grëwyd gan bandemig COVID-19, gan adeiladu ar y cysylltiadau sydd gan GGLlau o ganlyniad i weithredu dull LEADER.
- Roedd cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach ymhlith Grwpiau Gweithredu Lleol, gan fod prosiectau tebyg iawn wedi cael eu darparu gan GGLlau mewn gwahanol ardaloedd.

### Nifer y prosiectau a themâu

5.2 Ym mis Mehefin 2021, cofnodwyd 720 o brosiectau LEADER ar gronfa ddata Rhwydwaith Gwledig Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad y prosiectau hynny yn ôl thema.

**Tabl 5.1: Nifer a chanran prosiectau LEADER yn ôl thema**

| Themâu'r rhaglen | Nifer | % y cyfanswm |
|---|---|---|
| 1) Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol | 233 | 32.4 |
| 2) Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr | 152 | 21.1 |
| 3) Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol | 179 | 24.9 |
| 4) Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol | 86 | 11.9 |
| 5) Manteisio ar dechnoleg ddigidol | 70 | 9.7 |

Ffynhonnell: dadansoddi data a gedwir yng nghronfa ddata Rhwydwaith Gwledig Cymru

5.3 Thema 1 sydd bennaf drwy fod â mwy na 200 o brosiectau ac yn 30 y cant o gyfanswm y prosiectau. Mae Themâu 4 a 5 yn llawer is na'r tri arall o ran nifer y prosiectau, gan adlewyrchu'r heriau a nodwyd mewn cyfweliadau â chadeiryddion y GGLlau a rheolwyr cyrff gweinyddol mewn perthynas â'r themâu hynny, o bosibl oherwydd eu natur arbenigol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod prosiectau'n aml yn cyd-fynd â sawl thema ond yn cael eu rhoi o dan yr un sydd fwyaf addas. Er enghraifft, mae prosiectau trafnidiaeth yn Thema 1 sydd hefyd ag elfen o ynni adnewyddadwy. At hynny, mae prosiectau ym mhob thema sy'n manteisio ar dechnoleg ddigidol ac, felly, a allai fod wedi bod yn addas i'r thema honno ond sydd wedi'u neilltuo mewn man arall yn seiliedig ar y canlyniad y maent yn ceisio ei gyflawni.

### Gweithgareddau a gefnogwyd – enghreifftiau o brosiectau

5.4 Un o'r heriau wrth werthuso LEADER yw'r rhychwant mawr o brosiectau sydd wedi'u hariannu. Ceir rhestr o enghreifftiau o brosiectau o dan bob thema ac o bob rhan o Gymru yn yr Adroddiad Technegol. Maent wedi eu dewis gan y tîm gwerthuso i adlewyrchu'r ystod o weithgareddau a gynhaliwyd ac a gefnogwyd, gan dynnu ar y wybodaeth am y prosiectau a geir ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru. Mae'r rhestr o enghreifftiau yn hir. Fodd bynnag, yr unig ffordd i wir werthfawrogi'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu cefnogi gan LEADER yw adolygu'r rhestr hon a

byddem yn annog darllenwyr i gymryd amser i ddarllen y rhestr yn llawn er mwyn gwerthfawrogi cwmpas y gweithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o LEADER.

5.5 Yn ogystal, yn yr Adroddiad Technegol ceir 14 astudiaeth achos o 'brosiectau' a gefnogwyd gan iteriadau blaenorol o LEADER yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u cynnwys i ddangos canlyniadau etifeddol a thymor hwy sydd wedi'u creu drwy gymorth LEADER yng Nghymru (fel y trafodir ymhellach yn y bennod nesaf).

**Cefnogi prosiectau peilot ac arloesol**

5.6 Mae LEADER wedi cefnogi ystod eang iawn o weithgareddau ar draws pum thema'r cynllun. Mae'r amrywiaeth o ddulliau newydd ac arloesol sy'n cael eu treialu hefyd yn amlwg ac yn gadarnhaol. Enghreifftiau yn unig yw'r canlynol o brosiectau hynod arloesol sy'n cael eu cynnal o dan bob thema, a cheir enghreifftiau pellach yn yr Adroddiad Technegol.

*Thema 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol*

- **Rhodd Eryri** – Gwynedd: cynllun peilot lle gwahoddir ymwelwyr i gyfrannu swm bach yn ychwanegol at eu bil mewn atyniadau, bwytai neu lety
- **3,000 CC – Dyma ni!** – Caerffili a Blaenau Gwent: nod y prosiect yw datblygu rhaglen ddeuddydd arloesol, ymarferol sy'n ymgysylltu ac yn helpu i feithrin hunanhyder ymhlith grwpiau bregus ac sy'n seiliedig ar hen hanes Cymru.

*Thema 2: Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr*

- **Academi'r Dyfodol** – Ceredigion: treialu gweithdai mewn nifer o feysydd sector â blaenoriaeth i bobl ifanc. Y nod yw datblygu arloesedd a chreadigrwydd, hyrwyddo entrepreneuriaeth, a meithrin hyder a gwytnwch.
- **Ffiws – Gofod Gwneud** – Gwynedd: prosiect i sefydlu 'mannau gwneud' mewn trefi yng Ngwynedd er mwyn dangos y dechnoleg a datblygu cymuned o wneuthurwyr ledled y sir.

*Thema 3: Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol*

- **Gofal Cardi** – Ceredigion: prosiect peilot yn ymchwilio i weld a yw cymunedau gwledig eraill yn gallu defnyddio pecyn cymorth, a ddatblygwyd gan Solva Care, fel sail i efelychu a dyblygu'r model gofal cymunedol llwyddiannus sydd ar waith ar hyn o bryd yn Solfach, Sir Benfro.

- **Cynllun Cefnogi Plant cyn-ysgol Gwledig** – Conwy: treialu ffordd newydd o roi cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd i gael mynediad at ddarpariaeth addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar mewn lleoliad lleol.

*Thema 4: Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol.*

- **Cynllun Ceir Trydan** – Gwynedd: treialu cynllun i edrych ar y potensial i osod ceir trydan mewn busnesau er mwyn iddynt gael eu defnyddio gan y busnes a thwristiaid.
- **Achub y Blaned un Ysgol ar y Tro** – Powys: gweithio gydag ysgolion i'w helpu i ddatblygu gweledigaeth hirdymor a dechrau gwneud y newidiadau angenrheidiol i'w gosod ar y llwybr i ddod yn ysgol di-allyriadau.

*Thema 5: Manteisio ar dechnoleg ddigidol*

- **Roboteg yn y Gymuned** – Mynwy a Chasnewydd: treialu ar gyfer rhaglen addysg gymunedol allgymorth i helpu pobl sy'n agored i niwed yn dechnolegol i addasu i dechnolegau newydd.
- **Prosiect Datblygu Realiti Estynedig** – Sir Ddinbych: Prosiect i ddatblygu a threialu nifer o lwyfannau realiti estynedig y gellid eu cyflwyno ledled ardal y Gogledd Ddwyrain. Y nod yw cael ymwelwyr i aros yn hirach yn y rhanbarth.

**Cyflawni Themâu Trawsbynciol ac Amcanion Trawsbynciol yr RDP**

5.7 Mae trafodaethau gyda rheolwyr cyrff gweinyddol a chadeiryddion y GGLl yn cadarnhau bod pob un o'r Grwpiau Gweithredu Lleol yn ymwybodol o'r Themâu Trawsbynciol (CCTs) ac Amcanion Trawsbynciol y Comisiwn Ewropeaidd yn RDP Cymru a'r angen i fynd i'r afael â nhw yn eu gweithgareddau. Roedd prosesau, fel y disgwylid, ar waith i alluogi unigolion o'r gymuned i ymwneud â'r cynllun yn eu dewis iaith ac i sicrhau bod arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu dilyn. Mae prosiectau hefyd wedi'u cynnal a'u cefnogi fel rhan o gynllun LEADER a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at bob un o'r Themâu a'r Amcanion Trawsbynciol, gan ddangos gwerth dull LEADER yn hynny o beth. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o brosiectau perthnasol sy'n cyd-fynd â phob Thema ac Amcan

Trawsbynciol. Mae Arloesi yn Amcan Trawsbynciol ond soniwyd amdano eisoes uchod[40].

*Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd, a'r Iaith Gymraeg*

5.8 Nod y thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif ffrydio Rhywedd yw lleihau anghyfiawnder a hybu cydlyniant cymdeithasol. Mae nifer o brosiectau yng nghronfa ddata Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cyfeirio'n benodol at gyfle cyfartal ac/neu brif ffrydio rhywedd fel rhan o'u hamcanion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Bwyta, Yfed, Bywyd Lleol** – Sir Ddinbych: prosiect i hwyluso datblygiadau cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr ar gyfer bwyd trwy wella'r cydweithio rhwng ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd, y sector lletygarwch, y sector manwerthu a sefydliadau addysgu/hyfforddi lleol. Roedd y prosiect yn benodol yn hyrwyddo cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a hyfforddiant i bobl ifanc sydd mewn perygl o adael addysg ac nad ydynt mewn gwaith nac yn dysgu.
- **Yma i Chi** – Ceredigion: gwasanaeth cwnsela ar-lein am ddim ar gyfer pobl 16-30 mlwydd oed sy'n gweithio neu'n byw mewn diwydiannau a lleoliadau diarffordd. Roedd y prosiect yn defnyddio grŵp o gwnselwyr sydd yn gyflogedig yn rhywle arall ar y pryd ac felly yn gallu cynnig ystod o brofiadau, oedrannau, rhywiau ac ieithoedd.

5.9 Mae'r iaith Gymraeg yn thema amlwg yn y prosiectau a gefnogir. Mae enghreifftiau sy'n canolbwyntio ar yr iaith yn cynnwys:

- **Y Gymraeg mewn Busnes** – Caerffili a Blaenau Gwent: prosiect i ymgysylltu a gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau i gefnogi, hwyluso a chynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ac i ysgogi cwmnïau a sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg fel arf i hybu gweithgareddau a datblygiad economaidd o fewn yr ardal.
- **Cymraeg yn y Gweithle** – Ceredigion: astudiaeth beilot ddwy flynedd gyda chyflogwyr a sefydliadau gwledig i gefnogi, hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cyflogaeth.
- **Datblygu Cymunedau Dwyieithog** – Sir Ddinbych: prosiect peilot i sefydlu grwpiau gwirfoddol lle nad ydynt yn bodoli, neu i gryfhau a chefnogi grwpiau sy'n

[40] Dylid nodi bod y ffocws yma ar brosiectau a gefnogwyd sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r themâu hyn. Nid yw canlyniadau'r prosiectau hyn wedi cael eu hasesu fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

bodoli eisoes, ac i gefnogi mwy o weithgareddau cymdeithasol ar gyfer cymunedau dwyieithog.

*Datblygu Cynaliadwy*

5.10 Disgrifir datblygu cynaliadwy yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Themâu Trawsbynciol i fod yn elfen hanfodol o sicrhau bod rhaglenni a gweithrediadau yn bodloni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar yr un pryd[41]. Dywedir bod amgylchedd deniadol o ansawdd uchel yn rhan allweddol wrth ddenu a chadw pobl i fyw a gweithio yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau ansawdd bywyd i drigolion Cymru.

5.11 Unwaith eto, mae llawer o'r prosiectau y soniwyd amdanynt eisoes uchod yn cyfrannu at weithredu'r thema hon. Mae'r canlynol yn enghreifftiau pellach o brosiectau a gefnogir gan LEADER sy'n benodol yn nodi datblygu cynaliadwy yn eu hamcanion.

- **Dyfodol Cambrian** – Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin: caiff y prosiect ar y cyd hwn ei gynnal gan Fenter Mynyddoedd Cambria. Mae'r ystod o weithgareddau yn cynnwys gwaith mewn cymunedau a busnesau lleol i adeiladu economi'r ardal mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn elwa o'r dirwedd unigryw ddiwylliannol a gwerth uchel natur yr ardal. Mae'r prosiect hefyd yn ymchwilio i sefydlu'r ardal fel 'Parc Natur' yn seiliedig ar Parcs Naturels Ffrainc, model arloesol a gynlluniwyd i hyrwyddo a gwreiddio datblygu cynaliadwy yn yr ardal.
- **Parc Dyfrffordd Tŷ Coch** – Torfaen: Astudiaeth dichonoldeb i ddatblygu cynigion ar gyfer y cysyniad 'parc dyfrffyrdd'. Mae'r prosiect yn rhan o'r strategaeth adfywio ar gyfer y gamlas, a fydd yn esiampl o ddatblygu cynaliadwy sy'n ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5.12 Byddem hefyd yn nodi bod y Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer Abertawe wledig wedi ymgorffori 'egwyddorion un blaned' yn eu Strategaeth Datblygu Lleol fel rhan o'r broses o adnewyddu'r cynllun yn 2020. Mae'r SDLl bellach yn ymgorffori blaenoriaethau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy osod cynaliadwyedd a gwydnwch cymunedol yn elfen sylfaenol eu gwaith. Maent yn cyflwyno ffordd newydd o weithio a meddylfryd newydd, a hyn yn ofynnol gan y rhai sy'n dymuno ymgysylltu â LEADER yn Abertawe.

---

[41] WEFO - Integreiddio Themâu Trawsbynciol ar draws Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

5.13 Mae’r prosiectau hyn a rhai eraill hefyd yn cyd-fynd ag Amcanion Trawsbynciol RDP y Comisiwn Ewropeaidd yn ymwneud ag arloesi, yr amgylchedd, a lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae prosiectau eraill y gellid sôn amdanynt yn cynnwys:

- **Astudiaeth Dichonoldeb i archwilio’r potensial am Brosiect Lliniaru Allyriadau Carbon** – Abertawe: astudiaeth i gefnogi datblygiad menter gymdeithasol ddielw, dan arweiniad y gymuned, sy’n cynnig gwrthbwyso carbon trwy blannu coed a dyfir yn y gymuned ac o darddiad lleol.
- **Her Werdd yr Ysgolion** – Bro Morgannwg: nod y prosiect hwn oedd gweithio gydag ysgolion i hybu diddordeb mewn ynni gwyrdd, a chodi ymwybyddiaeth ynghylch thema ‘Ynni Cymunedol Gwyrdd’ yn y gymuned ehangach. Gan ddefnyddio Modiwl Ynni’r Ecoysgolion, aeth y prosiect ati i greu her ynni rhwng ysgolion; bu disgyblion yn cynnal archwiliadau ynni yn eu cartrefi a’u cymunedau eu hunain.
- **Rheolaeth Strategol Safleoedd Natura 2000**– Pen-y-bont ar Ogwr: prosiect tair blynedd i ddatblygu prosesau sensitif a strategol o reoli safle Gwarchodfa Natur Cynffig er mwyn diogelu rhag colli cynefinoedd a sicrhau bod yr ecosystem yn dod yn fwy cydnerth wrth i’r hinsawdd newid, a chynnydd mewn ymwelwyr.

**Cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru**

5.14 Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y’u nodir yn Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 wedi’u disgrifio ym Mhennod 1, ac mae’r adolygiad o brosiectau a gefnogir gan gynllun LEADER wedi canfod fod gweithgareddau yn cyd-fynd â llawer o’r blaenoriaethau hynny. Y blaenoriaethau sy’n fwyaf perthnasol i gynllun LEADER yw’r canlynol:

- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol.
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.
- Ymgorffori ein hymateb i’r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a’r celfyddydau i ffynnu.

- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

5.15 Gall y prosiectau y soniwyd amdanynt eisoes yn y bennod hon gyfrannu at un neu fwy o'r blaenoriaethau hyn, gydag enghreifftiau pellach i'w cael yn yr Adroddiad Technegol. Fodd bynnag, byddem yn tynnu sylw at y canlynol fel enghreifftiau amlwg o rôl bosibl LEADER wrth gyflawni amcanion datblygu economaidd *ar lefel leol*:

- **Be Nesa Llŷn** – Gwynedd: Ar gyfer y prosiect hwn, daeth sawl person busnes ynghyd fel grŵp gan fod â gweledigaeth i gryfhau economi Pen Llŷn, gyda phwyslais ar annog pobl ifanc i aros yn yr ardal drwy sefydlu eu busnesau eu hunain. Ar y dechrau, y bwriad oedd sefydlu cronfa fenthyciadau i roi cymorth uniongyrchol i bobl ifanc sefydlu busnes, ond mae'r grŵp hefyd am fanteisio ar sgiliau ac arbenigedd unigolion yn y grŵp i fod yn fentoriaid.
- **Clwstwr Sgiliau Cynaliadwyedd** – Powys: mae'r prosiect hwn yn dod â chwe phartner ynghyd (Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Grŵp Colegau NPTC, Coleg y Mynyddoedd Duon, Siop Sgiliau a Ffermwyr Ifanc Cymru) i gydweithio i sefydlu Clwstwr Sgiliau Cynaliadwyedd ar gyfer Powys.
- **Rhwydweithiau Busnesau Gwledig** – Wrecsam: amcanion y prosiect hwn yw dod â'r gymuned fusnes ynghyd i rannu arfer gorau, datblygu cadwyni cyflenwi byr, ysgogi entrepreneuriaeth, annog rhyng-fasnachu a gwella cynaliadwyedd busnes yn yr economi wledig.
- **Strydoedd Unigryw** – Gwynedd: cynllun peilot i nodi ffyrdd y gall y stryd fawr a chanol trefi gystadlu â chanolfannau siopa a manwerthwyr ar-lein i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ardal ac, yn eu tro, gyfrannu at gynyddu gwariant lleol. Gall prosiectau gynnwys gosodweithiau celf, cynnal cyfres o weithgareddau, a datblygiadau rhyngweithiol/digidol.

*Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol*

5.16 Mae mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn ymrwymiad gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu i greu cyfleoedd cyflogaeth a dilyniant a helpu pobl i gael mynediad at y cyfleoedd hynny. Mae enghreifftiau o brosiectau a gefnogir gan LEADER sy'n cyd-fynd â'r thema hon yn cynnwys:

- **Gweithredu Ynni Lleol Cydweithredol** – Sir Ddinbych: mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â nifer o themâu trawsbynciol, gan dreialu creu clwb ynni lleol – sef clwb o gartrefi sy'n dod ynghyd mewn ardal sydd hefyd â modd creu ynni yn lleol (e.e. cynlluniau hydro a solar). Mae gan bob aelod o'r clwb 'gyfran' o'r ynni a gynhyrchir yn lleol. Ar adegau o alw isel, a phan gaiff ynni hefyd ei gynhyrchu'n lleol, codir cyfradd is ar aelodau'r clwb. Mae'r model yn meithrin cysylltiad rhwng defnyddwyr ynni a chynhyrchu ynni yn lleol, ac yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy ganiatáu prisiau trydan is.
- **Cnoi Cil Cymunedol** – Sir Benfro: treialu gwasanaeth allgymorth i daclo tlodi plant a thlodi bwyd mewn gwaith drwy gyflwyno gwasanaeth cegin gymorth wledig ar gyfer pedair ardal brawf a rhoi modd i nifer fawr o rieni/teidiau a neiniau gael mynediad i gefnogaeth ar gyfer cynhwysion bwyd teuluol a gwasanaeth hyfforddi.
- **Naturefix ar gyfer Iechyd a Lles** – Ceredigion/Merthyr/Castell-nedd Port Talbot: prosiect cydweithredol i ddod â phartneriaeth o sefydliadau ynghyd sy'n gweithio ym maes iechyd awyr agored a natur a darparwyr gofal iechyd sydd â diddordeb mewn presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd. Y nod yw treialu datblygiad adnoddau digidol newydd fel arf ar gyfer rhannu profiad a dysgu dros bellteroedd daearyddol ac ar adegau o unigedd neu gyfyngiadau ar symud/cyfnodau clo.

**Ymateb i bandemig COVID-19**

5.17 Roedd nifer o GGLlau wedi cyflwyno prosiectau newydd ac wedi gweithredu i ymateb i bandemig COVID-19 yn 2020–2021. Roedd hyn yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i ystyried sut y gallent gefnogi cymunedau yn sgil argyfwng COVID-19. Amrywio yr oedd y graddau y cyflwynodd GGLlau weithgareddau i fynd i'r afael yn uniongyrchol ag effaith y pandemig ledled Cymru, gyda GGLlau wedi gweithio ar y cyd â'u partneriaid lleol ac wedi mynd i'r afael â bylchau yn y gefnogaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, cyflwynwyd nifer fawr o gamau gweithredu.

5.18 Er enghraifft, datblygwyd **Cysylltu i Lesiant** ym Merthyr Tudful fel ymateb uniongyrchol i argyfwng COVID-19. Mae'r prosiect yn cynorthwyo pobl sydd yn agored i niwed ac sy'n teimlo'n ynysig ac/neu'n wael eu hiechyd neu'n dioddef caledi. Mae Cydlynydd Gwirfoddol yn recriwtio gwirfoddolwyr cymunedol er mwyn

cynorthwyo â chludo pobl i'r Ganolfan ac yn cynnig gwasanaethau llesiant yn rhithiol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- Yng Nghastell-nedd, cefnogwyd tîm pêl-droed lleol sy'n chwarae rhan bwysig yn y gymuned trwy gynnig lleoliad i oedolion a phlant fwynhau amgylchedd hwyliog a diogel i wneud ymarfer corff ynddo i sicrhau y gallent ailagor yn ôl gofynion COVID-19.
- Yn Sir y Fflint, rhoddwyd cyllid ar gyfer Cydlynydd Datblygu i gynnig cyngor a chymorth ac ysgogi arloesedd mewn busnesau bwyd a diod lleol er mwyn dod at eu hunain ar ôl y pandemig.
- Mae **COVID-19: Prosiect Cymorth Sefydliadau Gweithredu Cymunedol** yn brosiect ar y cyd yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam sy'n chwilio am ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau sylfaenol anstatudol i bobl agored i niwed, pobl mewn tlodi a phobl sy'n sâl ac yn ynysig yn ystod pandemig Covid-19 a'r cyfnodau o orfod aros gartref.

5.19 Mae'r gwerthusiad ar weithredu LEADER yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi ystyried effaith ymateb Menter Môn, arweinydd gweinyddol yr ardaloedd hynny, i'r pandemig. Canfu fod Menter Môn wedi gallu ymateb yn gyflym ac wedi rhoi cefnogaeth i'r gymuned leol i liniaru effaith y pandemig (yn benodol effaith camau gweithredu a roddwyd ar waith i reoli lledaeniad y feirws) yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Un o'r rhesymau pam y llwyddodd i wneud hyn oedd y rhwydweithiau helaeth oedd ganddo ar waith drwy'r GGLlau a'r prosiectau yr oedd yn eu cynnal, llawer ohonynt yn cael eu cefnogi gan LEADER. Ymhellach, llwyddodd y sefydliad i ddatblygu a gweithredu syniadau ar gyfer cefnogi'r gymuned leol yn effeithiol a chyflym oherwydd 'meddylfryd LEADER' o fewn y sefydliad (a oedd yn annog arloesedd a dulliau creadigol o ddatrys problemau) yn ogystal â'r hyn a ddisgrifiwyd fel agwedd 'gallu gwneud' yn y sefydliad.

**Cyfleoedd a gollwyd ar gyfer cydweithredu**

5.20 Mae ein hadolygiad o brosiectau LEADER wedi canfod bod cyfleoedd pellach i gydweithio ymhlith y Grwpiau Gweithredu Lleol, gyda phrosiectau tebyg iawn yn cael eu cynnal gan GGLlau mewn gwahanol ardaloedd. Er enghraifft, mae GGLlau Ynys Môn a Sir Fynwy a Chasnewydd wedi cefnogi prosiectau o dan Thema 5 sy'n ystyried dichonoldeb defnyddio technoleg o'r enw 'man gwyn teledu' fel modd o

wella cysylltedd band eang mewn cymunedau gwledig. Mae nifer o GGLlau hefyd wedi archwilio buddion cael Wi-Fi mewn trefi a phentrefi.

5.21 Dyma'r mathau o brosiectau y mae elfen 'cydweithredu' LEADER wedi'u cynllunio i'w dwyn ynghyd. Mae yna nifer o enghreifftiau o brosiectau cydweithredol. Fodd bynnag, mae potensial ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng GGLlau yng Nghymru. Dylid nodi yma hefyd y cyfle a gollwyd i gydweithio â GGLlau ledled yr UE, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, gyda dim ond pedwar prosiect trawswladol yn cael eu hariannu fel rhan o'r cynllun LEADER presennol.

# 6. Canlyniadau, gwerth ychwanegol ac effaith LEADER

### Cyflwyniad

6.1 Mae'r bennod hon yn trafod canlyniadau a gwerth ychwanegol LEADER yng Nghymru. Mae'n dechrau drwy adolygu'r canllawiau ar sut y dylid asesu 'gwerth ychwanegol' LEADER, cyn symud ymlaen at y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â'r canlyniadau hynny fel rhan o'r gwerthusiad.

Prif bwyntiau

- Mae canllawiau ar werth ychwanegol LEADER yn disgrifio 'elfennau' y dull gweithredu i fod yn rhai sydd 'wedi'u cydblethu'n agos' i ffurfio 'cyfanwaith anwahanadwy'.
- Dywedir bod y gwerth ychwanegol yn amlygu ei hun drwy (a) gwell cyfalaf cymdeithasol, (b) gwell llywodraethu, a (c) gwell canlyniadau (prosiectau gwell). Mae'r gwerthusiad wedi canfod tystiolaeth o'r cynllun yng Nghymru yn esgor ar bob un o'r canlyniadau hyn.
- Mae tystiolaeth astudiaethau achos ar gyfer prosiectau a gefnogwyd gan gynlluniau LEADER blaenorol yng Nghymru yn dangos y canlyniadau tymor hwy y gall y mathau o brosiectau a gweithgareddau a gynhelir fel rhan o gynllun LEADER presennol esgor arnynt. Yn bwysig ddigon, maent hefyd yn dangos sut y gall gweithgareddau a gaiff eu treialu gan LEADER arwain at ddatblygiadau a chanlyniadau pellach.
- Mae angen ystyried canlyniadau LEADER drwy ddeall y rôl y bwriadwyd i'r cynllun ei chael yn Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) Cymru 2014-2020 (lle y'i disgrifir fel un sydd wrth wraidd 'taith' yr RDP).
- Ar y cyfan, barn rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, fodd bynnag, oedd nad oedd y cysylltiadau rhwng LEADER a chynlluniau eraill yr RDP wedi bod yn ddigon cryf.

### Asesu gwerth ychwanegol LEADER

6.2 Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar werthuso LEADER/CLLD[42] yn nodi tair prif 'elfen' wrth drafod gwerth ychwanegol LEADER. Mae'r rhain i bob pwrpas yn uno saith agwedd dull LEADER yn dri phrif allbwn/gweithgaredd:

[42] Canllawiau Gwerthuso LEADER/CLLD; Desg Gymorth Gwerthuso Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig, Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop (2017)

a) *Gweithredu'r cynllun/strategaeth*, h.y. y prosiectau a'r canlyniadau a'r effeithiau y maent yn eu cynhyrchu.

b) *Mecanwaith cyflawni'r cynllun/GGLl*, h.y. y set o reolau, gweithdrefnau, a threfniadau gweinyddol sy'n sicrhau bod amcanion strategol yn dod yn gamau gweithredu cadarn ar lawr gwlad.

c) *Cymorth i feithrin gallu/bywiocáu*: y cymorth y mae awdurdodau rheoli yn ei roi i annog a galluogi'r buddiolwyr, yn uniongyrchol neu drwy Rwydwaith Gwledig Cymru, yn ogystal â gallu'r GGLl i fywiocáu (h.y. ei holl weithrediadau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â phrosiectau, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth, parodrwydd, cydweithrediad, a gallu rhwydweithio pobl leol er mwyn cyfrannu at ddatblygu eu hardal).

6.3 Yn bwysig, disgrifir pob un o'r tair 'elfen' hyn fel rhai 'wedi'u cydblethu'n agos' ac yn ffurfio 'cyfanwaith anwahanadwy'. Yn y bôn, mae'r canllawiau'n nodi bod gwerth ychwanegol/canlyniadau LEADER yn deillio o weithredu'r dull cyfan, gan gynnwys ei reoli a'i gyflawni, ac felly nid yn unig yn deillio o'r prosiectau y mae'n eu hariannu, ac mae hwn yn bwynt hanfodol o ran deall LEADER a gwerth ychwanegol y dull gweithredu.

6.4 Pwysig hefyd yw bod canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn diffinio 'gwerth ychwanegol LEADER' yn ehangach na'r hyn y bydd y prosiectau'n ei gyflawni, gyda phwyslais ar ddull LEADER – "caiff y buddion eu sicrhau trwy gymhwyso dull LEADER yn gywir, o gymharu â'r buddion hynny a geid heb ddefnyddio'r dull hwn".

6.5 Dywedir bod y gwerth ychwanegol yn amlygu ei hun drwy'r canlyniadau canlynol:

- *Gwell cyfalaf cymdeithasol*: wedi'i ddisgrifio fel cysyniad aml-ddimensiwn sy'n cynnwys nodweddion sefydliadau cymdeithasol (fel rhwydweithiau, normau, ac ymddiriedaeth gymdeithasol) sy'n cynorthwyo â chydlynu a chydweithredu er budd pawb.
- *Gwell llywodraethu*: y sefydliadau, y prosesau a'r mecanweithiau y mae rhanddeiliaid cyhoeddus, economaidd a chymdeithas sifil yn eu defnyddio i fynegi eu buddiannau, arfer eu hawliau cyfreithiol, cyflawni eu rhwymedigaethau, a chyfryngu eu gwahaniaethau er mwyn rheoli materion cyhoeddus ar bob lefel mewn modd cydweithredol.
- *Gwell canlyniadau ac effaith gryfach* o weithredu'r cynllun/strategaeth, o'i gymharu â'r perfformiad heb ddefnyddio dull LEADER.

6.6 Mae'r gwerthusiad wedi ceisio archwilio'r dystiolaeth ar gyfer pob un o'r canlyniadau hyn (fel y trafodir isod).

**Gwell cyfalaf cymdeithasol**

6.7 Mae canllawiau'r CE yn rhagweld y bydd gwelliannau mewn cyfalaf cymdeithasol yn digwydd trwy sbarduno newid ymddygiad gweithredwyr allweddol ac/neu'r boblogaeth yn gyffredinol. Gallai'r newidiadau ymddygiadol hyn ymwneud â:

- Y modelau meddyliol a'r meddylfryd sydd eu hangen (cymhelliant, hunan-barch, ac ati) er mwyn gallu ymddwyn mewn ffordd benodol.
- Galluoedd unigolion a grwpiau (ymddiriedaeth, cydweithrediad a rhwydweithiau).
- Cyfleoedd newydd (h.y. mynediad at adnoddau a chymorth cymdeithasol, sgiliau, gwybodaeth a chyngor).

6.8 Mae ffyrdd o werthuso mathau a chyfeiriad newidiadau mewn ymddygiad. Gall ymddygiad gael (i) ei gynyddu, (ii) ei leihau, (iii) ei gryfhau, (iv) ei wella neu hyd yn oed (v) ei gynnal (er gwaethaf pwysau negyddol). Nid yw o reidrwydd yn glir pa fathau o ymddygiadau y byddem yn disgwyl eu gweld yn newid, fodd bynnag.

6.9 Gallai dangosyddion posibl ar gyfer gwelliannau i gyfalaf cymdeithasol gynnwys:

- Gwelliant mewn cyd-gefnogaeth ac ymddiriedaeth rhwng rhanddeiliaid allweddol (ar lefel genedlaethol a lleol), gan arwain at newidiadau mewn ymddygiad megis cynnydd yn nifer y prosiectau cydweithredol.
- Gwella cyfranogiad yr holl randdeiliaid wrth ddylunio a gweithredu LEADER/CLLD, fel y gellid gweld, er enghraifft, drwy bresenoldeb uchel yn rheolaidd mewn cyfarfodydd GGLl (gweler Pennod 4).
- Cynnydd yn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid (gan arwain at ragor o weithgareddau cydweithredol, er enghraifft).
- Gwella capasiti a gallu (sgiliau a gwybodaeth) rhanddeiliaid sy'n ymwneud â gweithredu LEADER/CLLD (e.e. cynllunio strategol, monitro a gwerthuso).

6.10 Nid yw'r pethau hyn, fodd bynnag, yn newidiadau eu hunain mewn ymddygiad; yn hytrach, maent yn bethau sy'n (gallu) dylanwadu ar ymddygiad. Y newid ymddygiad gwirioneddol fyddai yn arferion gweithio'r unigolion perthnasol, e.e. datblygu prosiectau mwy cydweithredol neu wahanol fathau o brosiectau. Mewn geiriau eraill, mae newid ymddygiad yn arwain at newidiadau diriaethol yn strwythur ac amrywiaeth y gweithgareddau yn yr ardal dan sylw.

6.11 Roedd y mwyafrif o aelodau GGLl a ymatebodd i'r cwestiynau perthnasol yn yr arolwg ar-lein (n=64) wedi nodi bod rhywfaint o effaith o ran gwella perthynas waith â sefydliadau eraill yn yr ardal leol, gyda 45 y cant yn nodi 'do, yn bendant' a 30 y cant yn nodi 'do, mae'n debyg' (cyfanswm o 75 y cant).

6.12 Mae'r canlynol yn sylwadau nodweddiadol a wnaed i egluro'r effaith gadarnhaol hon, gyda sylw amlwg yn cael ei roi ar y cyfle i gwrdd â phobl a sefydliadau na fyddent efallai wedi ymgysylltu â nhw fel arall:

> "Mae wedi rhoi cyfle i rwydweithio ar draws y sectorau a gynrychiolir ar y GGLl ac mae wedi cael ei ddefnyddio yn bont neu gyfrwng gwybodaeth na fyddai o bosibl wedi'i ddosbarthu fel arall ar draws pob sector."

> "Mae wedi cryfhau cysylltiadau â rhai sefydliadau nad oedd gennyf lawer i'w wneud â nhw o'r blaen."

> "Mae wedi effeithio ar y gallu i gael mynediad at wybodaeth a chyngor gan lywodraeth leol."

> "Mae bod ar y GGLl yn fy helpu i gadw mewn cysylltiad ag asiantaethau ar draws y sir a gyda syniadau a mentrau newydd."

> "Rwy'n Swyddog Partneriaeth ac mae bod yn aelod o'r GGLl wedi golygu fy mod wedi ymwneud ag aelodau eraill o'r GGLl, gan ddod i'w hadnabod fel cydweithwyr ac ymgyfarwyddo â'u meysydd gwaith. Mae hyn wedi arwain at gydweithio pellach ar draws prosiectau eraill a gwaith arall, yn ogystal â chydweithio ar gynigion prosiect GGLl. Rwyf wedi canfod bod y GGLl yn ddefnyddiol iawn fel rhwydwaith ac o ran hysbysu prosiectau eraill a allai fod yn debyg i'r rhai a dreialwyd drwy'r GGLl, ac mae hyn wedi arwain at ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid ar draws pob maes gwaith."

6.13 Gofynnwyd i holl ymatebwyr yr arolwg, ni waeth sut yr oeddent wedi bod yn rhan, a oeddent hwy neu eu sefydliadau wedi datblygu sgiliau neu alluoedd newydd o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun LEADER. Dywedodd 37 y cant (n=174) o ymatebwyr yr arolwg fod eu sefydliad wedi datblygu sgiliau newydd o ganlyniad i'w hymwneud â LEADER. Ymhellach, dywedodd 52 y cant eu bod yn bersonol wedi datblygu sgiliau newydd o ganlyniad i'w cyfranogiad. Roedd cyfran gymharol fawr, h.y., 33 y cant, wedi dweud 'naddo' i'r ddau opsiwn, sy'n cefnogi'r canfyddiad blaenorol bod grŵp o'r rhai sy'n ymwneud â LEADER yng Nghymru yn brofiadol

iawn fel sefydliadau ac unigolion. Mae eu cyfranogiad, fodd bynnag, yn bwysig i gyflawni'r cynllun a darparu enghreifftiau y gall eraill ddysgu oddi wrthynt.

6.14 Roedd y mathau o sgiliau a galluoedd y dywedwyd eu bod wedi'u datblygu yn ymwneud gan amlaf â rheoli prosiectau, gan gynnwys datblygu partneriaethau, cydweithredu a rhwydweithio. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r sylwadau a wnaed:

> "Deall gwaith partneriaeth a'r gallu i ddatblygu rhaglenni integredig. Galluoedd mewn perthynas ag ymgysylltu â chymunedau a chefnogi datblygu lleol dan arweiniad y gymuned."

> "Rwyf wedi dysgu am faterion ehangach o ran cymunedau gwledig, ac mae fy ngwybodaeth wedi cynyddu o ganlyniad i ddysgu a gwrando ar arbenigedd pobl eraill yn y GGLl."

> "Rwyf wedi darganfod gwerth ymgysylltu â grwpiau lleol a'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sydd gan y grwpiau gyda'i gilydd. Hefyd yr egni cadarnhaol a gafwyd wrth rymuso pobl gyda'r gallu i wneud newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau."

> "Mae fy sefydliad wedi datblygu proses y gellir ei defnyddio i ennyn diddordeb pobl ifanc, ac wedi creu ymwybyddiaeth o brosiect a dull gweithredu y gellid eu defnyddio ymhellach, yn ogystal ag ehangu rhwydwaith lleol. Ar nodyn personol, mae wedi rhoi'r wybodaeth i mi am y ffordd orau o ddatblygu'r prosiect ymhellach a'r ffordd orau o fod yn hyblyg mewn maes galwedigaethol a chefnogi pobl ifanc i wneud dewisiadau pellach."

> "Mae'r hyn rwy'n ei ddeall ac yn ei wybod am faterion yn ymwneud â bwyd ac amaethyddiaeth yn yr ardal wedi cynyddu'n sylweddol."

6.15 Yn aml, yn ystod trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynghylch effaith LEADER, soniwyd am allu dull LEADER i gynnwys unigolion a sefydliadau mewn datblygu gwledig am y tro cyntaf. Dyma hefyd un o amcanion allweddol y gweithgareddau bywiocáu a gynhaliwyd ac, felly, edrychwyd ar hyn fel rhan o'r arolwg ar-lein i'r rheiny a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen.

6.16 Canfuwyd bod 11 y cant o ymatebwyr y prosiect wedi nodi nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o weithgareddau neu brosiectau datblygu gwledig cyn iddynt ymgysylltu â LEADER, gan ddangos bod y cynllun yn wir yn ymgysylltu â grŵp newydd o 'weithredwyr' (n=57). Gellid dadlau y dylai'r ffigur hwn fod yn uwch

efallai, er i 51 y cant arall nodi eu bod wedi cael ‘ychydig’ o brofiad. Fodd bynnag, dywedodd 39 y cant fod ganddynt ‘lawer’ o brofiad blaenorol.

6.17 Un myfyrdod ar y canfyddiad hwn yw bod Grwpiau Gweithredu Lleol (a chynllun LEADER yn gyffredinol), i ryw raddau o leiaf, wedi’u dal rhwng yr angen i gefnogi prosiectau ‘da’ a’r angen i ymgysylltu â phrosiectau/sefydliadau newydd drwy fywiocáu. Er enghraifft, mae grwpiau profiadol yn fwy tebygol o gyflwyno ceisiadau datblygedig i gael cymorth. Efallai y byddant hefyd yn gallu defnyddio eu profiad i ddatblygu syniadau mwy arloesol na’u cymheiriaid llai profiadol. Mae’r mathau hynny o ymgeiswyr felly yn rhan bwysig o unrhyw gynllun LEADER, ochr yn ochr â grŵp newydd o gyfranogwyr.

6.18 Canfyddiad pwysig, fodd bynnag, yw’r ffaith fod 85 y cant o’r rheiny heb fawr ddim profiad blaenorol wedi datgan bod ymwneud â LEADER wedi eu hannog i ymwneud mwy â datblygu gwledig yn eu hardal yn y dyfodol (n=34), er bod angen ystyried y nifer cymharol fach o ymatebwyr.

6.19 Yn fwy cyffredinol, dywedodd 61 y cant o’r ymatebwyr y byddent yn ‘bendant’ yn argymell i ffrind neu gydweithiwr gymryd rhan mewn gweithgaredd datblygu gwledig mewn rhyw ffordd neu’i gilydd, gyda 29 y cant arall yn nodi y byddent fwy na thebyg yn argymell hynny (n=150)[43]. Ymhellach, dywedodd 75 y cant eu bod yn fwy tebygol o argymell ffrind neu gydweithiwr i ymwneud â datblygu gwledig mewn rhyw ffordd o ganlyniad i’w hymwneud eu hunain â chynllun LEADER (n=150). Mae’r rhain yn ganfyddiadau cadarnhaol sy’n awgrymu bod cynllun LEADER wedi/yn meithrin ymwneud â datblygu gwledig yng Nghymru ac, felly, yn cyflawni amcanion Blaenoriaeth 6 Amcanion Strategol a Thematig RDP 2014–2020[44].

**Gwell llywodraethu’n lleol**

6.20 Gellir mynegi gwell llywodraethu lleol drwy’r canlynol:

- parodrwydd i ehangu’r prosesau gwneud penderfyniadau drwy gynnwys rhannau ehangach o’r cymunedau a rhagor o randdeiliaid, gan barchu cydbwysedd cymdeithasol, daearyddol, sefydliadol a rhywedd
- y gallu a’r capasiti i dderbyn cyd-arweinyddiaeth yn yr ardal
- y gallu i reoli arian o ffynonellau cyhoeddus a phreifat amrywiol

[43] Mae ein diffiniad o ‘ddatblygiad gwledig’ yn cynnwys ‘unrhyw weithgareddau (prosiectau, ac ati) a gynlluniwyd i wella ansawdd bywyd a llesiant economaidd pobl sy’n byw mewn ardal wledig’.
[44] Gweler yr Adroddiad Technegol.

- cryfhau'r gallu i feithrin partneriaethau a rheolaeth gydweithredol, rôl weithredol wrth lunio llywodraethu aml-lefel, ac ati.

6.21 Mae dangosyddion posibl yn cynnwys:

- Datblygu arferion llywodraethu arloesol
- Gwell cydgysylltu rhwng gwahanol lefelau o lywodraethu
- Gwell ansawdd yn y rhyngweithio rhwng sefydliadau perthnasol
- Gwell ansawdd yn y rhyngweithio rhwng rhanddeiliaid cyhoeddus a rhanddeiliaid nad ydynt yn gyhoeddus.

6.22 Yn yr arolwg ar-lein gofynnwyd i'r rheiny a oedd yn ymwneud â LEADER yng Nghymru a oedd bodolaeth LEADER wedi cael effaith gadarnhaol ar lywodraethu lleol yn eu hardal. Dywedodd 48 y cant 'do, yn bendant', gyda 35 y cant arall yn nodi 'do, fwy na thebyg' (n=92). Dim ond 11 y cant a ddywedodd 'naddo, fwy na thebyg', er na ddywedodd yr un ymatebydd 'naddo, yn bendant'. Archwiliodd cyfweliadau manwl ymhellach y farn am yr effaith ar lywodraethu lleol. Y gwelliannau mwyaf cyffredin y soniwyd amdanynt oedd:

- Galluogi gwneud penderfyniadau lleol a chonsensws
- Rhwydweithio/rhannu gwybodaeth a, thrwy hynny, annog y rhai perthnasol i ystyried materion o wahanol safbwyntiau, y tu allan i'w gwaith o ddydd i ddydd/chwalu rhwystrau, meddwl dros ffiniau, ac ati.

6.23 Rydym wedi trafod uchod yr effeithiau cadarnhaol a nodwyd o ran gwell rhwydweithio a gweithio gwell mewn partneriaeth, ac fe'u nodwyd eto mewn trafodaethau ar welliannau mewn llywodraethu lleol. Mae gwelliannau eraill a nodwyd yn cynnwys:

- Dysgu o lwyddiannau LEADER ac integreiddio'r gwersi hynny i strwythurau lleol eraill megis y cyngor cymuned
- Cael arian i'r mannau iawn
- Annog pobl i ddod yn rhan o wneud penderfyniadau
- Cynyddu dealltwriaeth o werth/effaith gwahanol sectorau o fewn yr economi leol (ac felly gwella'r broses o wneud penderfyniadau).

**Canlyniadau cryfach – gwell prosiectau**

6.24 Mae'r drafodaeth uchod yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau a gynhyrchir drwy weithredu proses LEADER. Fodd bynnag, mae'r prosiectau eu hunain a ariennir

gan LEADER yn bwysig ac fe'u nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg fel y prif reswm pam eu bod yn meddwl bod LEADER yn bwysig. Y canlyniad hollbwysig a nodir ar gyfer prosiectau yw canlyniadau gwell, ond beth mae hyn yn ei olygu?


6.25 Un elfen yn hyn o beth yw bod/dylai prosiectau fod yn well (mwy effeithiol) oherwydd eu bod wedi cael eu datblygu/ariannu drwy ddull LEADER. Byddai hyn yn cynnwys gwelliannau i'r prosiect o ganlyniad i'r cyngor/cefnogaeth a gawsant yn ystod y cyfnod datblygu trwy gefnogaeth swyddog prosiect (bywiocáu) a chan y GGLI fel rhan o'r broses arfarnu. Os ydynt yn brosiectau gwell oherwydd yr ymgysylltiad hwn â dull LEADER, dylai'r canlyniadau y maent yn esgor arnynt (e.e. y budd i'r busnes neu'r unigolyn a gefnogir) fod yn well nag y byddent wedi bod fel arall.

6.26 Ail elfen yw y byddem yn disgwyl i LEADER fod yn cefnogi prosiectau na allai ddigwydd pe na bai'r cynllun yn bodoli. Er enghraifft, gallai gweithgareddau bywiocáu fod wedi ymgysylltu ag unigolion neu grwpiau am y tro cyntaf, sy'n golygu na fyddent wedi ymrwymo, datblygu syniadau na gweithredu prosiectau pe na bai LEADER yn bodoli.

6.27 Mae'r ffocws ar arloesi hefyd yn berthnasol yma. Mae LEADER wedi'i gynllunio i gefnogi prosiectau arloesol a chynlluniau peilot na fyddent yn cael eu hariannu gan gynlluniau eraill – i roi cynnig ar bethau newydd a dysgu o'r broses. Hyd yn oed os nad yw prosiectau arloesol yn llwyddiant, dylent arwain at ddysgu a gwella canlyniadau prosiectau.

6.28 Fodd bynnag, dim ond os gwneir rhagor o weithgarwch y caiff canlyniadau dysgu eu cynhyrchu – i rannu'r dysgu hwnnw drwy, er enghraifft, rwydweithio. Ar gyfer LEADER, felly, mae dolen barhaus rhwng allbynnau/gweithgareddau a chanlyniadau, gyda chanlyniadau'n bwydo'n ôl yn barhaus i weithgareddau, fel y dangosir isod.

**Ffigur 6.1: Darlun o ddolen canlyniad-allbwn mewn model Theori Newid Y farn am yr effaith gyffredinol mewn ardal**






6.29 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg roi sgôr i effaith LEADER yn eu hardal yn erbyn nifer o effeithiau posibl, gan ddefnyddio graddfa o 1 (dim effaith o gwbl) i 5 (i raddau helaeth). Fel y dangosir yn Ffigur 6.2, credai ymatebwyr mai'r ddwy effaith fwyaf oedd:

- 'Cael pobl/sefydliadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu gwledig am y tro cyntaf' – rhoddwyd sgôr o 5 (i raddau helaeth) gan 28 y cant o'r ymatebwyr; a
- 'Cynyddu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd sefydliadau' (h.y. meithrin gallu) – rhoddwyd sgôr o 5 (i raddau helaeth) gan 26 y cant o'r ymatebwyr.

6.30 Effeithiau economaidd, yn benodol o ran swyddi a sefydlu busnesau newydd, sy'n cael y sgôr isaf o ran eu heffaith ganfyddedig, gyda materion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol wedi'u nodi i fod yn cyfyngu'n allweddol ar weithgarwch, fel y trafodwyd ym Mhennod 3.

**Ffigur 6.2: Barn ymatebwyr yr arolwg am effaith gweithgareddau LEADER o ran effeithiau allweddol posibl ar raddfa o 1 (ddim o gwbl) i 5 (i raddau helaeth)**




n = nifer yr ymatebion i bob datganiad

*Yr effaith ar brosiectau a gefnogwyd*

6.31 Derbyniodd yr arolwg ar-lein 77 o ymatebion gan brosiectau/sefydliadau a oedd wedi cael cymorth (ariannol ac/neu ddim yn ariannol) gan gynllun LEADER (gyda rhai wedi cynnal prosiectau mewn sawl ardal). Roedd yr ymateb yn cynrychioli ystod eang o fathau o brosiectau a gefnogwyd, ond y mathau mwyaf cyffredin oedd prosiectau amgylcheddol/natur (n=15) a phrosiectau dysgu/hyfforddiant (n=8).

6.32 Roedd yr adborth ar effaith y cymorth a roddwyd yn gadarnhaol, er nad atebodd pob un o’r ymatebwyr gwestiynau ynghylch y cymorth a dderbyniwyd, gan nad oeddent wedi cymryd rhan yn uniongyrchol:

- dywedodd 75 y cant fod y prosiect neu'r gweithgaredd wedi newid o ganlyniad i'r cymorth a gawsant (cyfanswm nifer yr ymatebwyr: 52).
- dywedodd 36 y cant fod y prosiect neu weithgaredd 'llawer gwell', gyda 46 y cant 'ychydig yn well', o ganlyniad i'r cyngor (cyfanswm nifer yr ymatebwyr: 50).
- roedd 56 o ymatebwyr wedi cael cymorth ariannol, a 43 y cant o'r rhain wedi dweud na fyddai'r prosiect wedi digwydd mewn unrhyw ffordd heb y cymorth hwnnw. Dywedodd 45 y cant arall y byddai wedi symud ymlaen ond ar raddfa lai neu dim ond rhai elfennau ohono.
- dywedodd 26 y cant eu bod wedi cael eu hatgyfeirio neu eu cyfeirio at ffynonellau cyllid posibl eraill (cyfanswm nifer yr ymatebwyr: 57), gydag ychydig yn llai na hanner y rheini yn nodi bod yr atgyfeiriad/cyfeirio wedi arwain at rywbeth.

6.33 Mae angen cadw mewn cof y nifer cymharol isel o ymatebwyr i'r cwestiynau hyn. Wedi dweud hynny, mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â rhai'r adroddiadau gwerthuso canol tymor a gomisiynwyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol unigol a adolygwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn.

**Canlyniadau tymor hwy**

6.34 Bydd y canlyniadau a drafodir uchod yn datblygu 'capasiti' yn yr ardaloedd gwledig a bydd hyn yn cael effaith hirdymor os ydynt yn arwain at newid ymddygiad. Er enghraifft, gallai datblygiad cadarnhaol mewn llywodraethu lleol o ganlyniad i LEADER arwain at newidiadau hirdymor/parhaol. Enghraifft arall fyddai unigolion sy'n ymwneud â 'datblygiad gwledig' am y tro cyntaf drwy LEADER yn cymryd rhan yn hirdymor. Gall hyn fod trwy ddatblygu prosiectau pellach neu hyd yn oed trwy ymgysylltu mewn gwahanol ffyrdd, megis trwy ddod yn aelod o'r cyngor cymuned. Gall y rhain fod yn effeithiau pwysig. Ymhellach, rhaid cofio'r ffaith bod yr arolwg wedi canfod bod cyfran o'r rhai sy'n ymwneud â LEADER heddiw wedi bod yn gysylltiedig ers hyd at 10 mlynedd neu'n hirach[45].

6.35 Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod ansicrwydd ynghylch effaith hirdymor gweithgarwch LEADER yn ogystal â chynaliadwyedd yr effaith, wrth i nifer o ffactorau megis argaeledd cyllid parhaus/cyson yn anochel ddylanwadu ar hyn. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sefyllfa bresennol, gan na fydd cyllid LEADER yng

[45] Roedd 47 y cant o staff ac 19 y cant o aelodau presennol GGLl a ymatebodd i'r arolwg wedi bod yn ymwneud â LEADER ers 10 mlynedd neu fwy (n=34 o staff a 53 o aelodau presennol GGLl).

Nghymru, am y tro cyntaf ers y 1990au, yn parhau y tu hwnt i gyfnod y rhaglen bresennol.

6.36 Bydd prosiectau hefyd yn arwain at effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd prosiectau sy'n ymgysylltu â busnesau yn arwain at effaith economaidd gadarnhaol yn yr ardal. Fodd bynnag, mae maint yr ymyraethau y mae LEADER yn eu hariannu fel rheol yn golygu bod effeithiau o'r fath yn annhebygol o fod yn sylweddol. Wedi dweud hynny, nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw effaith. Er enghraifft, efallai y bydd effaith o bwys ar fusnes unigol neu ar gymunedau lle mae prosiectau wedi digwydd. Er hynny, mae'r effaith honno'n annhebygol o fod yn ddigon sylweddol i weld newid parhaus yn yr ardal. Nid cyflawni effaith o'r fath, fodd bynnag, yw prif ddiben LEADER.

6.37 Yn bwysig, mae LEADER hefyd yn cael effaith trwy'r prosiectau a'r gweithgareddau y mae dull LEADER wedi'u treialu ac/neu eu cychwyn sydd wedyn maes o law yn cael eu hariannu gan ffynonellau eraill (y cyfeirir ato'n aml fel rhai 'prif ffrydio'). Mae'n bosibl na fydd y prosiectau/gweithgareddau hynny'n bodoli (neu y byddent wedi cymryd mwy o amser i'w datblygu, neu ni fyddent mor effeithiol, ac ati) heb y cymorth a roddwyd iddynt gan LEADER yn ystod y cyfnod peilot/prototeip. Felly gellir cysylltu eu heffaith yn y pen draw yn uniongyrchol â chymorth LEADER hyd yn oed os yw fersiwn 'prif ffrwd' y prosiect yn cael ei hariannu gan ffynhonnell arall.

6.38 Gwendid yn y dadansoddiad o brosiectau a gefnogir gan y cynllun LEADER presennol yn yr adroddiad hwn yw na fu'n bosibl asesu eu canlyniadau mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, mae'r nifer cyfyngedig o ddangosyddion perfformiad sy'n cael eu defnyddio ar gyfer LEADER ar lefel cynllun yn golygu nad ydynt yn rhoi llawer o fewnwelediad i'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Nid yw ymchwil sylfaenol ar y lefel hwn ychwaith yn ymarferol ar gyfer gwerthusiad ar lefel cynllun. Ymhellach, mae prosiectau hefyd, mewn nifer o achosion, yn dal yn weithredol.

6.39 Bydd y 'bwlch' hwn yn cael sylw drwy werthusiadau a gomisiynir gan GGLlau unigol i'w cynnal dros y misoedd nesaf, a'r gwerthusiadau hynny yn edrych ar ganlyniadau LEADER yn eu hardal. Fodd bynnag, hyd yn oed ar gyfer yr adroddiadau hynny, mae natur llawer o brosiectau LEADER fel cynlluniau peilot ar gyfer dulliau newydd ac arloesol o ymdrin â datblygu gwledig yn golygu efallai na ddaw canlyniadau i'r amlwg am beth amser ar ôl i'r cynllun ddod i ben.

6.40 Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwnnw, mae astudiaethau achos hefyd wedi'u llunio sy'n adolygu canlyniadau ac etifeddiaeth prosiectau a ddatblygwyd ac a gefnogwyd fel rhan o gynlluniau LEADER blaenorol yng Nghymru. Mae'r astudiaethau achos hynny i'w gweld yn yr Adroddiad Technegol, ond dyma ambell brif bwynt isod.

6.41 Mae **Morlais** yn brosiect mawr gan Menter Môn er budd cymunedau lleol a'r economi gan helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan carbon isel glân. Nid yw Morlais yn brosiect LEADER. Fodd bynnag, gellir olrhain gwreiddiau prosiect Morlais yn ôl i astudiaeth o'r potensial ar gyfer tyrbinau yn Afon Menai a gefnogwyd gan gynlluniau LEADER blaenorol. Mae'n enghraifft felly o sut y gall prosiect mawr, sydd â'r potensial yn yr achos hwn i greu tua 100 o swyddi, esblygu o weithgareddau arloesol a pheilot ar raddfa fach gan grŵp LEADER.

6.42 Mae'r ffaith bod Morlais yn cael ei gynnal gan Menter Môn hefyd yn bwysig o ran cynyddu effaith leol y datblygiad. Ymhellach, mae bodolaeth Menter Môn fel sefydliad hefyd yn ganlyniad i gynllun LEADER yng Nghymru – fe'i sefydlwyd yn wreiddiol fel prosiect yn yr awdurdod lleol i gynnal cynllun LEADER yn 1995. Ar hyn o bryd, mae'n cyflogi 70+ o bobl mewn swyddfeydd yn Llangefni a Phorthmadog, gan ei wneud yn gyflogwr pwysig yn yr ardal leol yn ei rinwedd ei hun. Mae hefyd yn werth nodi bod Menter Môn, ers ei sefydlu, wedi denu tua £100m o gyllid i'r ardal. Mae gan PLANED a Chadwyn Clwyd hanes hir tebyg gyda LEADER yng Nghymru ac maent wedi esblygu fel sefydliadau i ddatblygu ystod o brosiectau a chynlluniau yn eu hardal leol.

6.43 Mae **Halen Môn** yn enghraifft o fusnes llwyddiannus a gefnogwyd gan LEADER yn ystod ei ddatblygiad cychwynnol. Ar hyn o bryd, mae'r busnes yn cyflogi dros 20 o bobl o'r ardal leol, a'r cynnyrch i'w gael mewn mwy na 22 o wledydd ar draws y byd, yn ogystal ag ar fyrddau rhai o fwytai gorau'r byd (fel The Fat Duck), ac mae'n gynhwysyn hanfodol yn siocled Green & Blacks[46] a Piper's Crisps[47]. Ynghyd â mwy na 100 o siopau delicatessen gorau'r wlad yn y DU, mae Halen Môn yn cyflenwi Marks and Spencer, Waitrose, a Harvey Nichols. Cafwyd cefnogaeth gan Menter Môn a chynllun LEADER yn nyddiau cynnar iawn y busnes ar ffurf dau grant bach

[46] Green and Blacks

[47] Pipers Crisps

— £3,000 i wneud gwaith datblygu cynnyrch a £3,000 i helpu i ddatblygu brand ar gyfer y cynnyrch. Disgrifir y gefnogaeth hon heddiw gan bartner a sylfaenydd y cwmni David Lea-Wilson fel cymorth oedd yn “hollol hanfodol” i sefydlu’r busnes. Gellid darparu cymorth o’r fath i fusnes bwyd heddiw drwy ffynonellau heblaw LEADER ac o rannau eraill o’r RDP. Ar y pryd, fodd bynnag, nid oedd cymorth o’r fath ar gael yn gyffredinol, gyda LEADER yn torri tir newydd drwy gefnogi busnesau bwyd yn y modd hwn.

6.44 Dyma enghraifft o sut mae gweithgareddau a wnaed gan gynlluniau blaenorol LEADER yng Nghymru wedi dod yn ‘brif ffrwd’ erbyn heddiw. Yn wir, dadleua rhai rhanddeiliaid fod gwreiddiau llawer o’r cymorth a roddir i’r sector bwyd a diod yng Nghymru yn deillio o LEADER, gyda’r potensial i gael canolfan fwyd yng Ngheredigion wedi’i ystyried i ddechrau arni fel rhan o ymweliad astudio ag Iwerddon a ariannwyd gan LEADER[48].

6.45 Mae hyn hefyd yn cynnwys datblygu sawl gŵyl fwyd ledled y wlad. Cadwyn Clwyd, mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid lleol eraill, a ddatblygodd **Ŵyl Fwyd gyntaf Llangollen** yn 1997. Y nod oedd rhoi llwyfan i gynhyrchwyr bwyd a diod lleol i ddadansoddi’r farchnad, arddangos eu cynnyrch yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, a byrhau eu cadwyni cyflenwi. Daeth y syniad o drafodaethau gyda fforwm bwyd lleol yr oedd Cadwyn Clwyd yn ei hyrwyddo ar y pryd, ac ar hyn o bryd Gŵyl Fwyd Llangollen yw un o’r gwyliau bwyd sydd wedi rhedeg hiraf yng Nghymru. Mae Cadwyn Clwyd hefyd wedi cefnogi datblygiad **Cittaslow yr Wyddgrug**[49], sy’n cefnogi mentrau lleol megis Gŵyl Bwyd a Diod yr Wyddgrug a Gŵyl Daniel Owen.

6.46 Wrth symud ein golygon i heddiw, er bod ffocws yn parhau ar y sector bwyd a diod yn LEADER, mae ffocws newydd hefyd ar dreialu dulliau arloesol mewn meysydd fel ynni adnewyddadwy cymunedol a defnyddio technoleg gwybodaeth a chymunedol mewn ardaloedd gwledig. Mae’r gwaith yn y meysydd hynny yn debyg i’r hyn a ddigwyddai yn y sector bwyd a diod yn y 1990au a’r 2000au.

6.47 Mae’r astudiaethau achos hefyd yn cynnwys enghreifftiau eraill o gymorth a roddwyd gan gynlluniau LEADER blaenorol i ficrofusnesau. Mae **Out to Learn**

[48] Sefydlwyd Canolfan Bwyd Cymru yng Ngheredigion yn 2006 ac mae’n dal i fod yn elfen allweddol o’r cymorth a ddarperir i fusnesau bwyd a diod yn yr ardal.

[49] Gair Eidaleg yw Cittaslow sy’n golygu ‘tref araf’. Dechreuodd y mudiad yn 1999 pan arloesodd pedair tref yn yr Eidal y syniad o ddatblygu’r cysyniad Bwyd Araf i gynnwys pob agwedd ar fywyd mewn trefi â llai na 50,000 o bobl. Roeddent am wella ansawdd bywyd lleol trwy fabwysiadu amcanion amgylcheddol, diwylliannol a chymunedol.

**Willow** yn fusnes wedi'i leoli yn Aberogwr. Mae'n un o'r prosiectau cynnar a gefnogwyd yn ariannol gan Gymunedau Gwledig Creadigol (CGC) o dan LEADER (2007–2013) ym Mro Morgannwg. Mae'n astudiaeth achos sy'n dangos sut mae cymorth ar raddfa fach gan LEADER i fusnes newydd wedi cael effaith economaidd gadarnhaol dros amser. Mae hyn yn cynnwys cymorth i fusnesau newydd, cyflogaeth leol, a gweithgarwch cydweithredol gyda chynhyrchwyr crefft eraill. Mae'r berthynas barhaus rhwng y busnes a thîm CGC wedi bod yn ffactor pwysig yn y canlyniadau cadarnhaol a sicrhawyd.

6.48 Mae **Perfect Pitch** yn astudiaeth achos arall o Fro Morgannwg. Roedd yn brosiect peilot a gynhaliwyd yn ystod haf 2012 ac a oedd yn canolbwyntio ar safleoedd ger Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Dim ond tri maes gwersylla a charafanio oedd yn gweithredu yn yr ardal ar y pryd, a rhagwelwyd y byddai'r galw yn uwch na'r arfer oherwydd bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn y Fro yn ystod yr haf hwnnw. Amcanion allweddol y prosiect oedd ateb y cynnydd a ragwelwyd yn y galw, codi proffil gwersylla ym Mro Morgannwg, hyrwyddo'r ardal ar gyfer twristiaeth, ac atal gwersylla anghyfreithlon trwy ddarparu safleoedd amgen. Cymerodd pum ffermwr/tirfeddiannwr a dau faes gwersylla presennol ran yn y peilot, gan gymryd cyfanswm o 246 o archebion yn ystod y peilot a rhoi lle i fwy na 700 o wersyllwyr, ac mae pedwar o'r pum safle peilot yn dal i weithredu (yn 2021). Arweiniodd y peilot hefyd at gynhyrchu pecyn cymorth wedi'i anelu at fusnesau sy'n archwilio mentrau newydd, gan fod yn enghraifft o sut y gellir rhannu canfyddiadau cynlluniau peilot LEADER yn ehangach.

6.49 Gan aros gyda'r economi ymwelwyr, mae **Llwybr Arfordir Ynys Môn** dros 200 km o hyd. Ers 2012 mae wedi bod yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n 1,400km, ond mae gwreiddiau Llwybr Arfordir Ynys Môn yn dyddio'n ôl flynyddoedd lawer ynghynt, yn sgil gwaith LEADER yn yr ardal. Rhwng 1998 a 2003, bu Menter Môn yn allweddol wrth ddatblygu prosiectau cymunedol lleol yn syniad ar gyfer 'Llwybr Arfordir Ynys Môn'. LEADER oedd y cyfrwng ar gyfer hau'r syniad, gan adeiladu ar y gwaith lleol a oedd eisoes wedi'i wneud. Yna defnyddiwyd tystiolaeth gan Menter Môn a gwaith y cyfnod peilot i gefnogi hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru ehangach[50].

6.50 Er eu bod bellach yn syniad adnabyddus, roedd **undebau credyd** yn dechrau ennill eu plwyf mewn rhannau trefol o Gymru yng nghanol y 1990au fel dewis moesegol

50 Cyfoeth Naturiol Cymru (2013). Gwerthuso manteision Llwybr Arfordir Cymru i fusnesau

amgen i fanciau'r stryd fawr, a dewis oedd yn fwy cydnaws ag anghenion y cymunedau y gwasanaethant. Er eu bod wedi sefydlu yn y Gymru drefol, nid oedd sôn am undebau credyd yn y Gymru wledig yng nghanol y 1990au. Daeth Menter Powys, grŵp LEADER ym Mhowys ar y pryd, i wybod am waith undebau credyd yng nghefn gwlad Iwerddon. Mae dimensiwn trawswladol LEADER wedi cynorthwyo i sefydlu cysylltiad ag undebau credyd ym Mitchelstown yn Swydd Corc ac yn Tallow yn Swydd Wexford. Cyflogodd Menter Powys swyddog datblygu i gynnal ymchwil a llunio astudiaeth dichonoldeb. Sefydlwyd Grŵp Llywio, yn cynnwys pobl leol â diddordeb mewn archwilio undebau credyd gwledig. Felly Undeb Credyd Robert Owen yn y Drenewydd oedd yr undeb credyd gwledig cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Maes o law ffurfiwyd undebau credyd yn Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, a Threfyclo.

6.51 Mae **Hermon** a chymunedau cyfagos y Glog a Llanfyrnach yn dri phentref cymharol fach (poblogaeth o tua 300) yng Ngogledd Sir Benfro. Yn 2006, caeodd Cyngor Sir Penfro ysgol y pentref ac roedd pobl leol yn ofni'r effaith y byddai'r cau hwn yn ei gael ar fywyd lleol, gyda'r ysgol wedi rhoi ffocws i deuluoedd a'r gymuned ehangach. Aethpwyd ar ofyn cynllun LEADER am gymorth, wedi'i roi drwy PLANED.

6.52 Cefnogodd PLANED gymuned Hermon, gan ddefnyddio LEADER i ddatblygu cynllun busnes cynhwysfawr i brynu'r ysgol yn sail ar gyfer 'Canolfan Hermon'. Gwerthwyd cyfanswm o 196 o gyfranddaliadau, gan godi £49,000, gyda chronfeydd ychwanegol yn dod o Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) Llywodraeth Cymru. Prynwyd safle'r hen ysgol gan y gymuned ac ym mis Medi 2013, agorwyd Canolfan Hermon yn swyddogol. Ar hyn o bryd, mae gan Ganolfan Hermon swyddfeydd bach i'w rhentu, ystafelloedd cyfarfod, a'r brif neuadd i'w llogi. Ar ben hynny, mae'n gartref i Gylch Meithrin Hermon. Mae'r astudiaeth achos hon yn enghraifft arall o sut mae cael cymorth 'ar lawr gwlad' mewn cymunedau lleol drwy LEADER wedi helpu i wneud i bethau ddigwydd. Ymhellach, mae'n enghraifft o ba mor hir y mae angen i gefnogaeth o'r fath fod, gyda'r ysgol yn cau yn 2006 ac yn ailagor fel Canolfan Hermon yn 2013.

6.53 Yn olaf, mae'r **Pecyn Cymorth Mapio Cymunedol** a ddatblygwyd gan dîm LEADER ym Mro Morgannwg yn enghraifft o beilot, ar ôl gweld ei fod yn effeithiol, a gafodd ei gyflwyno ledled awdurdod lleol. Mae'n becyn cymorth a ddatblygwyd i

helpu cymunedau lleol i ymgysylltu a chanfod beth sy'n digwydd yn eu cymuned fel rhan o gynllun LEADER, gan gyhoeddi'r fersiwn terfynol ym mis Mawrth 2017[51]. Ystyrir o fewn y cyngor bod treialu'r broses yn rhannau gwledig y Fro wedi bod yn hynod effeithiol a llwyddiannus, i'r fath raddau nes bod y pecyn cymorth a'r broses yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y cyngor ar draws y sir mewn lleoliadau trefol yn ogystal â gwledig. Mae felly'n enghraifft o sut y gellir 'prif ffrydio' proses a ddatblygwyd ac a dreialwyd gan LEADER ar draws awdurdod lleol a hefyd mewn lleoliadau trefol. Yn ogystal, mae'n enghraifft o sut y gall cysylltiadau agos rhwng awdurdod lleol a grŵp LEADER hwyluso'r gwaith o brif ffrydio proses sydd wedi'i threialu'n llwyddiannus.

6.54 Mae astudiaethau achos eraill i'w cael yn yr Adroddiad Technegol sy'n cynnwys:

- Uned symudol hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth, o'r enw TeleCabana, a ariannwyd gan nifer o ffynonellau ond wedi'i ddatblygu gydag adnoddau a ddarparwyd gan LEADER ar ddechrau'r 1990au.
- Cymorth a roddwyd gan LEADER yn Sir Ddinbych i sefydlu siop gymunedol, h.y. Siop Gymunedol Pwll-glas.
- Cymorth a roddwyd gan LEADER ym Mhowys ar gyfer datblygiad cynnar y Gymdeithas Gwiltiau a Chanolfan Celfyddydau Minerva.
- Dau rwydwaith thematig a gefnogwyd gan LEADER yn Sir Benfro: Rhwydwaith Amaethyddol Cynaliadwy Sir Benfro a Rhwydwaith Adeiladau Cymunedol Sir Benfro.

6.55 Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau achos hyn (er na ellir eu hystyried yn sampl gynrychioliadol o brosiectau a gefnogir gan LEADER yng Nghymru) yn dangos y canlyniadau tymor hwy y gall y mathau o brosiectau a gweithgareddau sy'n digwydd fel rhan o'r cynllun LEADER presennol eu cyflawni. Yn bwysig, maent hefyd yn dangos sut y gall gweithgareddau a gaiff eu treialu gan LEADER arwain at ddatblygiadau a chanlyniadau pellach. Yn ogystal, gallant ddangos gwerth darparu mathau penodol o gymorth y gellir eu datblygu wedyn yn gymorth 'prif ffrwd' yng Nghymru.

[51] Gellir gweld copi o'r Pecyn Cymorth Mapio Cymunedol yma: Cynllun Peilot Mapio Cymunedol

**Rôl LEADER yn RDP Cymru**

6.56 Mae angen ystyried canlyniadau cynllun LEADER yn y cyd-destun cywir. Yn benodol, mae angen eu hystyried drwy ddeall y rôl y cynlluniwyd y cynllun i'w gael o fewn RDP Cymru 2014–2020. Nid oedd LEADER yn ei fformat presennol wedi'i gynllunio i fod yn gynllun 'annibynnol' yn sefyll ar ei ben ei hun, er ei fod yn cael ei drafod yn aml mewn cyd-destun o'r fath.

6.57 Disgrifir LEADER (a dull CLLD) yn nogfen RDP Cymru i fod wedi'u gosod wrth wraidd 'taith' yr RDP ar gyfer darpar randdeiliaid, buddiolwyr, cymunedau a busnesau posibl yr RDP. Ymhellach, dywedir bod cynllun LEADER wedi'i gynllunio'n bennaf i ddwyn cymunedau ynghyd, i ysgogi a meithrin gallu'r cymunedau hynny, a'u herio i greu newid. Mewn rhai achosion, gall LEADER roi cyllid yn uniongyrchol ar gyfer prosiectau, megis prosiectau peilot eu natur, gan gyfeirio ac atgyfeirio at gyllid priodol i rai eraill[52].

6.58 Mae dogfen yr RDP yn cyfeirio'n aml at y cysylltiadau rhwng cynllun LEADER ac elfennau eraill y rhaglen, gan ddangos na chynlluniwyd LEADER i weithredu ar ei ben ei hun. Nodir hefyd yn nogfen RDP Cymru gysylltiad â Chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI), fel y dangosir gan y dyfyniad isod:

> *"Bydd Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yn helpu i ysgogi arloesedd a gall cynlluniau peilot LEADER llwyddiannus arwain at geisiadau i'r Cronfeydd ESI am gymorth. Ni fydd yr ERDF a'r ESF, yn uniongyrchol, yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygu lleol dan arweiniad y gymuned (CLLD) ond yn hytrach byddant yn gweithredu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid rhanbarthol fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol. Bydd gan y grwpiau hyn eu mecanweithiau eu hunain ar gyfer annog a chydlynu ymgysylltu lleol. Pan fo canfyddiadau gwerthusiad yn dangos y byddai hynny'n briodol, bydd y partneriaethau rhanbarthol a threfol hyn yn cynnig y posibilrwydd i gynyddu camau gweithredu peilot llwyddiannus trwy ddull LEADER neu gynlluniau lleol i waith arddangos rhanbarthol."* [53]

6.59 Nid oes data y gellir ei ddefnyddio i asesu'n effeithiol faint o brosiectau sydd wedi symud ymlaen o LEADER i elfennau eraill ar yr RDP, er bod enghreifftiau. Ar y cyfan, fodd bynnag, barn y rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn

---

[52] Y Deyrnas Unedig - Rhaglen Datblygu Gwledig (Rhanbarthol) – Cymru, Llywodraeth Cymru (fersiwn 3.1), Addaswyd Mawrth 2019, t. 1,304
[53] Ibid., t. 1,434

oedd nad oedd y cysylltiadau rhwng LEADER a chynlluniau RDP eraill wedi bod yn ddigon cryf. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r llwybrau a ddisgrifir yn yr RDP yn bodoli, gan fod y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF), y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS) a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) oll ar gael fel posibilrwydd i gefnogi dilyniant i brosiectau LEADER.

6.60 Roedd y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF), fodd bynnag, yn rhan allweddol o'r dull a fwriadwyd, wedi'i chynllunio i ddarparu mecanwaith clir ar gyfer prosiectau a syniadau i adnewyddu pentrefi a chael gwasanaethau sylfaenol a oedd wedi'u datblygu a'u treialu'n llwyddiannus fel rhan o ddull LEADER. Fodd bynnag, daethpwyd â'r Gronfa hon i ben yn ystod 2018.

6.61 Trafodwyd y rhesymau am hyn yn Adroddiad Gweithredu Blynyddol Manylach (AGB) 2018 ar gyfer RDP Cymru 2014–2020[54], gan gynnwys problemau canfyddedig yn nyluniad y cynllun a oedd wedi arwain at nifer is na'r disgwyl o brosiectau a gwariant llai na'r disgwyl. Yn benodol, tynnwyd sylw at broses ymgeisio gymhleth ar gyfer cynllun wedi'i dargedu at roi cymorth i grwpiau cymunedol. Soniwyd hefyd am y ffaith fod y cynllun yn rhoi cyllid cyfalaf yn unig a hyn wedi cyfyngu ar y gwaith. Ymhellach, mae'r AGB yn cyfeirio at yr angen am gefnogaeth ymhlith grwpiau cymunedol i ymgeisio am gyllid i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) ac na allai staff a gyflogid fel rhan o gynllun LEADER roi'r cymorth hwn. Teimlai rhanddeiliaid, fodd bynnag, yn hytrach na chau'r cynllun, y gellid wedi cyflwyno newidiadau er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd; teimlwyd mai'r prif rwystr i symud ymlaen o Fynegiant o Ddiddordeb i gais llawn oedd cymhlethdod y broses ac, ym marn rhanddeiliaid, gellid wedi datrys hyn. Serch hynny, caewyd y cynllun, gan adael bwlch yn y llwybrau ar gyfer cyllid pellach o fewn RDP 2014–2020 ar gyfer grŵp sylweddol o brosiectau LEADER.

6.62 Yn ystod y cyfweliadau ar gyfer y gwerthusiad hwn codwyd yn aml y penderfyniad i gau cynllun RCDF, yn benodol mewn perthynas â'r diffyg cyfle, o ganlyniad, i ariannu a datblygu ymhellach brosiectau a ddatblygwyd ac a dreialwyd fel rhan o LEADER. Er bod llwybrau eraill ar gael ar gyfer prosiectau sy'n cael eu treialu gan LEADER, teimlai rhanddeiliaid na fyddai'r rhain mor effeithiol â'r 'llwybr uniongyrchol' a gynlluniwyd i'w gynnig gan yr RCDF.

[54] Adroddiad Gweithredu Blynyddol (AIR) 2018 ar gyfer RDP Cymru, t. 127

# 7. Casgliadau ac argymhellion

7.1 Mae'r bennod olaf hon yn cyflwyno casgliadau'r gwerthusiad, gan wneud nifer o argymhellion. Roedd gan y gwerthusiad ddau amcan trosfwaol, sef: asesu (a) gweithredu LEADER yng Nghymru yn ystod cyfnod cyfredol y rhaglen, a (b) cyfraniad LEADER i ddatblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig ers ei roi ar waith yng Nghymru. Golygai hyn fod angen canolbwyntio ar iteriad presennol y cynllun, gyda rhanddeiliaid o ardaloedd GGLlau ledled Cymru yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Roedd hefyd, fodd bynnag, yn gofyn am edrych yn ôl ar iteriadau blaenorol o'r cynllun yng Nghymru. Roedd hyn eto'n cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, ond aethpwyd ati hefyd i adolygu llenyddiaeth berthnasol ac, er mwyn archwilio'r canlyniadau tymor hwy, datblygwyd astudiaethau achos ar gyfer gweithgareddau a ariannwyd yn flaenorol. Yn ôl yr arfer, mae cyfyngiadau ar y dystiolaeth y mae'r gwerthusiad hwn wedi gallu ei chasglu a'i defnyddio. Serch hynny, gobeithiwn fod y gwerthusiad wedi mynd i'r afael â'i ddau amcan trosfwaol.

7.2 Dylid nodi, yn unol â'r brîff ar gyfer y gwerthusiad, fod rhai o'r argymhellion a wneir yn berthnasol i reoli a chyflawni'r cynllun presennol, tra bod eraill yn edrych fwy at y dyfodol. Er hwylustod, y rhai sy'n berthnasol i'r cynllun presennol yw argymhellion 9, 11, 12 a 13. Ymhellach, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw ymrwymiad i barhau o gwbl â chynllun LEADER yng Nghymru y tu hwnt i oes y Rhaglen Datblygu Gwledig/RDP (2014–2020) bresennol, h.y. hyd at ddiwedd 2023. Pan wneir argymhellion ynghylch sut y gellid dylunio neu reoli unrhyw gynllun yn y dyfodol, gwneir hynny er mwyn llywio trafodaethau ynghylch unrhyw ddatblygiadau o'r fath neu weithgarwch yn y dyfodol. Ni ddylid eu darllen fel arwydd y bydd cynllun LEADER newydd yng Nghymru pan ddaw cyfnod y rhaglen bresennol i ben.

**Cyllideb a gwariant y rhaglen hyd yn hyn**

7.3 A chanddi gyllideb o £47.6m, nid cynllun ar raddfa fach yw LEADER. Fodd bynnag, mae'n cyfrif am bump y cant o gyfanswm cyllideb RDP Cymru. Mae'r cyllid hefyd wedi'i wasgaru ar draws 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol (21 ardal awdurdod lleol) ac ar draws 6 ac 8 mlynedd o weithgarwch. Mae cryn amrywiaeth rhwng cyllidebau GGLl unigol, o'r uchaf sydd ychydig dros £5m ym Mhowys i'r isaf sydd ychydig o dan £1m yn Nhorfaen dros oes y cynllun.

7.4 Ar lefel cynllun, roedd y gwariant ar ddiwedd mis Mawrth 2022 yn 70 y cant, gyda phrosiectau LEADER yn rhedeg tan fis Mehefin 2023 mewn rhai ardaloedd, ond wedi dod i ben yn llawer cynt mewn ardaloedd eraill. Mae’r lefel hon o wariant yn is na’r disgwyl ar y cam hwn (yn enwedig o ystyried bod hyn yn cynnwys estyniad i oes y cynllun). Rhaid ystyried effaith pandemig COVID-19 ar weithgareddau, ond mae pryderon wedi’u codi o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch rheolaeth ariannol y Grwpiau Gweithredu Lleol a’u gallu i ddefnyddio’r cyllid sydd wedi’i ddyrannu yn unol â’r proffil y cytunwyd arno.

7.5 Mae’r ffaith bod y cynllun yn dod i ben mor gynnar â mis Mawrth 2022 mewn rhai ardaloedd yn creu problem i Lywodraeth Cymru, a fydd angen gwneud penderfyniad yn y dyfodol agos iawn ar gynlluniau ar gyfer dyfodol gweithgarwch LEADER (neu CLLD) yng Nghymru i osgoi unrhyw fwlch mewn gweithgareddau mewn rhai ardaloedd.

7.6 **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud penderfyniad ar ddyfodol LEADER/CLLD yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

**Dangosyddion perfformiad a’r broses monitro**

7.7 Mae nifer ac ystod y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir ar gyfer LEADER yng Nghymru yn fach, a hynny mewn ymateb i feirniadaeth ar y system fonitro gymhleth a oedd ar waith yn ystod cyfnod blaenorol y rhaglen. Tra bod y system yn sicr yn symlach, mae’r rhestr fechan o ddangosyddion yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y data fel modd o farnu perfformiad LEADER fel cynllun ac fel dull gweithredu.

7.8 **Argymhelliad 2:** Dylid ystyried rhestr fwy cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad fel rhan o unrhyw gynllun yn y dyfodol, ond dylid yn dal ystyried yr angen i osgoi system fonitro sy’n rhy gymhleth.

7.9 Mae gan Grwpiau Gweithredu Lleol (drwy eu corff gweinyddol) fwy o reolaeth ariannol fel rhan o’r cynllun LEADER presennol nag o’r blaen. Yn ogystal, mae ganddynt fwy o sicrwydd ynghylch eu cyllideb oherwydd y symud i ffwrdd o’r broses gystadleuol a ddefnyddiwyd ar gyfer dyrannu cyllid mewn cynlluniau LEADER blaenorol yng Nghymru. Yn gyffredinol, ystyrir y rhain yn ddatblygiadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae Grwpiau Gweithredu Lleol yn dal yn feirniadol o’r baich gweinyddol sydd yn y broses rheolaeth ariannol, ac mae angen cydnabod hyn.

7.10 Er nad oedd ar waith drwy gydol oes y cynllun (oherwydd cyfyngiadau adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru), ystyriwyd bod rôl y Rheolwr Cysylltiadau Gwledig i fod yn bwynt cyswllt rhwng GGLlau/cyrff gweinyddol a Llywodraeth Cymru yn ddull effeithiol a oedd wedi cynorthwyo â'r cyfathrebu rhyngddynt.

7.11 **Argymhelliad 3:** Mae peidio â defnyddio'r dull cystadleuol a defnyddio dulliau rheoli ariannol symlach wedi bod yn llwyddiannus a dylid eu cadw fel rhan o unrhyw gynllun yn y dyfodol sydd â Grwpiau Gweithredu Lleol a datblygu gwledig dan arweiniad y gymuned (CLLD) fel y prif fecanwaith cyflawni. Dylai unrhyw brosesau monitro ariannol sydd ar waith fod mor syml â phosibl a dylid cael dull effeithiol o gyfathrebu rhwng y cyllidwr a'r corff cyflawni i gyd-fynd â'r prosesau hynny. Dylid ystyried cael Rheolwr Cysylltiadau ar gyfer y GGLl/corff gweinyddol fel rhan o unrhyw gynllun posibl yn y dyfodol, gyda mwyfwy o bwyslais efallai ar hwyluso rhwydweithio a gweithgareddau cydweithredol (gweler yr argymhellion eraill).

**Cyfyngiadau ar gymorth gwladwriaethol**

7.12 Roedd y cyfyngiadau ar gymorth gwladwriaethol a oedd mewn grym hyd at fis Mai 2021 yn destun sgwrs gyson gyda chadeiryddion a staff GGLlau. Cafodd y cyfyngiadau eu dileu i ymateb i effaith pandemig COVID-19, ond pan oedd y cyfyngiadau ar waith, roeddent wedi amharu ar allu GGLlau i roi cymorth i fusnesau, rhywbeth yr oeddent wedi gallu ei wneud yng nghyfnodau blaenorol y rhaglen. Mae rhesymeg glir yn sail i'r rheswm pam y cafwyd cyfyngiadau ar gymorth gwladwriaethol, a thra oedd y cyfyngiadau ar waith aethpwyd i'r afael â'r risg o orgyffwrdd â mecanweithiau eraill o roi cymorth i fusnesau. Fodd bynnag, mae hyn wedi dod ar gost i'r GGLl sy'n teimlo'n rhwystredig nad ydynt wedi gallu parhau i adeiladu a manteisio ar gysylltiadau a chydberthnasau a adeiladwyd yn ystod cyfnodau blaenorol y rhaglen. Mae llawer o'r farn bod y diffyg parhad hwn yn y math o gymorth y mae GGLlau wedi gallu ei roi ar draws cyfnodau'r rhaglen yn bwysig.

7.13 Y cwestiwn yw a oedd y risg o orgyffwrdd a dyblygu o ran cymorth i fusnesau yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau'r effaith ganfyddedig hon ar waith y GGLlau? Ymhellach, a oedd yna ffordd fwy effeithiol o fynd i'r afael â'r risg? At ei gilydd, mae dadl gryfach y dylid wedi cadw parhad ac y gellid wedi rheoli'r risgiau mewn ffordd fwy effeithiol; collwyd cyfleoedd i barhau i ddarparu cymorth i fusnesau drwy LEADER yn ystod cyfnod cyfredol y rhaglen.

### Gweinyddu ar lefel GGLl

7.14 Yn y rhan fwyaf o achosion, awdurdod lleol sy'n cyflawni swyddogaeth weinyddol y GGLl. Mae traean o'r GGLlau yng Nghymru, fodd bynnag, yn cael cymorth gweinyddol gan sefydliadau trydydd sector annibynnol – Menter Môn, Cadwyn Clwyd, a PLANED. Mae gwerthusiadau wedi canfod bod manteision ac anfanteision i'r 'modelau' awdurdod lleol a'r 'modelau' annibynnol – fel y cyfeirir atynt yn aml gan randdeiliaid. Yn bwysicach na'r ddadl ddu-a-gwyn braidd ynghylch pa 'fodel' sydd fwyaf effeithiol, byddem ni'n dadlau bod 'nodweddion' clir y gellir eu nodi fel rhai sy'n bresennol pan fydd gweinyddu LEADER ar ei fwyaf effeithiol, a'r nodweddion hynny'n cynnwys:

- Cael eu cydnabod fel cynllun/dull gweithredu annibynnol dan arweiniad y GGLl (h.y. nid yn cael ei 'gynnal' neu ei redeg fel rhan o'r awdurdod lleol)
- Cael eu gweld yn agored (ac yn ymatebol) i syniadau ac awgrymiadau newydd o unrhyw ffynhonnell (h.y. nid yn 'siop gaeedig')
- Bod â rhwydweithiau cryf ar waith ac yn gallu cydweithio'n llwyddiannus â chynlluniau eraill a gallu manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd o ystod o ffynonellau yn yr ardal (gan gynnwys o fewn yr awdurdodau lleol).

7.15 Rydym hefyd wedi gweld bod agweddau, sgiliau a galluoedd y staff yn hollbwysig i lwyddiant LEADER, efallai hyd yn oed yn fwy felly na'r nodweddion a nodir uchod.

7.16 Yn sgil nodi'r nodweddion hyn, a oes modd defnyddio'r hyn a ddysgwyd i lywio LEADER a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â GGLlau wrth symud ymlaen?

7.17 **Argymhelliad 4:** Mae nifer o nodweddion yn gysylltiedig â gweinyddu'r Grwpiau Gweithredu Lleol a gweithredu dull LEADER/CLLD yn effeithiol. Wrth symud ymlaen, dylid defnyddio'r canfyddiadau hynny i ystyried y potensial o roi arweiniad pellach ynghylch sut y dylid sefydlu'r corff gweinyddol ar gyfer GGLl (o fewn a thu allan i unrhyw gynllun LEADER yn y dyfodol – maent yn berthnasol i unrhyw ddull sy'n cynnwys GGLl), gan bwysleisio'r nodweddion allweddol a nodwyd.

7.18 Nodwedd o'r cynllun LEADER presennol yw bod y 18 GGLl yn cael eu cefnogi gan 15 o gyrff gweinyddol, gyda Menter Môn a Chadwyn Clwyd yn cefnogi sawl GGLl. Ceir enghreifftiau hefyd o GGLlau yn croesi ffiniau ardaloedd awdurdodau lleol, e.e. GGLl Dyffryn Wysg (sy'n cynnwys Sir Fynwy a Chasnewydd wledig). Canfu'r gwerthusiad fod manteision clir pan fo'r un sefydliad yn darparu cymorth gweinyddol

i sawl GGLl, gan gynnwys arbedion maint a'r gallu i rannu adnoddau ar draws sawl ardal (gan gynnwys swyddogion). Yn ogystal, ni welwn unrhyw reswm pam na ellir defnyddio dull o'r fath yn ehangach o bosibl.

7.19 **Argymhelliad 5:** Dylid archwilio cyfleoedd i'r un sefydliad ddarparu cefnogaeth weinyddol i sawl GGLl (neu i gyflawni swyddogaethau penodol ar ran sawl GGLl) fel rhan o ddyluniad unrhyw gynllun LEADER/CLLD yng Nghymru yn y dyfodol.

**Gweithredu dull LEADER**

*Strategaethau Datblygu Lleol*

7.20 Cyflwynir SDLl yng nghanllawiau LEADER/CLLD i fod yn rhan allweddol o'r dull. Yng Nghymru, mae gan yr SDLl ddwy swyddogaeth: (a) egluro sut y bydd LEADER yn cael ei reoli a'i gynnal, a (b) gosod blaenoriaethau ar gyfer LEADER yn yr ardal. Mae'r Strategaethau a luniwyd gan y GGLlau yn cyflwyno strategaethau eang iawn gyda phwyslais yn aml ar sicrhau na chaiff unrhyw weithgarwch posibl ei eithrio (yn hytrach na bod yn arweiniad ynghylch pa weithgarwch y dylid ei wneud).

7.21 Fodd bynnag, gellid cyflawni rôl y Strategaeth Datblygu Lleol yn y rhaglen gyfredol (yn benodol swyddogaeth 'b' uchod) drwy gyfres lawer symlach o werthoedd ac egwyddorion (yn seiliedig ar ddull LEADER) sy'n llywio gweithgareddau / blaenoriaethau'r GGLl, gyda'r strategaeth yn cael ei chyflwyno mewn dogfennau eraill sydd eisoes yn bodoli ar gyfer yr ardal neu'r rhanbarth.

7.22 **Argymhelliad 6:** Os caiff cynllun CLLD newydd ei ddatblygu, dylid ystyried y potensial i ddisodli'r angen i Grwpiau Gweithredu Lleol ddatblygu a chyflwyno eu SDLl hunain sydd â chasgliad o werthoedd ac egwyddorion sy'n cyfarwyddo'r GGLl ar sut i ddefnyddio cyllid LEADER/CLLD – gyda'r 'strategaeth leol' yn hytrach yn cael ei darparu gan strategaethau eraill sy'n bodoli yn ardaloedd yr awdurdod lleol ac/neu'r rhanbarthau y mae'r GGLlau yn weithredol ynddynt.

*Grwpiau Gweithredu Lleol*

7.23 Mae GGLlau yn ganolog i ddull LEADER/CLLD, ac mae presenoldeb cyson a rheolaidd aelodau mewn cyfarfodydd yn hanfodol i sicrhau parhad wrth wneud penderfyniadau, dealltwriaeth o weithgareddau parhaus, ac ati. Mae adroddiadau gwerthuso ar lefel GGLl wedi mynegi pryder ynghylch bylchau yn aelodaeth GGLl a lefelau presenoldeb gwael mewn rhai achosion. Rydym wedi canfod mai'r presenoldeb cyfartalog mewn cyfarfodydd GGLl yng Nghymru yw 11.4 aelod fesul

cyfarfod, gyda chynrychiolaeth o’r sector gwirfoddol/trydydd sector yr uchaf (4.5) a’r sector preifat yr isaf (3.1). Awgryma’r ffigurau hyn fod GGLlau yn dibynnu ar grŵp cymharol fach o unigolion i ddarparu’r gynrychiolaeth angenrheidiol.

7.24 Mae’n bwysig cydnabod y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud fel aelodau o GGLlau ledled Cymru – ni all LEADER/CLLD weithredu’n effeithiol heb y cyfraniadau hyn.

7.25 Parhau i gael eu nodi y mae’r heriau i ddenu aelodau GGLl yn gyffredinol, ond yn arbennig o’r sector preifat a phobl ifanc, a hyn wedi bod yn thema gyson mewn adroddiadau gwerthuso yn ymwneud â LEADER dros y blynyddoedd. Y cwestiwn yw pam fod y materion hyn yn parhau i gael eu codi. A ddylent fod wedi’u datrys erbyn hyn, yn enwedig o ystyried y pwyslais o fewn LEADER ar ddatblygu atebion newydd ac arloesol i broblemau hirsefydlog? Mae angen cydnabod y ffaith bod y rhain yn faterion anodd iawn i’w goresgyn. Serch hynny, wrth symud ymlaen dylid ymchwilio i ddulliau eraill o ennyn diddordeb aelodau i GGLlau, yn enwedig o blith grwpiau y bu’n anodd ymgysylltu â nhw.

7.26 **Argymhelliad 7:** Dylid archwilio ffyrdd newydd o ddenu aelodau GGLl o’r sector preifat a grwpiau oedran iau. Dylai’r rhain gynnwys ffyrdd y gellid ymgysylltu â’r grwpiau hynny heb iddynt orfod dod yn aelodau ‘llawn’ o’r GGLl, e.e. cael GGLl yn benodol ar gyfer pobl ifanc, gan archwilio materion lleol sy’n bwysig iddynt hwy. Dylid hefyd ystyried y potensial i ddefnyddio technolegau a llwyfannau ymgysylltu newydd fel rhan o’r broses.

7.27 Mae’n gadarnhaol canfod bod Grwpiau Gweithredu Lleol yn cynnwys cymysgedd o aelodau sydd â chryn brofiad ac aelodau cymharol newydd, a hyn wedi’i nodi mewn deunyddiau a gyhoeddwyd gan yr UE ar LEADER fel rhywbeth sydd ei angen er mwyn ‘adnewyddu’ gweithgareddau a meddylfryd LEADER ar lefel GGLl.

7.28 Mae’r rhan fwyaf o’r aelodau yn yr ystod oedran 45+, ac nid yw hyn yn annisgwyl o bosibl. Yn wir, mae’r ystod oedran yn ehangach na’r disgwyl, o ystyried peth pryder a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch amrywiaeth aelodau’r GGLl o ran eu hoedran (mae peth pryder bod GGLlau yn cael eu dominyddu gan grwpiau oedran hŷn). Mae rhaniad cyfartal rhwng aelodau gwrywaidd a benywaidd, sy’n gadarnhaol. Llai cadarnhaol yw bod aelodau’r GGLl bron yn gyfan gwbl wyn (97 y cant). Nid oes llawer o amrywiaeth o ran ethnigrwydd, er bod hyn yn adlewyrchu’r sefyllfa mewn

rhannau gwledig o Gymru. Fodd bynnag, gellid dadlau bod angen mwy o amrywiaeth ac y byddai hynny'n ddatblygiad cadarnhaol.

7.29 **Argymhelliad 8:** Dylid rhoi pwyslais ar ymgysylltu â grŵp mwy amrywiol o bobl o ran eu cefndir ethnig mewn gweithgareddau LEADER/CLLD a Grwpiau Gweithredu Lleol yn y dyfodol.

7.30 Er bod y farn yn ffafriol ar y cyfan, roedd rhywfaint o bryder ynghylch sut yr ymgysylltwyd/ymgynghorwyd â'r gymuned leol fel rhan o LEADER a pha mor gynrychioliadol oedd y GGLl o'r gymuned leol, a dylid cydnabod hynny.

7.31 Mae hefyd angen cydnabod y ffaith bod aelodau GGLl yn mynychu cyfarfodydd yn wirfoddol (nid ydynt yn cael eu digolledu mewn unrhyw ffordd am eu cyfranogiad). Mae rhai aelodau yn mynychu cyfarfodydd fel rhan o'u swyddi, yn enwedig y rheiny o'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae cyfyngiad bob amser ar faint o amser y gallant ei neilltuo i weithgareddau GGLl (mewn cyfarfodydd a thu hwnt). Rhaid cadw mewn cof y disgwyliadau yn y rôl y gallant ei chyflawni (a'r amser y gallant ei ymrwymo). Mae'r rhain yn cynnwys disgwyliadau ynghylch i ba raddau y disgwylir i aelodau'r GGLl ymgynghori â'r sectorau y maent yn eu 'cynrychioli' yn y grŵp. Os ydynt yn gynrychiolwyr 'proffesiynol' (e.e. yn cynrychioli'r trydydd sector neu grŵp o fusnesau), mae'r cwestiwn yn ddilys. Fodd bynnag, mae angen ystyried rôl yr unigolyn y tu allan i'r GGLl.

7.32 Mae hwn yn fater sydd angen ei ystyried ochr yn ochr â'r angen i archwilio sut mae aelodau GGLl yn cael eu denu i'r grwpiau. Canfu'r gwerthusiad fod aelodau GGLl yn elwa o'u hymwneud â LEADER, yn enwedig o ran dysgu a rhwydweithio. Mae cynyddu (a hyrwyddo) y buddion hynny o bosibl yn rhan bwysig o ddenu a chadw aelodau GGLl a chreu gwerth am yr amser sydd ei angen ar aelodau i ymrwymo i'r broses. Gallai hefyd fod yn fodd o gyfoethogi'r canlyniadau a gynhyrchir gan broses/cynllun CLLD, gan y byddai cyflogwyr/busnesau/sefydliadau lletyol aelodau GGLl yn elwa o ganlyniad.

7.33 **Argymhelliad 9:** Dylid archwilio ffyrdd o gynyddu'r budd a ddaw i aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol o ganlyniad i'w cyfranogiad yn y cynllun ac yna ei ddefnyddio fel sail i ddenu aelodau newydd i'r grwpiau. Gallai hyn gynnwys mwy o bwyslais ar weithgareddau hyfforddi/dysgu ar gyfer aelodau (a staff) y GGLl, a hynny, yn ein barn ni, yn rhywbeth y gellid ei ddechrau nawr, wrth i'r cynllun presennol ddod i ben. Er enghraifft, gellid cynnal hyfforddiant ar ddulliau creadigol i ddatrys problemau

ac/neu ymgysylltu cymunedol. Byddem hefyd yn awgrymu y gallai hyfforddiant/dysgu o'r fath gael ei ymestyn y tu hwnt i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â LEADER a draw at y rheiny sy'n ymwneud â datblygu gwledig yng Nghymru fel modd o annog rhwydweithio a rhannu dysgu.

*Bywiocáu'r ardal leol, rhwydweithio, a chydweithio*

7.34 Roedd ymatebwyr yr arolwg a rhanddeiliaid ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch gallu LEADER i annog datblygu syniadau/prosiectau yn yr ardal leol. Mae'r dull o 'fywiocáu'r ardal leol', fodd bynnag, yn amrywio ledled Cymru, gyda pheth pryder fod dull 'cynllun grantiau' mewn rhai ardaloedd. Nid yw amrywio yn y dull gweithredu yn annisgwyl. Mae strwythur y tîm a sefydlwyd mewn ardal i gyflawni'r cynllun yn dylanwadu ar y dull hwn, a'r strwythur hwn yn amrywio ledled Cymru (dan ddylanwad faint o adnoddau a oedd ar gael yn ogystal â strwythur y tîm).

7.35 Mae hefyd angen ystyried y gwahaniaethau yn lefelau profiad y timau (ac yn y sefydliad cyfan), gan fod staff mewn rhai ardaloedd wedi bod yn ymwneud â LEADER ers cryn amser, ond y staff yn gymharol ddibrofiad mewn ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a'r profiad hwn mewn perygl wrth i ni nesáu at ddiwedd cyfnod cyfredol y rhaglen heb gynllun clir ar gyfer unrhyw olyniaeth i gynllun LEADER yng Nghymru (gweler Argymhelliad 1).

7.36 Canfu'r gwerthusiad hefyd mai prin yw'r gweithgareddau hyfforddi ledled Cymru sy'n gysylltiedig â CLLD/LEADER. Er enghraifft, ychydig o hyfforddiant a roddwyd i staff neu aelodau GGLl ar ddulliau o ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned leol neu gefnogi datblygu meddylfryd arloesol mewn cymunedau. Gellid darparu hyfforddiant o'r fath hefyd mewn ffordd sy'n hybu rhwydweithio ymhlith timau LEADER ac aelodau GGLlau o wahanol rannau o Gymru.

7.37 **Argymhelliad 10:** Dylid archwilio'r potensial i gyflwyno hyfforddiant (a mentora) i'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno gweithgareddau LEADER/CLLD yng Nghymru, gan fod â phwyslais ar gynnal gweithgareddau bywiocáu yn effeithiol a datblygu dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu gwledig. Dylai unrhyw hyfforddiant o'r fath fod yn rhan o weithgareddau rhwydweithio sydd â phwyslais ar greu cyfleoedd i staff ac aelodau GGLl sy'n ymwneud â CLLD rannu eu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Unwaith eto, byddem hefyd yn awgrymu bod potensial i ehangu unrhyw hyfforddiant/mentora a gyflwynir y tu hwnt i gynllun LEADER i'r rheiny sy'n ymwneud â datblygu gwledig yn fwy cyffredinol.

7.38 Mae rhwydweithio yn nodwedd allweddol o LEADER, gan gynnwys ymhlith staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun. Fodd bynnag, ar y cyfan ni wireddwyd y cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a rhannu gwybodaeth a phrofiad o fewn timau ledled Cymru. Mae rhywfaint o rwydweithio rhanbarthol wedi digwydd, ond prin oedd y rhain.

7.39 Canfu'r gwerthusiad mai isel yw ymwybyddiaeth aelodau'r GGLl a staff am weithgareddau GGLlau eraill, hyd yn oed gweithgareddau mewn rhannau eraill o Gymru. Mae rhwydweithio a chydweithredu yn nodweddion allweddol yn null LEADER, ond mae'r ddau, fodd bynnag, yn gofyn am ymwybyddiaeth o'r hyn y mae GGLlau eraill yn ei wneud. Mae hefyd yn sbardun allweddol i arloesi, yn ogystal â nodwedd allweddol o LEADER. Mae lefelau isel yr ymwybyddiaeth am weithgarwch LEADER sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill felly yn peri pryder ac yn golygu nad yw un o nodweddion allweddol y cynllun wedi'i gwireddu yng Nghymru.

7.40 Y rhesymeg y tu ôl i gynnwys cydweithredu fel elfen o ddull LEADER yw ei fod yn ychwanegu dimensiwn ehangach i ddatblygu lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae cydweithredu hefyd yn mynd ymhellach na rhwydweithio drwy gynnwys pobl leol a Grwpiau Gweithredu Lleol i weithio gydag eraill i gynnal prosiect ar y cyd.

7.41 Bu cydweithredu o fewn y cynllun yng Nghymru, a chefnogwyd 71 o brosiectau cydweithredu (tua 10 y cant o gyfanswm yr holl brosiectau). Mae cryn dipyn o'r cydweithredu hwnnw wedi digwydd gyda GGLlau cyfagos gan gynnal yr hyn y gellid ei ddisgrifio yn y bôn yn brosiectau rhanbarthol. Dim ond pedwar o'r prosiectau hynny sydd wedi bod gyda phartneriaid trawswladol, sy'n golygu bod cyfle ar gael i GGLlau fel rhan o gynllun LEADER.

7.42 **Argymhelliad 11:** Dylid rhoi mwy o bwyslais ar rwydweithio a chydweithio yn y dyfodol, gan gynnwys dros weddill oes y cynllun LEADER presennol. Dylai hyn gynnwys mwy o bwyslais ar rannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiectau a gefnogir gan LEADER, a hynny o fewn strwythur LEADER yn ogystal â chydag eraill sy'n ymwneud â datblygu gwledig yng Nghymru.

*Y prosiectau a gefnogwyd*

7.43 Cefnogwyd dros 700 o brosiectau gan gynllun presennol LEADER yng Nghymru. Mae'r ystod o brosiectau a gweithgareddau yn sylweddol, gyda nifer o syniadau arloesol yn cael eu treialu yn ogystal â'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel prosiectau datblygu lleol mwy 'traddodiadol'.

7.44 Un o’r heriau wrth werthuso cynllun LEADER yw amrywiaeth enfawr y prosiectau sydd wedi’u hariannu. Lluniwyd rhestr hir o enghreifftiau o brosiectau, gan mai dyma'r unig ffordd i wir werthfawrogi amrywiaeth ac ystod y prosiectau.

7.45 Mae ein hadolygiad o’r prosiectau a gefnogwyd wedi canfod i weithgareddau gael eu cynnal sy’n cyflawni yn erbyn pob un o Themâu Trawsbynciol Llywodraeth Cymru a chyllid Ewropeaidd, ac mae hyn yn gadarnhaol. Mae prosiectau a gefnogir gan LEADER hefyd yn cyflawni nifer o’r amcanion a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Cymru, gan ddangos rôl bosibl cynllun LEADER/CLLD wrth gyflawni amcanion strategol cenedlaethol, fel y trafodir ymhellach yn nes ymlaen.

7.46 Fodd bynnag, collwyd cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach ymhlith GGLlau, gyda phrosiectau tebyg iawn yn cael eu cynnal gan GGLlau mewn gwahanol ardaloedd. Awgryma hyn hefyd y collwyd y posibilrwydd i gael arbedion maint a mwy o effeithlonrwydd trwy fwy o gydweithredu. Serch hynny, efallai nad yw hyn yn syndod, o ystyried y lefelau cyfyngedig o wybodaeth am brosiectau LEADER eraill ledled Cymru ymhlith aelodau a staff GGLl fel y nodwyd yn flaenorol.

7.47 Gellid dadlau hefyd y dylai fod mwy o ffocws ar arloesi yng ngweithgareddau’r GGLl, gyda mwy o gymorth yn cael ei roi i helpu cymunedau a sefydliadau lleol i feddwl yn greadigol a datblygu syniadau newydd ac arloesol, a hyn yn gysylltiedig â’r argymhellion blaenorol yn ymwneud â hyfforddiant a rhwydweithio ymhlith y rheiny sy’n ymwneud â LEADER/CLLD yng Nghymru.

7.48 Mae datblygu Theori Newid ar gyfer LEADER wedi canfod bod dau ffactor yn allweddol os yw’r ddamcaniaeth i fod yn effeithiol. Yn gyntaf, ar y cam canlyniadau, mae’n hollbwysig bod cysylltiad yn ôl o’r dysgu a gynhyrchwyd drwy’r peilot a’r prosiectau arloesol a gefnogir gan LEADER i’r gweithgarwch ei hun; dim ond os caiff ei rannu ac y gweithredir arno y bydd dysgu yn effeithiol. Yn ail, ar lefel effaith, mae’n holl bwysig fod cyllid pellach neu barhaus ar gael (ac yn hygyrch) i brosiectau ‘prif ffrwd’ y mae LEADER wedi nodi eu bod yn effeithiol.

7.49 **Argymhelliad 12:** Dylai Grwpiau Gweithredu Lleol sicrhau eu bod yn cofnodi'n effeithiol yr hyn a ddysgwyd o brosiectau a ariannwyd yn rhan o'r rhaglen gyfredol. Dylid rhoi proses ar waith hefyd i goladu a rhannu'r hyn a ddysgir gyda'r rhai sy'n ymwneud â datblygu gwledig ledled Cymru (nad yw'n gyfyngedig i LEADER), gyda'r bwriad o gefnogi/annog 'prif ffrydio' gweithgareddau llwyddiannus, osgoi dyblygu gweithgareddau mewn ardaloedd gwledig a thynnu sylw at wersi a ddysgwyd. Un dull posibl fyddai sefydlu 'canolbwynt gwybodaeth' ar gyfer prosiectau LEADER, y gellid ei ddefnyddio wedyn a'i gadw y tu hwnt i ddiwedd y cynllun presennol.

7.50 Yn gysylltiedig â'r uchod, canfuwyd bod GGLlau, ar gyfartaledd, yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser hyd yma yn asesu ceisiadau am gyllid/cymorth ac yn trafod yr anghenion a'r blaenoriaethau yn yr ardal leol sy'n ganolog i'w rôl. Treuliwyd llai o amser hyd yma ar adolygu a thrafod yr hyn a gyflawnwyd. Er y gallai amseriad y gwerthusiad fod wedi dylanwadu ar hyn, byddem yn disgwyl i fwy o amser gael ei dreulio ar y rôl hon wrth symud ymlaen, o ystyried y ffocws ar ddulliau newydd ac arloesol o ddatblygu gwledig.

7.51 **Argymhelliad 13:** Dylai Grwpiau Gweithredu Lleol sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n ddigonol ar adolygu'r prosiectau sydd wedi'u cefnogi a chasglu'r gwersi a ddysgwyd (ac yn y blaen) ar gyfer gweddill oes y cynllun LEADER presennol. Dylai casglu a rhannu'r wybodaeth hon fod yn flaenoriaeth.

**Canlyniadau a gwerth ychwanegol**

7.52 Ystyriwyd bod cyfuno ymgynghori lleol ag adnoddau i wireddu'r syniadau a gyflwynwyd yn allweddol i lwyddiant LEADER a CLLD yn fwy cyffredinol, yn ogystal â natur hirdymor y cymorth a gynigid, gan ei fod wedi bodoli yng Nghymru ers y 1990au. Mae'r canllawiau ar werth ychwanegol LEADER (wedi'u llunio gan y CE) yn disgrifio 'elfennau' y dull gweithredu i fod yn rhai sydd 'wedi'u cydblethu'n agos' ac yn ffurfio 'cyfanwaith anwahanadwy'. Mae hyn yn ei hanfod yn dweud bod gwerth ychwanegol y cynllun yn deillio o weithredu'r dull *fel cyfanwaith* ac na ellir ei atgynhyrchu trwy weithredu elfennau unigol y dull.

7.53 Cefnoga hyn y farn a fynegwyd gan randdeiliaid wrth drafod gwerth LEADER, gyda'r tîm gwerthuso yn disgrifio'r cynllun (i aralleirio) fel 'ymgynghori â phwrpas a gyda'r potensial i wireddu syniadau a awgrymir', er enghraifft. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod enghreifftiau yng Nghymru o gynlluniau a phrosiectau eraill a allai roi elfennau o ddull LEADER ar waith (ran amlaf mewn cysylltiad ag ymgysylltu â'r

gymuned) ond nid y dull gweithredu yn ei gyfanrwydd, ac mae hyn yn allweddol. Mae LEADER yn ddull penodol o fynd ati i ddatblygu'n lleol ac ni ddylid ei ystyried yn 'gynllun' yn unig.

7.54 Dywedir bod gwerth ychwanegol LEADER yn amlygu ei hun drwy (a) gwell cyfalaf cymdeithasol, (b) gwell llywodraethu, a (c) gwell canlyniadau (prosiectau gwell), ac mae'r gwerthusiad wedi canfod tystiolaeth o'r cynllun yn cynhyrchu pob un o'r canlyniadau hyn yng Nghymru. Mae effaith y prosiectau unigol a'r cynllun, serch hynny, bob amser yn effaith lleol a phrin y gellid ei ddisgrifio yn 'aruthrol'; nid dyna rôl LEADER. Mae angen ystyried canlyniadau LEADER hefyd drwy ddeall y rôl y cynlluniwyd y cynllun i'w cael o fewn RDP Cymru 2014-2020, lle y'i disgrifir i fod 'wrth galon taith yr RDP' ac wedi'i gynllunio i fod yn llwybr i'r RDP ar gyfer cymunedau a rhanddeiliaid na fyddent o bosibl yn manteisio ar yr RDP trwy lwybrau eraill. Yn holl bwysig yn hyn o beth, fel y cydnabyddir yn nogfen RDP Cymru, yw'r cysylltiadau rhwng LEADER ac elfennau eraill yr RDP. Yn gyffredinol, fodd bynnag, barn y rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn oedd nad oedd y cysylltiadau rhwng LEADER a chynlluniau eraill yr RDP wedi bod yn ddigon cryf, heb unrhyw lwybr clir i brosiectau a dreialwyd yn llwyddiannus drwy ddull LEADER i fynd ymlaen ymhellach.

7.55 Mae astudiaethau achos ar gyfer prosiectau a gweithgareddau a ariannwyd yn ystod cyfnodau blaenorol y rhaglen yn y prif adroddiad yn dangos y canlyniadau tymor hwy y gall gweithgarwch LEADER esgor arnynt cynhyrchu. Mae'n amlwg hefyd fod manteision i barhad sefydliad sy'n gweithredu LEADER dros gyfnod hir.

7.56 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae prosiectau a gynhelir fel rhan o gynllun LEADER yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â Themâu Trawsbynciol Llywodraeth Cymru a'r RDP, gyda nifer o brosiectau, er enghraifft, yn cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn dangos y rôl y gall LEADER ei chwarae wrth gyflawni amcanion rhaglen/ amcanion cenedlaethol ac, yn bwysig, wrth dynnu cymunedau lleol yn uniongyrchol i mewn i ddatblygu a chynnal prosiectau o'r fath. Ymhellach, mae gweithgarwch o fewn LEADER sy'n cyflawni pob un o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, ac mae'r ffordd y mae LEADER yn cael ei gynnal yn cyd-fynd yn llwyr â'r 'ffyrdd o weithio' a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[55]: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal.

[55] Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

7.57 Cwestiwn pwysig nad yw'r gwerthusiad hwn wedi gallu mynd i'r afael ag ef yw 'gwerth am arian' cynllun LEADER yng Nghymru. Mae gwerth am arian yn ddyfarniad ynghylch y defnydd gorau posibl o adnoddau cyhoeddus i gyflawni amcanion a nodwyd[56]. Fodd bynnag, mae asesu gwerth am arian LEADER yn heriol. Rheswm allweddol am hyn yw bod LEADER yn gynllun o fewn rhaglen ehangach. O'r herwydd, mae dadl na ddylid ystyried ei werth am arian ar ei ben ei hun, ond yn hytrach y dylid ei ddeall a'i asesu fel rhan o rôl y cynllun o fewn y rhaglen fwy o faint honno. Fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn, cynlluniwyd cynllun LEADER i ddarparu llwybr i grwpiau a phrosiectau cymunedol iddynt, yn sgil eu hymgysylltiad â LEADER, symud ymlaen i elfennau eraill yr RDP. At hynny, gallai prosiectau a gafodd eu treialu'n llwyddiannus gan LEADER wedyn gael eu hariannu ar raddfa fwy gan elfennau eraill yr RDP. Yn ogystal, mae cynllun LEADER yn dal i fod yn weithredol, sy'n golygu nad oes gennym ddata terfynol mewn perthynas â gwariant neu allbynnau.

7.58 Mae cynnal unrhyw fath o ddadansoddiad cost a budd o LEADER hefyd yn heriol oherwydd yr ystod eang o weithgareddau a ariennir ac/neu a gynhelir. Mae hyn yn arwain at ddiffyg cysondeb o ran 'budd' (canlyniadau), sy'n gwneud dadansoddi yn anodd. Mae angen rhoi sylw hefyd i'r angen i ystyried canlyniadau prosiectau a ariennir yn y tymor hwy. O ran cost-effeithiolrwydd, mae cyfrifiadau megis y gost fesul GGLl neu fesul prosiect yn bosibl, fel y ceir yn yr adroddiad hwn, ond mae cymharu'r ffigurau hynny â rhai cynlluniau neu raglenni eraill yn heriol oherwydd natur unigryw cynllun LEADER.

7.59 Fel y nodwyd eisoes yn y bennod hon, gyda chyllideb o £47.6m, ni ellir ystyried LEADER yn gynllun ar raddfa fach. Fodd bynnag, mae'n cyfrif am bump y cant o gyfanswm cyllideb RDP Cymru, sy'n golygu mai elfen gymharol fach o'r rhaglen ydyw. Mae'r cyllid hefyd wedi'i wasgaru ar draws 18 o GGLlau (21 ardal awdurdod lleol) ac ar draws 6 ac 8 mlynedd o weithgarwch, sy'n golygu bod cryn dipyn o weithgarwch wedi'i ariannu fel rhan o'r cynllun. Os defnyddiwn y targed o 773 o brosiectau peilot i fod yn brif allbwn y cynllun, mae'n cynrychioli cost o £61,500 fesul prosiect. Ni fyddai'r ffigur hwnnw, fodd bynnag, yn ystyried canlyniadau'r broses o gyflwyno dull LEADER, sydd, fel y trafodwyd yn flaenorol yn y bennod hon, yn bwysig wrth ystyried gwerth ychwanegol y dull gweithredu. Er ei bod yn anodd

[56] Ffynhonnell: Y Llyfr Gwyrdd, t. 52

mesur y budd, mae LEADER yn ddull sy'n cynhyrchu sawl canlyniad oherwydd y ffordd y caiff ei gyflwyno a hefyd drwy'r gweithgareddau y mae'n eu hariannu.

7.60 **Argymhelliad 14:** Dylid ystyried LEADER yn ddull ehangach o ymdrin â datblygu lleol dan arweiniad y gymuned (CLLD) ac nid fel rhaglen neu gynllun unigol. Wrth symud ymlaen ar lefel ehangach, dylid ystyried LEADER/CLLD yn fecanwaith/dull ar gyfer cyflawni blaenoriaethau llywodraethol yng Nghymru, gan gynnwys y rhai yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn hytrach na dim ond yn rhan o unrhyw raglen datblygu gwledig ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid cynnal dull LEADER 'yn ei gyfanrwydd' heb ei wanhau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i roi cyllid hirdymor i GGLlau i gynnal gweithgareddau LEADER/CLLD.